

CBAC Safon Uwch Y Gyfraith Llyfr 1 – Atebion

Pennod 1: Natur y Gyfraith a Systemau Cyfreithiol Cymru a Lloegr

Deddfu

Gweithgaredd 1.1 Pasio Mesur

Rhif y cam	Beth sy'n digwydd ar y cam hwn
12	Mae Deddf Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored 2025 yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.
3	Mae enw Cerys Jones AS yn cael ei ddewis er mwyn cyflwyno'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored fel Mesur Aelodau Preifat.
7	Mae'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored yn pasio drwy'r cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.
9	Mae'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored yn pasio i Dŷ'r Arglwyddi, lle mae'n mynd drwy 5 cam.
11	Mae Tŷ'r Cyffredin yn pleidleisio i basio'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored.
13	Mae Deddf Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored 2025 yn dod i rym.
8	Mae'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored yn cael ei drydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.
1	Mae carfan bwyso, Hyrwyddo Aer Glân (HAG), yn dechrau ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn mynnu bod yr ardaloedd yn union y tu allan i bob adeilad yn cael eu cadw'n ddi-fwg.
5	Mae'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored yn cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin.
4	Mae'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored yn cael ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin.
2	Mae Cerys Jones AS yn cefnogi ymgyrch HAG.
6	Mae'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored yn pasio drwy'r cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.
10	Mae Tŷ'r Arglwyddi yn pleidleisio i basio'r Mesur Ysmygu mewn Mannau Awyr Agored.

Gweithgaredd 1.2 Mathau o Fesurau

Math o Fesur	Esboniad	Enghraifft
Mesur Cyhoeddus	Bydd yn effeithio ar unigolion neu gorfforaethau yn unig	Deddf Erthylu 1967
Mesur Preifat	Mae hwn yn cael ei noddi gan ASau unigol sy'n cael eu dewis drwy dynnu enw o het i gyflwyno eu Mesur i'r Senedd	Deddf Rheithgorau 1974
Mesur Aelodau Preifat	Mae hwn yn cynnwys materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus sydd fel arfer yn adlewyrchu manifesto'r llywodraeth	Deddf Harbwr Whitehaven 2007

Gweithgaredd 1.3 ‘Fakebook’ Damcaniaethwyr

Gallai profiliau gynnwys y wybodaeth ganlynol:

A. V. Dicey (sofraniaeth seneddol)

Amdanaf i: Rydw i’n ysgolhaig enwog o Rydychen sydd wedi datblygu safbwynt traddodiadol am sofraniaeth seneddol.

Termau allweddol:

- **cyfansoddiad:** un ddogfen gyfreithiol, ysgrifenedig, yn nodi’r cyfreithiau sylfaenol sy’n esbonio sut mae’r wladwriaeth yn gweithio.
- **adolygiad barnwrol ysgrifenedig:** y broses o herio cyfreithlondeb penderfyniad, gweithred neu fethiant i weithredu ar ran corff cyhoeddus fel adran llywodraeth.
- **cynsail farnwrol:** enw arall ar hyn yw cyfraith achosion. Ffynhonnell cyfraith lle gall penderfyniadau barnwyr yn y gorffennol greu cyfraith i farnwyr y dyfodol ei dilyn.

Trosolwg sofraniaeth seneddol

Mae gan y Senedd bŵer absoliwt a diderfyn, ac mae Deddf Seneddol yn gallu dirymu unrhyw ffynhonnell arall o gyfraith.

Manylion sofraniaeth seneddol

1. **Mae’r Senedd yn sofran a gall wneud neu ddadwneud unrhyw ddeddf ar unrhyw bwnc heb gyfyngiadau cyfreithiol:** Y Senedd yw ffynhonnell uchaf cyfraith Lloegr. Mae ganddi’r hawl i wneud neu ddadwneud unrhyw ddeddf, ac i drechu neu roi o’r neilltu unrhyw ddeddfwriaeth sy’n bodoli. Mae’r Senedd yn cael ei hethol yn ddemocrataidd ac felly mae ganddi’r llaw uchaf wrth lunio’r deddfau y mae’n rhaid i ni eu dilyn.
2. **Ni all unrhyw Senedd rwyngu un arall:** Gall Deddf Seneddol sy’n cael ei phasio gan Senedd flaenorol gael ei diddymu gan y Senedd nesaf. Does dim un Deddf Seneddol wedi’i hymwreiddio.
3. **Ni ellir herio unrhyw Ddeddf gan lys ac ni ellir cwestiynu ei dilysrwydd:** Hyd yn oed petai honiad bod Deddf wedi ei phasio drwy dwyll, mae’n rhaid i’r llysoedd ei chynnal. Nid yw’n bosibl i ‘gorff’ arall o’r wladwriaeth ei dirymu, ac eithrio drwy adolygiad barnwrol.

Bygythiadau allweddol i sofraniaeth seneddol

1. Aelodaeth o’r Undeb Ewropeaidd.
2. **Deddf Hawliau Dynol 1998.**
3. Datganoli.

A. V. Dicey (rheolaeth cyfraith)

Amdanaf i: Rwyf yn ysgolhaig enwog o Rydychen a gwnes i hefyd gynnig damcaniaeth ddylanwadol ynghylch rheolaeth cyfraith.

Damcaniaethwyr eraill sy’n cefnogi rheolaeth cyfraith: Mae enghreifftiau yn cynnwys yr Arglwydd Bingham a Joseph Raz.

Trosolwg rheolaeth cyfraith

Dylai’r wladwriaeth lywodraethu ei dinasyddion yn unol â rheolau a gytunwyd.

Manylion rheolaeth cyfraith

1. **Dim cosb heb dorri cyfraith:** Ni ddylai neb gael ei gosbi oni bai ei fod wedi torri cyfraith. Dylid cael gweithdrefn gyfreithiol gywir a dylai’r holl gyfraith fod yn gyhoeddus. Ni ddylai unrhyw ddeddf gael effaith ôl-weithredol. Gall gweithredoedd a

phenderfyniadau gweinidogion y llywodraeth gael eu herio gan adolygiad barnwrol er mwyn sicrhau nad oes gan y wladwriaeth bwerau i wneud penderfyniadau mympwyol.

2. Dylai un gyfraith lywodraethu pawb: Mae pob unigolyn (gan gynnwys y llywodraeth) yn gyfartal gerbron y gyfraith. Mae achosion llys, y mecanweithiau barnwrol sy'n rheoli cymdeithas, yn gymwys i ddinasyddion, y llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, rhoddir mwy o bwerau i rai o sefydliadau'r wladwriaeth, fel yr heddlu, nag i ddinasyddion eraill, er mwyn i'r wladwriaeth allu gweithredu.

3. Sicrhau hawliau unigolion trwy benderfyniadau barnwyr: Mae'r llysoedd uchaf yn gwneud penderfyniadau y mae'n rhaid i'r llysoedd is eu dilyn, gan atal egwyddorion cyfreithiol newydd rhag cael eu creu'n rheolaidd.

Torri rheolaeth cyfraith

Mae enghreifftiau yn cynnwys John Hemming AS yn defnyddio braint seneddol i ddatgelu enw pêl-droediwr enwog a oedd yn destun gwaharddeb, ASau Ceidwadol yn cynnig anwybyddu dyfarniad gan Lys lawnderau Dynol Ewrop (ECtHR) a oedd yn rhoi hawl i garcharorion yn y DU bleidleisio, a defnyddio **Deddf Hawliau Dynol 1998** i amddiffyn Abu Qatada pan gafodd ei allgludo i Iorddonen.

Montesquieu (gwahaniad pwerau)

Amdanaf i: Rydw i'n athronydd Ffrengig o'r ddeunawfed ganrif.

Sut mae fy namcaniaeth yn gymwys yng Nghymru:

Y Weithrediaeth: Llywodraeth Cymru yw'r Weithrediaeth, yn cynnwys cynrychiolwyr y blaid sydd wedi ennill mwyafrif y seddi yng Nghynulliad Cymru. Ei rôl yw gweithredu'r deddfau a wnaed drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Corff deddfwriaethol: Cynulliad Cymru yw corff deddfwriaethol Cymru ac mae'n cynnwys 60 Aelod Cynulliad (ACau), sy'n craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig a gyflwynir yn Senedd San Steffan. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio deddfau mewn 20 maes datganoledig.

Y farnwriaeth: Mae **Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005** yn gymwys yng Nghymru yn ogystal â Lloegr, er mwyn sicrhau annibyniaeth barnwyr.

Trosolwg gwahaniad pwerau

Yr unig ffordd o ddiogelu rhyddid dinasyddion yw drwy gadw tair rhan y wladwriaeth ar wahân.

Gwahaniad pwerau

Mae gan y wladwriaeth dair swyddogaeth ar wahân: deddfwriaethol (senedd, sy'n llunio'r gyfraith), gweithredol (y llywodraeth, sy'n gorfodi'r gyfraith) a'r farnwriaeth (barnwyr, sy'n cymhwyso a dehongli'r gyfraith yn y llysoedd). Ni ddylai unigolion fod yn aelodau o fwy nag un rhan o'r wladwriaeth.

Bygythiadau i wahaniad pwerau

Mewn gwirionedd, mae rhywfaint o orgyffwrdd. Er enghraifft, y Prif Weinidog a'i gabinet yw'r Weithrediaeth, ond maen nhw hefyd yn aelodau Seneddol sy'n eistedd yn y corff deddfwriaethol. Mae'r Weithrediaeth yn dylanwadu ar y rhaglen ddeddfwriaethol, oherwydd bod polisïau a gynigir yn aml yn rhan o faniffesto'r llywodraeth, a gallan nhw adlewyrchu safbwynt gwleidyddol penodol, gan fod y Weithrediaeth fel arfer yn cael ei ffurfio gan y blaid a enillodd y nifer mwyaf o seddau mewn etholiad cyffredinol. Mae hyn yn cael ei ystyried yn dderbyniol, fodd bynnag, y cyhoedd sy'n ethol y Weithrediaeth.

Roedd Tŷ'r Arglwyddi yn arfer bod yn llys apêl uchaf y DU, yn ogystal â siambr ddadlau deddfwriaethol. Gwnaeth **Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005** greu Goruchaf Lys y DU, sef llys apêl uchaf y DU, gan symud y llys uchaf un oddi wrth y corff deddfwriaethol.

Gweithgaredd 1.4 Cymhwysedd uniongyrchol Cyfarwyddbau yr UE

- Does gan gyfarwyddbau ddim effaith uniongyrchol llorweddol, fel y dangoswyd yn **Duke v GEC Reliance**, felly mewn egwyddor, ni fydd gan Gloria hawliad oherwydd bod y siop frechdanau yn gorff preifat. Fodd bynnag, gall Gloria gael rhwymedi mewn tair ffordd:
 - egwyddor Francovich**, sy'n rhoi hawl i unigolion gael iawndal am fethiant i roi'r Gyfarwydddeb ar waith.
 - egwyddor Marleasing/Von Colson**, sy'n galluogi barnwyr i ddefnyddio ymagwedd fwriadus wrth ddehongli, sy'n arwain i bob pwrpas at egwyddor effaith anuniongyrchol.
 - Diffiniad eang o 'tarddu o'r Wladwriaeth' fel y gwelir yn **Foster v British Gas (1990)**.
- Bydd Marcus yn gallu dibynnu ar y Gyfarwydddeb, oherwydd bod gan Gyfarwyddbau effaith uniongyrchol fertigol, fel y gwelwyd yn **Marshall v Southampton Health Authority (1986)**. Golyga hyn y bydd gan Marcus hawliad yn erbyn y cyngor lleol, gan ei fod yn tarddu o'r wladwriaeth.
- Yr un ateb ag ar gyfer Gloria (1).
- Byddai pob hawlydd yn gallu dibynnu ar y gyfraith genedlaethol ar gyfer eu hawliadau gwahaniaethu ar sail rhyw.
 - Mae rheoliadau yn uniongyrchol gymwys, sy'n golygu hyd yn oed pe na byddai wedi cael ei rhoi ar waith, byddai pob hawlydd yn gallu dibynnu arno gan fod Rheoliadau yn dod yn gyfraith genedlaethol yn awtomatig, fel y dangoswyd yn achos **Re Tachographs (1979)**.

Gweithgaredd 1.5 Effaith cyfraith yr UE

	Sylfaenol neu eilaidd?	Uniongyrchol gymwys? ✓/X	Effaith uniongyrchol llorweddol? ✓/X	Effaith uniongyrchol fertigol? ✓/X
Cytuniadau	Sylfaenol	X	✓	✓
Rheoliadau	Eilaidd	✓	✓	✓
Cyfarwyddbau	Eilaidd	X	X	✓
Penderfyniadau	Eilaidd	✓	✓	✓

Gweithgaredd 1.6 Pedwar sefydliad yr UE

Defnyddiwch y geiriau isod i lenwi'r bylchau er mwyn esbonio swyddogaeth tri o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

Senedd Ewrop

Senedd Ewrop yw'r corff sydd wedi ei **ethol** yn uniongyrchol o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ac sy'n gyfrifol am lunio'r rhan fwyaf o'r **gyfraith**. Mae ei **ASEau** yn cael eu hethol bob **pum** mlynedd gan ddinasyddion yr aelod-wladwriaethau. Mae'r nifer yn adlewyrchu **poblogaeth** yr aelod-wladwriaethau. Mae gan Senedd Ewrop dair prif swyddogaeth: deddfwriaeth, **goruchwyllo** a chyllideb.

Y Comisiwn Ewropeaidd

Y Comisiwn Ewropeaidd yw **corff Gweithredol** yr UE, a'i brif ddyletswydd yw rhedeg yr UE o ddydd i ddydd, yn ogystal â **chynnig deddfwriaeth**. Mae'r Comisiwn yn cael ei alw'n **Warcheidwad** y **Cytuniadau**, ac mae'n sicrhau bod yr holl aelod-wladwriaethau'n cydymffurfio â'u **rhwymedigaethau** o fewn yr UE. Mae **28** aelod o'r Comisiwn, un ar gyfer pob aelod-wladwriaeth. Maen nhw'n cynrychioli buddiannau'r **Undeb Ewropeaidd**.

Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd

Mae Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) yn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei **chymhwyso** a'i **dehongli** yn gyson ym mhob un o'r aelod-wladwriaethau. Mae **un** barnwr o bob aelod-wladwriaeth, ond anaml maen nhw'n eistedd fel llys llawn. Mae gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ddwy brif swyddogaeth: **barnwrol** a goruchwyllo. Mae ei swyddogaeth oruchwyllo yn galluogi aelod-wladwriaethau i wneud cais am **ddyfarniad rhagarweiniol** o dan **Erthygl 267** y Cytuniad ar Weithrediad yr UE, sy'n rhoi cyngor ar ddehongliad a **dilysrwydd** cyfraith yr UE. Mae'r adegau pan fydd hyn yn gymwys wedi'u nodi yn **Bulmer v Bollinger (1974)**, lle mae'r CJEU wedi datgan y dylai aelod-wladwriaethau gyrraedd pen draw eu prosesau apêl cenedlaethol eu hunain yn gyntaf.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd yw prif gorff yr Undeb Ewropeaidd o ran **gwneud penderfyniadau**, a'i gorff **deddfwriaethol** hefyd. Mae ei aelodaeth yn amrywio yn ôl y **testun** sy'n cael ei drafod. Mae gweinidogion y Cyngor yn cymeradwyo'r **gyllideb** ar y cyd â Senedd Ewrop.

Gweithgaredd 1.7 Croesair corff deddfwriaethol Cymru

I lawr

1. Cynulliad
2. Datganoli
3. Gweithrediaeth
4. Codeiddio
5. Cadw pwerau
6. Dakeford
7. Chwedeg

Ar draws

8. Llafur
9. Amaethyddiaeth
10. Refferendwm
11. Addysg

1.1 Cwestiynau cyflym

1. • Tŷ'r Cyffredin (siambr etholedig).
• Tŷ'r Arglwyddi (siambr anetholedig).
• Y Brenin neu'r Frenhines (yn rhoi Cydsyniad Brenhinol i bob deddfwriaeth).
2. • Deddfwriaethol (Senedd y DU – llunio'r gyfraith).
• Gweithredol (llywodraeth y DU – gorfodi'r gyfraith).
• Barnwrol (yn cymhwyso a dehongli'r gyfraith).
3. Damcaniaeth a gyflwynwyd gan A V Dicey sy'n amlinellu y gall y Senedd lunio neu ddirymu unrhyw ddeddf a chael pŵer absoliwt a diderfyn.
4. Gall Mesurau sy'n gwneud eu ffordd drwy'r Senedd fynd heibio Tŷ'r Arglwyddi. Un enghraifft o hyn oedd **Deddf Hela 2004**.
5. • **Deddf Hawliau Dynol 1998**.
• Aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.
• Datganoli.
6. Roedd y Ddeddf hon yn rhoi pwerau deddfu i Gymru, mewn naw maes yn y lle cyntaf, ac yn dilyn refferendwm 2011, pwerau deddfu sylfaenol mewn dros 20 maes.
7. • **Egwyddor Francovich**, sy'n rhoi hawl i unigolion gael iawndal am fethiant i roi'r Gyfarwydddeb ar waith.
• **Egwyddor Marleasing/Von Colson**, sy'n galluogi barnwyr i ddefnyddio ymagwedd fwriadus wrth ddehongli, sy'n arwain i bob pwrpas at egwyddor effaith anuniongyrchol.
• Diffiniad eang o 'tarddu o'r Wladwriaeth' fel y gwelir yn **Foster v British Gas (1990)**.
8. Bydd cyfraith yr UE yn dod yn gyfraith yn yr aelod-wladwriaethau yn awtomatig heb fod angen ei rhoi ar waith, er enghraifft Rheoliad yr UE, fel y gwelwyd yn achos **Re Tachographs**.
9. **Marshall v Southampton Health Authority (1986)** a **Van Duyn v Home Office (1974)** sy'n dangos y gall unigolion ddibynnu ar gyfraith yr UE yn eu llysoedd cenedlaethol eu hunain heb orfod mynd i lysoedd Ewropeaidd, os yw eu hawliad yn erbyn y wladwriaeth neu yn 'tarddu o'r wladwriaeth'.
10. Enw llawn yr achos yw **R (Miller) v Secretary of State for Exiting the European Union (2016)**. Penderfynodd y Goruchaf Lys fod yn rhaid i Senedd y DU gynnal pleidlais mewn perthynas i delerau cytundeb ymadael yr UE ar ôl i Erthygl 50 gael ei thanio gan y refferendwm yn 2016.

Diwygio'r gyfraith

Gweithgaredd 1.8 Carfanau pwysu

Bydd yr ateb yn dibynnu ar y grwpiau a ddewiswyd. Gallwch ddefnyddio'r tabl canlynol fel templed.

Enw'r garfan bwysu	Amcanion	Dulliau gweithredu	Llwyddiannau?

Gweithgaredd 1.9 Dulliau o ddiwygio'r gyfraith

Dull o ddiwygio'r gyfraith	Esboniad
Llunio Enghraifft: Cyfraith Sarah (<i>adran 327 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003</i>)	Pan fydd problemau wedi dod i'r amlwg dros amser, a bydd deddfwriaeth newydd yn cael ei llunio i'w diwygio. Lle bydd statudau olynol ar yr un pwnc yn cael eu cyfuno.
Cydgynferthu Enghraifft: <i>Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001</i>	Mae hen ddeddfau a rhai sydd wedi dyddio yn cael eu dileu. Mae statudau sydd wedi dyddio yn cael eu dileu o'r llyfrau statud ar ôl cyfnod hir o amser.
Codeiddio Enghraifft: <i>Deddf Cydnabod Rhywedd 2004</i>	Pan fydd maes penodol o'r gyfraith wedi datblygu dros amser, gall corff mawr o gyfraith achosion a statudau wneud y gyfraith yn ddryslyd. Mae'r broses hon yn dod â'r holl reolau at ei gilydd mewn un statud i roi mwy o sicrwydd.
Diddymu Enghraifft: Mae rhai pobl yn credu y dylid diwygio <i>Deddf Hawliau Dynol 1998</i>	Mae deddfau hollol newydd yn cael eu llunio mewn ymateb i alw gan y cyhoedd, neu oherwydd pwysau gan grwpiau eraill. Gall darpariaethau sy'n bodoli'n barod gael eu haddasu ar gyfer anghenion newydd hefyd.

Gweithgaredd 1.10 Ymchwilio i ymchwiliadau cyhoeddus

Bydd yr atebion yn dibynnu ar eich ymchwil personol. Gallwch ddefnyddio'r templed i ysgrifennu'r hyn byddwch chi'n ei ddarganfod

Ymchwiliad cyhoeddus	Rheswm dros ei sefydlu	Newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad iddo
1. Ymchwiliad Bloody Sunday (2010)		
2. Ymchwiliad Shipman (2002)		
3. Ymchwiliad Laming (2003)		
4. Ymchwiliad Leveson (2012)		
5. Ymchwiliad Tŵr Grenfell (cyhoeddwyd Rhan 1 yr adroddiad yn 2019)		

Gweithgaredd 1.11 Comisiwn y Gyfraith

- a. Darllenwch ateb y myfyriwr i'r cwestiwn canlynol a **rhowch farc** gan ddefnyddio grid marciau'r fanyleb.
- b. Beth mae'r ymgeisydd wedi ei **wneud yn dda** yn ei ateb?
- c. Sut gallai'r ymgeisydd **wella** ei ateb?

Gweithgaredd 1.12 Cymhwyso'r gyfraith

Cynghorwch Edna ynghylch sut gallai hi geisio hybu diwygio'r gyfraith ar y defnydd o blastig untro yng Nghymru a Lloegr.

1.2 Cwestiynau cyflym

1. Cydgyfnerthu, Codeiddio, Diddymu, Llunio.
2. Nid yw barnwyr yn cael eu hethol. Eu rôl o dan y cyfansoddiad yw cymhwyso a dehongli'r gyfraith, nid gwneud y gyfraith. O dan y ddamcaniaeth gwahaniad pwerau, swyddogaeth y corff deddfwriaethol yw gwneud y gyfraith.
3. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol:
 - Fathers4Justice – ymgyrchoedd dros hawliau cyfartal i dadau mewn achosion cystodaeth plant.
 - Greenpeace – yn ymgyrchu dros faterion amgylcheddol.
 - Amnest Rhyngwladol – yn ymgyrchu yn erbyn achosion o dramgwyddo hawliau dynol ar draws y byd.
4. **Deddf Comisiwn y Gyfraith 1965.** Mae adran 3 y Ddeddf honno yn amlinellu ei rôl, sef 'adolygu y gyfraith gyfan'.
5. Ymchwilio i broblemau yn y gyfraith, cynnal ymgynghoriad os oes angen a llunio mesur drafft o newidiadau i'w gyflwyno i'r Senedd.
6.
 - Gweithdrefn llwybr cyflym ar gyfer Mesurau sydd ddim yn ddadleuol a gynnigir gan Gomisiwn y Gyfraith i'w cyflwyno yn y Senedd.
 - Adroddiad blynyddol i gael ei lunio gan yr Arglwydd Ganghellor yn amlinellu pa broiectau sydd wedi cael eu rhoi ar waith a heb gael eu rhoi ar waith a pham.
 - Sicrwydd gan y gweinidog perthnasol y bydd yn ystyried o ddifrif newid yn y gyfraith.
7. Mae ymchwiliadau cyhoeddus fel arfer yn cael eu sefydlu yn dilyn digwyddiad neu drychineb mawr, lle mae amheuaeth o fethiannau gan sefydliad neu awdurdod cyhoeddus.
8. Un enghraifft ddiweddar yw ymchwiliad Tŵr Grenfell.
9. Gallai atebion gynnwys y canlynol:
 - Maen nhw'n cynnig safbwynt unochrog am fater.
 - Maen nhw'n annemocrataidd yn yr ystyr nad ydyn nhw wedi cael eu hethol ond gallan nhw ddylanwadu ar y llywodraeth o hyd.
 - Mae rhai grwpiau yn argymhell defnyddio gweithredu uniongyrchol, a all fod yn anghyfreithlon.
10. Gallai atebion gynnwys y canlynol:
 - Mae carfanau pwyso'n cryfhau democratiaeth ac yn annog pobl gyffredin i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.
 - Gall gwybodaeth arbenigol aelodau wella dealltwriaeth llywodraethau.
 - Gallan nhw godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd ynghylch materion allweddol.

Deddfwriaeth ddirprwyedig

Gweithgaredd 1.13 Deddfwriaeth ddirprwyedig

Deddfwriaeth ddirprwyedig, neu ddeddfwriaeth **eilaidd**, yw cyfraith sy'n cael ei gwneud gan gorff neu unigolyn heblaw **senedd** ond gyda'i awdurdod. Mae'r Senedd fel arfer yn pasio **Deddf alluogi** sy'n **dirprwyo**'r awdurdod i wneud cyfreithiau.

Mae sawl math o ddeddfwriaeth ddirprwyedig. Mae **Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006** yn galluogi gweinidogion i gyhoeddi **offerynnau statudol** i newid deddfwriaeth sylfaenol sy'n bodoli'n barod. Y term am y rhain yw **Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol**.

Mae pedwar prif fath o ddeddfwriaeth ddirprwyedig. Y mwyaf cyffredin yw **offerynnau statudol**. Mae'r rhain yn cael eu gwneud gan **adrannau**'r llywodraeth ac maen nhw'n cyfrif am y rhan fwyaf o ddarnau o ddeddfwriaeth ddirprwyedig sy'n cael eu pasio bob blwyddyn (tua 3,000). Maen nhw'n cael eu gwneud naill ai drwy benderfyniad **cadarnhaol** neu **benderfyniad** negyddol, sy'n rhan o **reolaethau**

Mae is-ddeddfau yn cael eu llunio gan **awdurdodau** lleol, **corfforaethau** cyhoeddus a chwmnïau, ac maen nhw'n ymwneud â materion lleol neu faterion sy'n gysylltiedig â maes eu cyfrifoldeb fel arfer. Er enghraifft, mae cynghorau sir yn gwneud is-ddeddfau sy'n effeithio ar y sir gyfan, ond mae cynghorau dosbarth neu dref yn gwneud is-ddeddfau ar gyfer eu hardal eu hun yn unig. Mae'r deddfau yn cael eu gwneud gydag ymwybyddiaeth o **anghenion** yr ardal. Maen nhw'n ymwneud fel arfer â materion fel **parcio** a rheoli traffig, neu ddarpariaeth llyfrgelloedd.

Mae Gorchmynion y **Cyfrin Gyngor** fel arfer yn cael eu gwneud ar adegau o **argyfwng** (o dan **Ddeddf Pwerau Argyfwng 1920** a Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 – y Ddeddf 'alluogi'), ac mae'n rhaid iddyn nhw gael eu cymeradwyo gan y **Cyfrin Gyngor** a'u llofnodi gan y **Frenhines**. Maen nhw hefyd yn gallu cael eu defnyddio i newid cyfreithiau ac i weithredu cyfraith yr UE. Er enghraifft, roedd **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 (Addasiad) (Rhif 2) Gorchymyn 2003**

Yn olaf, datganoli yw'r broses o drosglwyddo pŵer o'r llywodraeth ganolog i'r llywodraeth genedlaethol neu leol (e.e. Senedd **yr Alban**, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon).

Gweithgaredd 1.14 Rheoli deddfwriaeth ddirprwyedig

Penderfyniad cadarnhaol	Pan fydd y ddeddfwriaeth ddirprwyedig yn mynd y tu hwnt i'r hyn roedd y Senedd wedi'i fwriadu.
Penderfyniad negyddol	Lle mae'r person sy'n gwneud y ddeddfwriaeth wedi ystyried materion na ddylai fod wedi eu hystyried, neu heb ystyried materion y dylai fod wedi eu hystyried. Yna mae dal angen profi na fyddai unrhyw gorff rhesymol wedi gallu gwneud y penderfyniad hwnnw.
Gweithdrefn uwchgadarnhaol	Lle mae'n rhaid gosod yr offeryn statudol gerbron dau Dŷ'r Senedd, a rhaid iddyn nhw gymeradwyo'r mesur yn benodol. Os yw'n cael ei defnyddio, mae'n ffordd effeithiol o gadw rheolaeth.
Ymgynghori	Mae llawer o Ddeddfau galluogi yn gofyn am ymgynghori gyda'r sawl sydd â diddordeb neu'r rhai y bydd y ddeddfwriaeth ddirprwyedig yn effeithio arny'n nhw. Pan fydd angen ymgynghori, mae'n ffordd effeithiol o gadw rheolaeth. Ond does dim angen ymgynghori ar bob Deddf alluogi, felly nid yw mor ddefnyddiol bob amser. Mae'r Ddeddf alluogi ei hun yn ddull rheoli gan ei bod yn gosod ffiniau a gweithdrefnau ar gyfer y pŵer dirprwyedig.
Cydbwylgor ar Offerynnau Statudol	Dyma pryd mae'r gweithdrefnau, a sefydlwyd yn y Ddeddf alluogi i wneud yr Offeryn Statudol, heb gael eu dilyn (e.e. roedd angen ymgynghori ond ni ddigwyddodd hynny).
<i>Ultra vires</i> gweithdrefnol	Mae hyn weithiau'n angenrheidiol er mwyn goruchwyllo Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol a gyhoeddir o dan <i>Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006</i> . Mae'n rhoi mwy o bwerau i'r Senedd graffu ar y ddeddfwriaeth ddirprwyedig arfaethedig. Rhaid llunio adroddiadau, a rhaid i ddau Dŷ'r Senedd gymeradwyo'r gorchymyn yn benodol cyn iddo allu cael ei wneud.
<i>Ultra vires</i> sylweddol	Mae'n adrodd i Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi ar unrhyw offeryn statudol sydd angen ystyriaeth arbennig ac a allai achosi problemau yn eu barn nhw. Dim ond argymhellion y gall eu gwneud, a does dim rhaid i Dŷ'r Cyffredin eu derbyn.
Afresymoldeb	Dyma pryd mae offeryn statudol yn cael ei gyhoeddi, ond does dim trafodaeth na phleidlais. Mae rhyw ddwy ran o dair o offerynnau statudol yn cael eu pasio trwy benderfyniad negyddol ac felly nid ydyn nhw wir yn cael eu hystyried gan y Senedd. Y cyfan sy'n digwydd yw eu bod yn dod yn gyfraith ar ddyddiad penodol yn y dyfodol, ac oherwydd hynny, ychydig o reolaeth sydd ganddyn nhw dros yr awdurdod dirprwyedig. Gallan nhw gael eu dirymu drwy benderfyniad gan un o ddau Dŷ'r Senedd.

Gweithgaredd 1.15 Manteision ac anfanteision deddfwriaeth ddirprwyedig

MANTEISION	Esboniad
Hyblygrwydd	Caiff deddfwriaeth ddirprwyedig ei gwneud gan adrannau arbenigol y llywodraeth, sydd ag arbenigwyr ym maes perthnasol y ddeddfwriaeth. Ni fyddai gan ASau yr arbenigedd hwnnw.
Amser	Mae deddfwriaeth ddirprwyedig yn aml yn cael ei defnyddio i ddiwygio deddfwriaeth sy'n bod eisoes. Mae'n haws defnyddio deddfwriaeth ddirprwyedig na phasio Deddf Seneddol hollol newydd.
Cyflymder	Mae'n gynt o lawer cyflwyno darn o ddeddfwriaeth ddirprwyedig na Deddf Seneddol lawn. Mae modd defnyddio Gorchmynion y Cyfrin Gyngor mewn argyfwng os oes angen deddf ar frys.
Arbenigedd	Mae is-ddeddfau yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol i fodloni anghenion eu hardaloedd a'u cymunedau. Ni fyddai gan y Senedd yr un ymwybyddiaeth leol.
Gwybodaeth leol	Does dim amser gan y Senedd i drafod a phasio'r holl ddeddfau y mae eu hangen i redeg y wlad yn effeithiol. Prin fod ganddi amser i basio rhyw 70 Deddf Seneddol y flwyddyn, heb sôn am y 3,000 offeryn statudol mae eu hangen.

ANFANTEISION	Esboniad
Diffyg rheolaeth	Mae swm enfawr o ddeddfwriaeth ddirprwyedig yn cael ei wneud bob blwyddyn (tua 3,000 offeryn statudol). O ganlyniad, mae'n anodd dod o hyd i'r ddeddf gywir a chadw at yr un ddiweddaraf.
Annemocrataidd	Mae rhai pobl yn dadlau y dylai'r gyfraith gael ei llunio gan y sawl sydd wedi'i ethol i'w gwneud. Mae deddfwriaeth ddirprwyedig yn cael ei llunio gan gyrff/unigolion sydd heb eu hethol.
Is-ddirprwy	Mae'r rhan fwyaf o offerynnau statudol yn cael eu pasio gan ddefnyddio gweithdrefn penderfyniad negyddol. Rheolaeth lac yw hyn ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig. Hefyd, os nad oes angen ymgynghori, nid yw'n digwydd, ac felly mae hyn hefyd yn ddull cyfyngedig o reoli.
Swm	Mae'r pŵer i wneud y ddeddfwriaeth ddirprwyedig yn aml yn cael ei is-ddirprwyo i'r rhai sydd heb yr awdurdod gwreiddiol i basio deddfau. Er enghraifft, byddai'n bosibl dirprwyo o weinidog yn y llywodraeth i adran o'r llywodraeth, ac yna i grŵp o arbenigwyr. Mae hyn yn golygu bod yr holl beth yn symud ymhellach i ffwrdd o'r broses ddemocrataidd.

1.3 Cwestiynau cyflym

1. Deddfwriaeth sylfaenol sy'n rhoi'r pŵer i wneud y gyfraith i'r awdurdod arall yn hytrach na'r Senedd.
2. Is-ddeddfau, offerynnau statudol a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor.
3. Er enghraifft, os nad oes ganddi'r amser i basio'r holl ddeddfau sydd eu hangen.
4. Deddfwriaeth eilaidd neu is-ddeddfwriaeth.
5. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol:
 - Offeryn statudol – rheoliadau trafndiaeth
 - Is-ddeddfau – dirwyon yn ymwneud â chŵn yn baeddu
 - Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor – cafodd y rhain eu gwneud yn ystod yr argyfwng petrol.
6. Mae'n caniatáu i Weinidogion gyhoeddi offerynnau statudol er mwyn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
7. Lle mae'n rhaid gosod yr offeryn statudol gerbron dau Dŷ'r Senedd, a rhaid iddyn nhw gymeradwyo'r mesur yn benodol.

Dehongli statudol

Gweithgaredd 1.16 Rheol iaith

Cysylltwch y rheol iaith â'r esboniad cywir ac â'r achos perthnasol.

Rheol iaith	Esboniad	Achos enghreifftiol
<i>Expressio unius est exclusio alterius</i>	'mae gair yn cael ei ddeall yng nghyd-destun y geiriau o'i gwmpas'	<i>Powell v Kempton (1899)</i>
<i>Noscitur a sociis</i>	'mae crybwyll un peth yn benodol yn eithrio popeth arall'	<i>R v Inhabitants of Sedgley (1831)</i>
<i>Ejusdem generis</i>	'pan fydd geiriau cyffredinol yn dilyn rhestr o eiriau penodol, mae'r geiriau cyffredinol yn cael eu cyfyngu i'r un math â'r geiriau penodol'	<i>Muir v Keay (1875)</i>

Gweithgaredd 1.17 Dulliau dehongli statudol

Deddf sy'n cael ei llunio gan Senedd y DU yw statud; mae hefyd yn cael ei galw'n **Ddeddf** Seneddol. Mae'n ddeddfwriaeth **sylyfaenol** a dyma ffynhonnell uchaf cyfraith. Dehongli statudol yw pan fydd barnwyr yn ceisio deall ystyr geiriau mewn Deddf Seneddol, ac yn eu cymhwyso i ffeithiau'r **achos** sydd o'u blaen. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ystyr statudau yn amlwg. Ond weithiau bydd angen dehongli rhai geiriau. Gall barnwyr ddefnyddio pedair rheol wahanol, neu ymagwedd, wrth ddelio â statud pan fydd angen ei ddehongli, ynghyd â chymhorthion dehongli eraill, fel cymhorthion allanol a chymhorthion **anghynhenid**.

Wrth gymhwyso'r rheol lythrennol, bydd y barnwr yn rhoi eu hystyr **gramadegol** plaen a chyffredin i'r geiriau yn y statud, hyd yn oed os yw'r canlyniad yn **absŵrd**. Mae llawer o bobl o'r farn mai dyma'r rheol gyntaf y dylai barnwyr ei chymhwyso wrth ddehongli statud aneglur, gan ei bod yn parchu **sofraniaeth** y Senedd.

Er enghraifft, yn *Whiteley v Chappel (1868)*, roedd yn drosedd 'dynwared unrhyw un sydd â'r hawl i bleidleisio' mewn etholiad. Ffugiodd y diffynnydd ei fod yn rhywun oedd wedi **marw** a chymerodd ei bleidlais. Cafodd y gair 'hawl' ei ddehongli'n llythrennol. Gan nad oes gan rywun marw 'hawl' i bleidleisio, doedd y diffynnydd ddim wedi troseddu.

Er mwyn osgoi canlyniad absŵrd wrth ddehongli'r rheol lythrennol, gall y barnwr gymhwyso'r rheol **aur** a/neu ddefnyddio cymhorthion mewnol (cynhenid). Un achos sy'n dangos y defnydd o'r rheol aur yw *Adler v George (1964)*. **Adran 3 Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1920** ei bod yn drosedd rhwystro aelod o'r lluoedd arfog 'yng nghyffiniau' unrhyw 'le gwaharddedig'. Roedd y diffynnydd wedi rhwystro swyddog mewn canolfan **filwrol** ('lle gwaharddedig'). Dadleuodd ef mai ystyr 'yng nghyffiniau' yw'r ardal o gwmpas neu 'gerllaw' lle, nid yn union y tu mewn iddo. Gallai fod wedi osgoi cael ei erlyn drwy gymhwyso'r rheol lythrennol, ond defnyddiodd y barnwr y rheol aur i benderfynu bod y statud yn gymwys y tu mewn i'r lle gwaharddedig yn ogystal ag o'i gwmpas.

Cafodd y rheol drygioni ei sefydlu yn achos **Heydon**, gan adael i'r barnwr chwilio i weld pa 'ddrygioni' neu broblem oedd angen ei **hunioni** gan y statud. Mae'r barnwr yn defnyddio cymhorthion allanol (anghynhenid) ac yn chwilio am fwiad y Senedd wrth basio'r Ddeddf.

Mae'r rheol hon yn cael ei dangos yn achos *Elliot v Grey (1960)*. Mae'n drosedd o dan *Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1930* i 'ddefnyddio' car heb ei yswirio ar y ffordd. Yn yr achos hwn, roedd car wedi torri i lawr ac wedi ei barcio ar y ffordd, ond doedd dim modd ei 'ddefnyddio' gan fod ei olwynion oddi ar y ddaear a'r batri wedi ei dynnu ohono. Penderfynodd y barnwr fod *Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1930* wedi ei phasio i osgoi'r math hwn o berygl, a bod y car yn berygl gwirioneddol i ddefnyddwyr eraill y ffordd.

Yn olaf, mae'r dull bwriadus yn debyg i reol drygioni, gan fod y dull hwn yn ceisio canfod bwriad neu nod y Ddeddf. Daeth yn fwy poblogaidd ar ôl i'r DU ymuno â'r Undeb Ewropeaidd, yn rhannol oherwydd geiriad mwy amwys deddfau Ewropeaidd, oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r barnwr lunio ystyr. Fel mae teitl yr ymagwedd yn ei awgrymu, mae barnwyr yn chwilio am 'fwriad' y Ddeddf, neu fel y dywedodd yr Arglwydd Denning, 'ysbryd y ddeddfwriaeth'. Un enghraifft o achos yw *Magor and St. Mellons RDC v Newport Corporation (1950)*. Dywedodd yr Arglwydd Denning yn y Llys Apêl, 'rydym yn eistedd yma i ganfod bwriad y Senedd a gweinidogion, a'i weithredu. Gallwn ni wneud hyn yn well trwy lenwi'r bylchau a gwneud synnwyr o'r deddfu trwy ei ddadansoddi mewn modd dinistriol'. Ond beirniadodd yr Arglwydd Simonds yr ymagwedd hon pan aeth yr achos ar apêl i Dŷ'r Arglwyddi, gan ddweud ei bod yn 'trawsfeddiannu'r swyddogaeth ddeddfwriaethol yn llwyr yn enw dehongli'. Awgrymodd yntau: 'os oes bwlch yn cael ei ganfod, yr ateb yw llunio Deddf arall i wella hynny'.

Gweithgaredd 1.18 Cynhenid neu anghynhenid?

Nodwch a yw'r cymorth yn 'gynhenid' neu'n 'anghynhenid'.

Cymorth	Cynhenid neu anghynhenid?
Cytuniadau	Anghynhenid
Cyfraith achosion blaenorol	Anghynhenid
Teitl llawn y Ddeddf	Cynhenid
Rhaglith y Ddeddf	Cynhenid
Geiriaduron a gwerslyfrau	Anghynhenid
Penawdau	Cynhenid
Atodlenni	Cynhenid
Adroddiadau, e.e. gan Gomisiwn y Gyfraith	Anghynhenid
Adrannau dehongli	Cynhenid
Cyd-destun hanesyddol	Anghynhenid

Gweithgaredd 1.19 Cymhwyso'r gyfraith: ffrâm ysgrifennu

Atebwch gan ddefnyddio'r tabl isod.

1.4 Cwestiynau cyflym

1. Hon yw'r weithdrefn mae barnwyr yn ei defnyddio i ddeall ystyr geiriau mewn Deddf Seneddol, yn ogystal â'r ffordd mae hyn yn gymwys i ffeithiau'r achos sydd o'u blaen. Gan amlaf, mae ystyr statudau yn amlwg a rôl y barnwyr yw penderfynu sut mae'r gyfraith hon yn gymwys i ffeithiau'r achos sydd o'u blaen. Ond weithiau bydd angen dehongli rhai geiriau. Mae'r rhesymau dros ddehongli statudol yn cynnwys:
 - termau amwys
 - termau eang eu hystyr
 - newid yn y defnydd o iaith
 - gwall.
2. Y rheol lythrennol, y rheol aur, y rheol drygioni a'r dull bwriadus.
3. Pan fydd geiriau cyffredinol yn dilyn rhestr o eiriau penodol, mae'r geiriau cyffredinol yn cael eu cyfyngu i'r un math â'r geiriau penodol.
4. Cymorth dehongli sydd i'w ganfod yn y statud, fel penawdau, atodlenni, rhaglith.
5. O dan **Adran 3 Deddf Hawliau Dynol 1998**, mae gan farnwyr ddyletswydd i ddehongli deddfwriaeth mewn ffordd sy'n gydnaws â hawliau dynol ac os nad ydyn nhw'n gallu gwneud hynny, rhaid iddyn nhw gyhoeddi datganiad anghydnawsedd o dan **Adran 4 Deddf Hawliau Dynol 1998**.
6. Esbonio'r rheol, rhoi achos, nodi cymorth cynhenid, nodi cymorth anghynhenid ac yna cymhwyso'r rheol at y senario.
7. Llythrennol: **Whiteley v Chappell (1868)**; Aur: **Adler v George (1964)**; Drygioni: **Elliot v Grey (1960)**; Bwriadus: **Magor and St. Mellons Rural District Council v Newport Corporation (1950)**
8. Llythrennol.
9. Drygioni.
10. i. Beth oedd y gyfraith gwlad/cyfraith gyffredin cyn y Ddeddf?
 ii. Beth oedd y 'drygioni' neu'r nam nad oedd y gyfraith gwlad/cyfraith gyffredin yn darparu ar ei gyfer?
 iii. Beth oedd y rhwymedi a beth oedd pwrpas y rhwymedi hwnnw a ddarparwyd yn y gyfraith?

Cynsail farnwrol

Gweithgaredd 1.20 Delio â chynseiliau

Mae damcaniaeth cynsail a'r syniad o fod yn rhwym i benderfyniadau blaenorol yn awgrymu bod y system yn **haearnidd** ac yn anhyblyg. Mae'n awgrymu mai'r **Goruchaf Lys** yw'r unig lys sydd ag unrhyw le i fod yn greadigol, a bod rhaid i bob un o'r llysoedd eraill ddilyn ei gynseiliau blaenorol yn gaeth.

Ond byddai hyn yn gwneud y system yn **anhyblyg** iawn, a byddai bron yn sicr o arwain at **anghyfiawnder**. Felly mae'r system gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau cydbwysedd rhwng cysyniadau gwrthgyferbyniol hyblygrwydd a sicrwydd. O ganlyniad, gall barnwyr ddewis osgoi cynsail mewn achos lle maen nhw'n teimlo y byddai cadw'n gadarn at gynsail yn arwain at anghyfiawnder.

Felly mae gan farnwr bedwar dewis. Y cyntaf yw **dilyn**. Dyma lle bydd y barnwr yn cytuno â'r gynsail gafodd ei gosod yn yr achos cynharach, ac mae'n cymhwyso'r cynsail neu'r **ratio decidendi** at yr achos presennol. Gwelwyd hyn yn achos **Jones v**

Secretary of State for Social Services (1972) lle cafodd y penderfyniad yn achos ***Re Dowling (1967)*** ei ddilyn.

Yn ail, **gwrthdroi** yw lle cafodd y gynsail flaenorol ei gwneud mewn llys is, a gall y llys uwch **wrthdroi**’r penderfyniad hwnnw os yw’n anghytuno â’r gynsail. Mae canlyniad y penderfyniad blaenorol yn aros yr un peth, ond ni fydd yn cael ei **ddilyn**, er enghraifft yn achos ***Hedley Byrne & Co Ltd v Heller & Partners Ltd (1964)***.

Yn drydydd, os yw penderfyniad llys is yn cael ei **apelio** i lys uwch, gall y llys uwch ei newid os yw’n teimlo bod y llys is wedi dehongli’r gyfraith yn anghywir. Yr enw ar hyn yw **dirymu**. Gwelwyd hyn hefyd yn achos ***Re Pinochet (1999)***.

Yn olaf, gall y barnwr benderfynu bod ffeithiau perthnasol y ddau achos yn ddigon gwahanol i osgoi dilyn y gynsail. Yr enw ar hyn yw **gwahaniaethu**. Gwelwyd hyn yn achos ***Merritt v Merritt (1971)*** a oedd yn **gwahaniaethu** rhwng yr achos a’r ffeithiau yn achos ***Balfour v Balfour (1919)***.

Mae’r **Goruchaf** Lys mewn sefyllfa unigryw oherwydd gall osgoi cynsail yn llwyr drwy newid y gyfraith a chreu cynsail **wreiddiol**. Mae hyn yn wir os yw’r gynsail wedi cael ei gosod gan lys is, neu gan y llys ei hun. Bydd y Goruchaf Lys yn defnyddio **Datganiad Ymarfer 1966** i wneud hyn ‘lle mae’n ymddangos yn gywir i wneud hynny’. Gwelwyd hyn yn achos ***Pepper v Hart (1993)*** lle penderfynodd arglwyddi’r gyfraith anwybyddu cynsail roedden nhw wedi’i gosod eu hunain, ynghylch y defnydd o Hansard mewn dehongli statudol.


Gall y Llys Apêl hefyd osgoi defnyddio cynsail gynharach os yw o’r farn bod un o’r eithriadau a nodwyd yn ***Young v Bristol Aeroplane Co (1944)*** yn gymwys i’r achos presennol.

Yr eithriadau yw lle mae **dau** benderfyniad blaenorol yn gwrthdaro, a lle mae penderfyniad blaenorol wedi cael ei ddirymu gan benderfyniad diweddarach yn y **Goruchaf** Lys; lle cafodd y penderfyniad blaenorol ei wneud ***per incuriam***.

Mae **Adran 2** o ***Ddeddf Hawliau Dynol 1998*** yn ei gwneud yn ofynnol i bob barnwr ‘ystyried’ cyfraith achosion **Llys Hawliau Dynol Ewrop**. I bob pwrpas, mae hyn yn caniatáu i farnwyr osgoi cynsail gynharach lle mae’n amlwg y byddai ei dilyn yn achosi gwrthdaro gyda phenderfyniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.

Gweithgaredd 1.21 Cynseiliau barnwrol

Tynnwch linellau i gysylltu'r gosodiadau ac achosion â'r esboniad cywir.



Gweithgaredd 1.22 Manteision ac anfanteision cynsail


Cwblhewch y tabl sy'n cynnwys manteision ac anfanteision cynsail.

MANTEISION	ANFANTEISION
Sicrwydd Mae modd dweud wrth hawlwr y bydd achosion yn cael eu trin mewn ffordd debyg, ac nid trwy benderfyniadau ar hap gan farnwyr.	Anhyblygrwydd Gan ddibynnu ar le'r llys yn yr hierarchaeth, gall cynsail fod yn haearnidd iawn gan fod rheidrwydd ar lysoedd is i ddilyn penderfyniadau llysoedd uwch, hyd yn oed os ydyn nhw'n tybio bod y penderfyniad yn un gwael neu anghywir.
Hyblygrwydd Gall cyfraith achosion newid yn sydyn i ymateb i newid mewn cymdeithas.	Annemocrataidd/ddim yn gynrychiadol Dydy barnwyr ddim yn cael eu hethol ac felly ni ddylen nhw fod yn newid deddfau na'u llunio, yn wahanol i'r Senedd sydd wedi cael ei ethol i wneud hynny.
Ymarferol Mae cyfraith achosion bob amser yn ymateb i sefyllfaoedd go iawn. O ganlyniad, mae corff mawr o reolau manwl sy'n rhoi rhagor o wybodaeth nag sydd i'w chael mewn statudau.	Cymhlethdod Er bod cyfraith achosion yn rhoi rheolau ymarferol a manwl i ni, mae hefyd yn golygu bod yna filoedd o achosion. Gall nodi'r egwyddorion perthnasol a'r <i>ratio decidendi</i> fod yn anodd a chymryd amser.
Diduedd a theg Mae trin achosion tebyg mewn ffyrdd tebyg yn annog barnwyr i fod yn ddiduedd.	Anodd rhagweld Mae datblygiadau yn dibynnu ar ddamweiniau cyfreithia. Mae cyfraith achosion yn newid dim ond os yw rhywun yn ddigon penderfynol i fynd ag achos drwy'r llysoedd y bydd cyfraith achosion yn newid.
	Araf i newid Mae achosion yn cymryd tipyn o amser i fynd drwy'r llysoedd ac i sefydlu cyneiliau newydd. Hefyd, yn wahanol i ddeddfwriaeth, mae cyfraith achosion yn berthnasol i bethau a ddigwyddodd cyn i'r achos ddod i'r llys (gweler <i>SW v UK (1996)</i> ; <i>R v C (2004)</i>).

Gweithgaredd 1.23 Senarios cynsail

Dim atebion ar gael.

Gweithgaredd 1.24 Nodwch y llysoedd a'r cynseiliau



Nodwch y canlynol ar yr hierarchaeth uchod:

1. Llysoedd sy'n gallu creu cynsail.
Y Goruchaf Lys (Tŷ'r Arglwyddi) a'r Llys Apêl.
2. Llysoedd sy'n gorfod dilyn cynsail.
Dim ateb ar gael
3. Llysoedd sy'n gallu gwyrdd oddi wrth eu penderfyniadau eu hunain.
Dim ateb ar gael
4. Llysoedd sy'n rhwym wrth eu penderfyniadau eu hunain.
Dim ateb ar gael

Gweithgaredd 1.25 Cynsail wreiddiol

R v R (1991)

Ffeithiau: Cafodd y diffynnydd ei gyhuddo o geisio treisio ei wraig.

Y gyfraith cyn yr achos: Roedd cynsail o'r 18fed ganrif yn datgan na allai gŵr fod yn euog o dreisio ei wraig.

Y gyfraith newydd a benderfynwyd: Dyfarnodd Tŷ'r Arglwyddi fod statws menywod mewn cymdeithas wedi newid a'u bod bellach yn gydradd â dynion felly dylen nhw ddim gael eu hystyried yn fath o siâtel (eiddo). Os nad yw gwraig yn cydsynio i gael rhyw, erbyn nawr gall y gŵr gael ei ddyfarnu'n euog o drais.

Gillick v West Norfolk and Wisbech AHA (1985)

Ffeithiau: Ymgrychodd mam yn erbyn meddygon a oedd yn rhagnodi dulliau atal cenhedlu i ferched o dan 16 heb gydsyniad rhieni, ar y sail bod hyn yn annog rhyw o dan oed.

Y gyfraith cyn yr achos: Doedd dim eglurder ynghylch i ba raddau mae gan rieni hawliau i reoli ymddygiad a dewisiadau eu plant, er enghraifft, a all pobl ifanc yn eu harddegau geisio a derbyn dulliau atal cenhedlu a chynghor meddygol heb yn wybod i'w rhieni neu heb gael eu cydsyniad.

Y gyfraith newydd a benderfynwyd: Penderfynodd Tŷ'r Arglwyddi, heb dderbyn arweiniad gan y Senedd ar y mater dan sylw yn yr achos hwn, y gallai merch dan 16 oed gael gwasanaethau atal cenhedlu heb ganiatâd ei rhieni, os yw hi'n ddigon aeddfed i benderfynu drosti'i hun.

Fitzpatrick v Sterling Housing Association (1999)

Ffeithiau: Gwnaeth Mr Thompson rentu fflat yn 1972. Yn 1976, symudodd ei bartner, Mr Fitzpatrick, i mewn a bu'r ddau yn byw gyda'i gilydd yn y fflat nes i Mr Thompson farw yn 1994. Canfu Mr Fitzpatrick nad oedd ganddo hawl i aros yn y fflat gan nad oedd y gyfraith yn caniatáu'n benodol i gyplau hoyw drosglwyddo eu tenantiaeth i'w gilydd.

Y gyfraith cyn yr achos: O dan ***Ddeddf Rhenti 1977*** a diwygiadau diweddarach o dan y ***Ddeddf Tai 1998***, gallai tenantiaid drosglwyddo eu tenantiaeth i'w gwŷr/gwragedd neu aelodau o'r teulu roedden nhw'n cyd-fyw gyda nhw pan wnaethon nhw farw. Ond doedd y gyfraith ddim yn ystyried cyplau hoyw, nad oedden nhw'n gallu priodi na chael partneriaethau sifil ar y pryd, felly nid oedd yn glir a allen nhw gael eu hystyried fel gwŷr/gwraig neu aelodau o'r teulu.

Y gyfraith newydd a benderfynwyd: Penderfynodd Tŷ'r Arglwyddi y gallai partneriaid o'r un rhyw sefydlu cyswllt teuluol at ddibenion ***Deddf Rhenti 1977***, gan ddirymu penderfyniad y Llys Apêl y dylid gadael hyn i'r Senedd ei benderfynu.

Gweithgaredd 1.26 Technegau osgoi

Dewiswch yr achosion priodol o'r rhestr, a rhowch nhw yn rhes gywir y tabl i gysylltu'r achosion â'r dechneg osgoi.

Techneg osgoi	Diffiniad	Enghreifftiau o achosion
Dilyn	Mae'r barnwr yn cytuno â'r cynsail gafodd ei gosod mewn achos cynharach, ac mae'n cymhwyso'r cynsail neu'r <i>ratio decidendi</i> at yr achos presennol.	<i>Addie v Dumbreck (1929)</i> <i>Evans v Triplex Safety Glass Ltd (1936)</i> <i>Donoghue v Stevenson (1932)</i> <i>Anderton v Ryan (1985)</i>
Dirymu	Os cafodd y cynsail gynharach ei gosod mewn llys is, gall yr uwch farnwyr ddirymu'r penderfyniad cynharach hwnnw os ydyn nhw'n anghytuno ag ef. Mae canlyniad y penderfyniad cynharach yn aros yr un peth, ond ni fydd yn cael ei ddilyn.	<i>R v Shivpuri (1987)</i> <i>British Railways Board v Herrington (1972)</i> <i>Fitzpatrick v Sterling House Association Ltd (2000)</i>
Gwrthdroi	Ar apêl i llys uwch, gall penderfyniad llys is gael ei newid gan y llys uwch os yw'n teimlo bod y llys is wedi dehongli'r gyfraith yn anghywir.	<i>Gillick v West Norfolk & Wisbech Area Health Authority (1986)</i>
Gwahaniaethu	Mae'r barnwr yn penderfynu bod achosion perthnasol y ddau achos yn ddigon gwahanol i osgoi dilyn y cynsail.	<i>Merritt v Merritt (1971)</i> <i>Balfour v Balfour (1919)</i>

Gweithgaredd 1.27 Cwestiwn cymhwyso cynsail farnwrol

Defnyddiwch y tabl i ysgrifennu eich ateb eich hun i gwestiwn priodol o'ch dewis chi.

1.5 Cwestiynau cyflym

1. I ba lys mae'r Datganiad Ymarfer yn berthnasol?
2. Pam mae dilyn cynseiliau blaenorol yn cael ei ystyried yn 'sylfaen anhepgor' (*indispensable foundation*)?
3. Pa resymau gafodd eu rhoi gan Dŷ'r Arglwyddi yn y Datganiad Ymarfer dros addasu'r rheol am ddilyn penderfyniadau blaenorol?
4. Pryd bydd Tŷ'r Arglwyddi yn gwyro oddi wrth benderfyniad blaenorol?
5. Mae'n rhaid i'r Llys Apêl ddilyn penderfyniadau gafodd eu gwneud gan lysoedd uwch. Pa lysoedd yw'r rhain?
6. Beth yw'r rheol arferol ynglŷn â'r Llys Apêl yn dilyn ei benderfyniadau blaenorol ei hun?
7. Esboniwch y tri eithriad i'r rheol bod rhaid i'r Llys Apêl ddilyn ei benderfyniad blaenorol.
8. Beth yw manteision y ffaith bod y Llys Apêl fel arfer yn dilyn ei benderfyniadau blaenorol?
9. Pam mae *ratio decidendi* achos mor bwysig?
10. Beth yw arwyddocâd ffeithiau materol/perthnasol achos?
11. Pam mae adroddiadau am achosion mor bwysig i weithrediad cynsail?
12. Beth yw ystyr *stare decisis*?

Y llysoedd sifil

Gweithgaredd 1.28 Gwahaniaethau rhwng cyfraith sifil a chyfraith trosedd

	Sifil	Trosedd
Enw'r partïon	Hawlydd v diffynnydd	Erlyniad v amddiffyniad
Pwy sy'n dechrau dwyn yr achos?	Yr hawlydd	Yr erlyniad
Llysoedd gwrandawriad cyntaf	Ynadon a Llys y Goron	Llys Sirol a'r Uchel Lys
Baich y prawf	Ar yr hawlydd	Y tu hwnt i amheuaeth resymol
Safon y prawf	Yn ôl pwysau tebygolrwydd	Y tu hwnt i amheuaeth resymol
Enghreifftiau	Anaf personol, tor-contract, ac ati.	Dwyn, llofruddiaeth, ac ati.
Pwrpas y math hwn o gyfraith	Rheolaeth gymdeithasol	Datrys anghydfod
Canlyniad	Atebol, neu ddim yn atebol	Euog, neu ddieuog
Enghreifftiau o gosbau	Iawndal, gwaharddeb, ac ati.	Iawndal, carcharu, dirwy, ac ati.

Gweithgaredd 1.29 Gwahaniaethau o ran geirfa

Term allweddol	Sifil, troseddol, neu'r ddau?	Diffiniad
Cyfraith gyhoeddus	Y ddau	Cyfraith y perthnasodd rhwng unigolion a'r wladwriaeth.
Cyfraith breifat	Sifil	Cangen o'r gyfraith sy'n delio â'r berthynas rhwng unigolion neu sefydliadau, yn hytrach na rhwng y rhain a'r wladwriaeth.
Erllyn	Troseddol	Rhoi ar brawf am y drosedd y mae'r diffynnydd wedi'i chyhuddo o'i chyflawni.
Datrys anghydfod	Sifil	Datrys anghytundeb rhwng dau barti
Cosb	Troseddol	Cosb haeddiannol am gyflawni trosedd.
Rhwymedi	Sifil	Pan fydd llys yn rhoi dyfarniad o blaid y parti a gafodd ei drin yn anghyfiawn mewn achos sifil, er mwyn 'unioni'r cam', e.e. iawndal, gwaharddeb, ac ati.
Atebol	Sifil	Bod yn 'gyfrifol' am dorri cyfraith sifil.
Siwio	Sifil	Dechrau achos cyfreithiol yn erbyn diffynnydd.
Llys Sirol	Sifil	Llys sifil gwrandawriad cyntaf. Yn gwrandao ar achosion mân hawliadau a llwybr cyflym. Gall hefyd wrando ar rai achosion llwybr aml-drywydd.
Llys y Goron	Troseddol	Llys troseddol gwrandawriad cyntaf, sy'n profi troseddau ditiadwy a neillffordd profadwy a anfonwyd yno.
Diffynnydd	Y ddau	Yr unigolyn sy'n amddiffyn yr achos (sifil neu droseddol).
Llys Apêl	Y ddau	Llys apêl – adrannau sifil a throseddol.
Dioddefwr	Y ddau	Yr unigolyn a gafodd ei effeithio gan weithred neu anwaith y diffynnydd neu'r ffaith iddo dorri cyfraith sifil.
Iawndal	Sifil	Taliad ariannol i ddigolledu am golled neu ddifrod. Hefyd yn cael ei alw'n 'iawndal'.
Dirwy	Troseddol	Dedfryd troseddol ariannol.
Gwaharddeb	Sifil	Rhwymedi ecwitiol. Gall fod yn orfodol, yn waharddol neu dros dro.
Hawlydd	Sifil	Y parti sy'n dwyn yr achos sifil yn erbyn y diffynnydd.
Euog	Troseddol	Y diffynnydd a gafwyd yn euog o gyflawni'r drosedd y cafodd ei chyhuddo o'i chyflawni.
Dedfryd	Troseddol	Y gosb sy'n cael ei rhoi i rywun sydd wedi ei gael yn euog o drosedd. Gall fod yn gyfnod yn y carchar, yn ddedfryd gymunedol, neu'n ddedfryd neu ddatrysiad ataliedig.
System tri llwybr	Sifil	Mae achosion sifil yn cael eu dyrannu ar sail gwerth yr hawliad a chymhlethdod y gyfraith sy'n gysylltiedig. Y llwybrau yw'r llwybr mân hawliadau, llwybr cyflym a llwybr aml-drywydd.

Gweithgaredd 1.30 Datrys problemau

1. Michelle
Llys: Llys Sirol
Llwybr: Llwybr cyflym
2. Maria
Llys: Yr Uchel Lys
Llwybr: Llwybr aml-drywydd
3. Jack
Llys: Llys Sirol
Llwybr: Llwybr cyflym
4. Diana a Marcus
Llys: Yr Uchel Lys
Llwybr: Llwybr aml-drywydd
5. Catherine ac Ahmed
Llys: Llys Sirol
Llwybr: Llwybr cyflym

Gweithgaredd 1.31 Croesair dull amgen o ddatrys anghydfod**I lawr**

1. Setliad
2. Dyfardal
3. Negodi
4. Cyflafareddu
5. MIAM
6. Cyfryngu
7. Scott v Avery
8. Gwasanaeth cynghori

Ar draws

4. Cymodi
9. Rhwymol
10. Gweithredol
11. Llys
12. ADR
13. Deddf Cyflafareddu

Gweithgaredd 1.32 Defnyddio mathau o ADR

Math	Diffiniad	Enghraifft
Negodi	Mae partïon yn ceisio penderfynu ar setliad ar eu pen eu hunain, gyda chymorth trydydd parti goddefol sy'n gweithredu fel cyfryngwr	Trwy ACAS
Cyfryngu	Mae'r trydydd parti'n chwarae rhan fwy gweithredol er mwyn annog y partïon i setlo'r anghydfod	Mewn MIAM
Cymodi	Mae'r partïon yn ceisio datrys yr achos ar eu pen eu hunain neu gyda chymorth cyfreithiwr	Mewn gwrandawriad neu drwy gyflafareddu ar bapur
Cyflafareddu	Y dull mwyaf ffurfiol o ADR, lle mae'r penderfyniad rhwymol yn cael ei orfodi ar y partïon	Ffôn, llythyr, e-bost, cyfarfod

Gweithgaredd 1.33 Manteision ac anfanteision tribiwnlysoedd

Cwblhewch y manylion ar gyfer pob un o fanteision ac anfanteision tribiwnlysoedd.

Manteision	Anfanteision
Cost Mae partïon yn cael eu hannog i ddwyn eu hachos eu hunain heb fod angen cynrychiolaeth. Mae hyn wedi dod yn haws ers y diwygiadau gan fod ffurflenni cais ar gael ar-lein, ac mae'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn fwy tryloyw erbyn hyn.	Diffyg cynsail Nid yw tribiwnlysoedd yn rhedeg system gaeth o gynsail, felly mae yna elfen o ansicrwydd weithiau i ganlyniad achosion.
Cyflymder Mae dyletswydd ar farnwyr tribiwnlysoedd i ymgymryd â dyletswyddau rheoli achosion, felly maen nhw'n gallu gosod terfynau amser caeth er mwyn gwrando ar y rhan fwyaf o achosion o fewn un diwrnod.	Oedi Os yw'r achos yn un cymhleth, gall oedi ddigwydd cyn i'r achos gael ei glywed.
Anffurfioldeb Mae tribiwnlysoedd yn llai ffurfiol o lawer na gwrandawriad llys, er eu bod yn fwy ffurfiol na mathau eraill o ADR. Mae'r partïon yn elwa ar gael gwrandawriad preifat, ac mae siawns dda y bydd eu perthynas â'i gilydd yn parhau ar ôl i'r achos ddod i ben.	Diffyg arian Mae cyllid cyfreithiol ar gael ar gyfer rhai anghydfodau (er enghraifft, os ydych yn aelod o undeb, efallai y bydd yn talu am eich achos), ond nid yw ar gael bob amser. Gall hyn fod yn niweidiol i unigolyn sy'n dwyn achos yn erbyn cwmni mawr sydd â'r fantais o gael y gynrychiolaeth fwyaf drud. Hefyd, mae ffioedd newydd am hawliadau yn y tribiwnlys cyflogaeth neu dribiwnlys apêl cyflogaeth wedi cael eu cyflwyno erbyn hyn, a gall y rhain atal rhai pobl rhag mynd ymlaen â'u hawliad.
Annibyniaeth Oherwydd i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol fod â rhan wrth benodi barnwyr tribiwnlysoedd, mae'r system dribiwnlysoedd yn llawer mwy tryloyw ac annibynnol ac felly'n fwy teg. Hefyd, mae'r set unedig o weithdrefnau a rheolau'n lleihau'r perygl o anghysonderau rhwng tribiwnlysoedd.	Partïon yn dychryn Mae problem o hyd bod partïon yn teimlo'n ofnus wrth ystyried mynd ag achos i'r 'llys', yn enwedig heb y cysur o gael cynrychiolydd cyfreithiol.
Arbenigedd Bydd o leiaf un aelod o'r tribiwnlys yn arbenigwr yn y maes perthnasol, felly bydd hyn yn arbed amser wrth esbonio materion technegol cymhleth i farnwr yn y llys.	

Gweithgaredd 1.34 Rheithgorau sifil

Rhowch y geiriau sydd ar goll gan ddefnyddio'r rhestr a roddwyd.

Mae rheithgorau yn cael eu defnyddio mewn llai nag **1%** o achosion sifil. Maen nhw'n penderfynu a yw'r **hawlydd** wedi profi ei achos ai peidio 'yn ôl pwysau **tebygolrwydd**' (**safon** y prawf). Maen nhw hefyd yn penderfynu faint o **iawndal** dylai'r diffynnydd ei dalu i'r hawlydd, os ydyn nhw'n penderfynu o blaid yr hawlydd.

Yn ôl **adran 69** Deddf **Llysoedd Uwch 1981** ar gyfer achosion yr Uchel Lys, ac **adran 66 Deddf Llysoedd Sirol 1984** ar gyfer achosion yn y Llys Sirol, mae gan bartïon yr hawl i gael treial gan reithgor yn yr achosion canlynol yn unig:

- **carcharu** ar gam
- erlyniad **maleisus**
- **twyll**.


Roedd adran 11 Deddf Difenwad 2013 yn dileu'r rhagdybiaeth bod angen treial gan reithgor mewn achosion difenwi. Felly mae achosion difenwi yn cael eu cynnal heb reithgor oni bai fod y llys yn gorchymyn fel arall.

Mewn achosion sifil sy'n trafod anafiadau personol yn Adran **Mainc** y Frenhines yn yr Uchel Lys, gall y partïon wneud cais i'r barnwr am dreial gan reithgor. Bydd y cais yn cael ei wrthod fel arfer. Yn achos **Ward v James (1966)** gosododd y Llys Apêl ganllawiau ar gyfer achosion anafiadau personol, ac arweiniodd hyn at atal y defnydd o reithgorau i bob pwrpas. Roedd y rhain yn cyngori y dylai achosion anafiadau personol fel arfer gael treial gan farnwr yn eistedd ar ei ben ei hun, oherwydd bod achosion o'r fath yn galw am asesu iawndal **cydadferol** sydd angen ei gysylltu â graddfeydd iawndal confensiynol.

Felly, pam nad yw rheithgorau'n cael eu defnyddio'n aml mewn achosion sifil? Maen nhw'n tueddu i ddyfarnu o blaid talu **gormod lawero** iawndal, does dim rhaid iddyn nhw roi **rhesymau** dros eu penderfyniadau, ac maen nhw'n gallu bod yn gostus.

Gweithgaredd 1.35 Lwybr apeliadau achosion sifil

Mae'r diagram yn dangos lle gall apeliadau i achosion sifil fynd. Rhowch y geiriau sydd ar goll i gwblhau'r blychau



1.6 Cwestiynau cyflym

1. Llwybr mân hawliadau, llwybr cyflym a llwybr aml-drywydd.
2. Os bydd y Goruchaf Lys wedi gosod cynsail rwymol neu os yw'r achos yn cynnwys pwynt cyfreithiol o bwysigrwydd cyffredinol i'r cyhoedd.
3. Dull amgen o ddatrys anghydfod.
4. Negodi, cyfryngu, cymodi, cyflafareddu.
5. Mae'n cael ei gynnal ochr yn ochr â'r llysoedd sifil ac yn gweithredu fel llys arbenigol.
6. Gweler yr ateb i Weithgaredd 1.35.
7. Rhwymedi.
8. Llysoedd apêl ar gyfer pob adran. Mainc y Frenhines, Teulu a Siawnsri.
9. Hawlydd yn erbyn diffynnydd.
10. Mae'r baich ar yr hawlydd ac mae'r safon yn ôl pwysau tebygolrwydd.

Y broses droseddol

Gweithgaredd 1.36 Deall termau'r broses droseddol

Rhowch ddiffiniad ar gyfer y termau allweddol hyn sy'n gysylltiedig â'r broses droseddol.

Term	Diffiniad
oedolyn priodol	Mae Cod C <i>Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984</i> yn caniatáu i oedolyn fod yn bresennol gyda phlentyn neu unigolyn ifanc sy'n cael ei gyfweld gan yr heddlu er mwyn diogelu ei les a'i hawliau.
gordrugarog	Canlyniad apêl lle bydd barnwr yn penderfynu nad yw dedfryd o fewn yr ystod o ddedfrydau y gellid eu hystyried yn briodol ar gyfer y drosedd (troseddau).
achos datganedig	Dull o apelio lle bydd y llys yn gofyn am farn llys arall ar bwynt cyfreithiol – er enghraifft, o'r llys ynadon i'r Uchel Lys.
euogfarn	Lle bydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o'r drosedd (troseddau) y cafodd ei gyhuddo o'i chyflawni (eu cyflawni).
croesholi	Holi tyst yn y llys gan dîm cyfreithiol yr ochr arall – er enghraifft, bydd yr amddiffyniad yn croesholi tystion yr erlyniad.
ataliaeth	Nod dedfrydu er mwyn 'atal' pobl eraill neu'r unigolyn rhag aildroseddu.
caniatâd i apelio	Lle bydd yr erlyniad neu'r amddiffyniad yn cael caniatâd i fynd ag achos ar apêl i lys uwch.
rhyddfarn	Lle bydd diffynnydd yn cael ei ddyfarnu'n ddieuog yn y llys o'r drosedd (troseddau) y cafodd ei gyhuddo o'i chyflawni (eu cyflawni).
apêl 'naid llyffant'	Math o apêl sydd fel arfer yn galluogi'r achos i fynd heibio'r Llys Apêl a mynd yn syth i'r Goruchaf Lys.
cyhuddiad	Lle bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu y bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn sefyll ei brawf am y drosedd (troseddau) y cafodd ei arestio yn ei chylch (yn eu cylch).
prif holiad	Holi tyst yn y llys gan ei dîm cyfreithiol ei hun – er enghraifft, yr erlyniad yn cael ei holi gan ei fargyfreithiwr ei hun.

Gweithgaredd 1.37 Nodau dedfrydau gwahanol


DEDFRYD	NOD				
	Cosb haeddiannol	Amddiffyn cymdeithas	Ataliaeth	Gwneud iawn	Adsefydlu
Dirwy	✓		✓		
Rhyddhau			✓		✓
Gorchymyn Cymunedol				✓	✓
Dedfryd benderfynedig	✓	✓			
Dedfrydau ataliedig			✓		✓
Gorchymyn bywyd cyfan	✓	✓			
Hysbysiad Cosb am Anhrefn	✓		✓		
Rhybuddion	✓		✓		

Y nod sy'n cael ei gyflawni fwyaf yn gyffredinol: Ataliaeth

Y gosb fwyaf cyffredin yn y DU yw dirwy. Mae cynigion i ddiddymu dedfrydau o garchar o lai na chwe mis gan eu bod yn aneffeithiol.

Dylech hefyd ystyried nodau dedfrydu pobl ifanc; y prif nod yw adsefydlu a chadw pobl ifanc allan o'r system garchardai.

Gweithgaredd 1.38 Apeliadau troseddol



Gweithgaredd 1.39 Mechnïaeth neu garchar?

Dim atebion ar gael

Gweithgaredd 1.40 Camau treial troseddol

Rhowch y gosodiadau canlynol yn y drefn gywir i ddangos sut mae treial troseddol yn cael ei gynnal:

3	Mae'r amddiffyniad yn croesholi tystion yr erlyniad.
10	Mae'r barnwr yn crynhai y materion cyfreithiol a ffeithiol er budd y rheithgor.
9	Mae'r amddiffyniad yn rhoi araith gloi .
7	Mae'r erlyniad yn croesholi tystion yr amddiffyniad.
4	Mae'r erlyniad yn holi ei dystion ei hun unwaith eto.
11	Mae'r rheithgor (neu ynadon) yn mynd allan i ystyried rheithfarn.
2	Mae'r erlyniad yn galw ei dystion ei hun ac yn cynnal y prif holiad .
5	Gall yr amddiffyniad argymhell nad oes achos i'w ateb.
12	Os bydd y diffynnydd yn cael ei ddyfarnu'n ddieuog, bydd yn cael ei ryddfarnu. Os bydd yn cael ddyfarnu'n euog, bydd y barnwr neu'r ynadon yn cyflwyno'r ddedfryd.
8	Mae'r erlyniad yn rhoi ei araith gloi .
6	Mae'r amddiffyniad yn galw ei dystion ei hun i gefnogi ei achos, ac yn cynnal ei brif holiad .
1	Mae'r erlyniad yn cyflwyno ei araith agoriadol er mwyn amlinellu'r ffeithiau.

Gweithgaredd 1.41 Pwyntiau trafod yn ymwneud â diwygio diweddar

Gwnewch eich ymchwil eich hun a thrafodwch eich canfyddiadau gydag aelodau eraill eich grŵp neu ddosbarth.

Gweithgaredd 1.42 Gwasanaeth Erlyn y Goron

Cafodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei sefydlu gan **Ddeddf Erlyniad Troseddau 1986**. Pennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron yw'r **Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**, sy'n atebol i'r **Twrnai Cyffredinol**. Mae **13** ardal ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac mae pob un yn cael ei arwain gan **Brif Erlynydd y Goron**. Enw un 'ardal' ychwanegol yw **CPS Direct**.

Mae'r prawf **cod llawn** wedi'i gynnwys yn **adran 10 Ddeddf Erlyniad Troseddau 1986**. Y cam cyntaf yw'r prawf **tystiolaethol**, sy'n gofyn a yw'r dystiolaeth a gasglwyd yn ddibynadwy, yn ddigonol ac yn **dderbyniol**. Prawf **amcan** yw hwn, felly os na fydd yn cael ei fodloni, yna o dan **adran 23 Ddeddf Erlyniad Troseddau 1986**, mae'n rhaid i'r achos **ddod i ben**.

Yr ail gam yw'r prawf **lles y cyhoedd**, sy'n cynnwys **saith** cwestiwn i benderfynu a ddylid cyhuddo'r un a ddrwgdybir. Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd ystyried a fyddai datrysiaid **y tu allan i'r llys**.

Prawf arall yw'r prawf **trothwy**, sy'n cael ei ddefnyddio os nad oes digon o dystiolaeth i **gyhuddo**, ond mae lle i gredu bod y sawl a ddrwgdybir yn ormod o risg i'w ryddhau.

Er mwyn i hyn fod yn gymwys, mae'n rhaid bod amheuaeth **resymol** bod yr unigolyn wedi **cyflawni**’r drosedd.

Mae'r 'Safonau **Ansawdd** Gwaith Achos' yn ddogfen sy'n amlinellu'r **safonau** y gall y cyhoedd eu disgwyl gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae'r rhain yn bwysig i ddal Gwasanaeth Erlyn y Goron i **gyfrif** os bydd yn methu darparu'r gwasanaeth a amlinellir gan y **meincnodau** ansawdd. Mae **pedwaro** safonau.

1.7 Cwestiynau cyflym

1. Ynadol (lleiaf difrifol), neillffordd profadwy, ditiadwy (mwyaf difrifol)
2. Roedd yr achos hwn yn gwrthdroi **Vinter v UK (2013)** drwy ddyfarnu nad yw gorchymnion bywyd cyfan yn mynd yn groes i Erthygl 3 ECHR.
3. Cosb haeddiannol (cosb), ataliaeth (unigolyn a chyffredinol), amddiffyn cymdeithas, adsefydlu, gwneud iawn.
4. Mae wedi'i nodi yn **adran 147 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003** ac mae'n fath o ddeddfryd cymunedol ar gyfer pobl ifanc, sy'n ceisio lleihau nifer y bobl ifanc yn y ddalfa. Gellir gosod gofynion ynghlwm â'r gorchymyn fel gwaith di-dâl, cyrffiw, addysg neu brofi am gyffuriau.
5. Rhyddhau diamod yw pan fydd troseddwr yn cael ei ryddhau heb gosb ac ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd. Deddfryd ohiriedig yw pan na fydd y diffynnydd yn mynd i garchar, ond mae'n rhaid iddo gydymffurfio ag amodau a osodwyd dros gyfnod y gorchymyn. Os bydd yn torri'r amodau bydd y troseddwr yn cael ei anfon i'r carchar.
6. **Mae Atodlen 1(9) Deddf Mechnïaeth 1976** yn amlinellu ffactorau mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a ddylid caniatáu mechnïaeth neu beidio:
 - Natur a difrifoldeb y drosedd.
 - Cymeriad, hanes, cysylltiadau a chysylltiadau cymunedol y diffynnydd.
 - Hanes blaenorol y diffynnydd o ran ildio i fechnïaeth.
 - Cryfder y dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd.
7. Gall amodau fod yn gysylltiedig â mechnïaeth o dan **Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994** a gall y rhain gynnwys cyrffiw, tagio electronig, ildio pasbort neu aros mewn hostel mechnïaeth.
8. Os oedd y diffynnydd ar fechnïaeth am drosedd arall ar adeg y drosedd, dylai mechnïaeth gael ei gwrthod, oni bai fod y llys yn fodlon nad oes risg sylweddol y bydd yn cyflawni trosedd arall.
9.
 - Lleihau nifer y bobl dan amheuaeth yn y ddalfa.
 - Gall y diffynnydd weithio a threulio amser gyda'i deulu.
 - Bydd gan y diffynnydd amser i baratoi ar gyfer y treial a chyfarfod ei gynrychiolwyr cyfreithiol.
10.
 - Cyngori'r heddlu am y cyhuddiad ddylai gael ei ddwyn yn erbyn y sawl dan amheuaeth.
 - Adolygu achosion.
 - Paratoi achosion ar gyfer y llys.
 - Cyflwyno achosion yn y llys.
 - Penderfynu a ddylid erlyn rhywun a ddrwgdybir.
11. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol.
 - Teledu cylch cyfyng (CCTV) aneglur.
 - Cyfaddefiad a gafwyd trwy ormes
 - Tystiolaeth ail-law.

12. Bydd y prawf trothwy yn cael ei ddefnyddio pan fydd y cod llawn yn methu, ond ystyrir bod gormod o risg i ryddhau'r sawl a ddrwgdybir. Mae'n gofyn:
 - A oes amheuaeth resymol bod y person a arestwyd wedi cyflawni'r drosedd dan sylw?
 - A ellir casglu rhagor o dystiolaeth fel y bydd gobaith realistig o euogfarnu?
13. Roedd Allison Sanders, y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar y pryd, o dan bwysau i ymddiswyddo ar ôl achos yr Arglwydd Janner, oherwydd er bod digon o dystiolaeth i'w gyhuddo o droseddau rhyw yn ymwneud â phlant, penderfynodd Ms Saunders nad oedd er budd y cyhoedd i'w gyhuddo.

Rheithgorau

Gweithgaredd 1.43 Rôl y rheithgor

Mae'r rheithgor yn sefydliad hynafol a democrataidd o fewn y system gyfreithiol, ac mae'n bodoli ers y **Magna Carta**. Mae'r rheithgor yn cael ei ddewis ar hap ac mae'n gyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses gweinyddu **cyfiawnder**.

Mae'r cysyniad o **degwch** y rheithgor yn golygu bod rheithgorau yn **ddiduedd** a dydyn nhw ddim yn gallu cael eu dylanwadu gan y barnwr. Cafodd hyn ei ddangos yn gynnar yn achos **Bushell** ac yna'n ddiweddarach yn achosion **R v Ponting** ac **R v Wang**. Er gwaethaf argymhellion gan **Auld**, ni chafodd y cynnig i orfodi rheithgorau i ddwyn rheithfarn euog ei roi ar waith.

Mae'r rheithgor yn eistedd yn **Llys y Goron** mewn achosion troseddol, gan wrando ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno gan yr erlyniad a'r amddiffyniad, ac yna mae'n penderfynu ar reithfarn **euog** neu ddieuog. Mae'r rheithgor yn penderfynu ar sail **ffeithiau**, a dylai ddod i reithfarn **unfrydol** neu, os na fydd yn gallu cytuno ar ôl cyfnod rhesymol o amser, gall ddod i reithfarn **fwyafrifol** o ddim mwy na 10–2. Mae Deddf **Rheithgorau 1974** yn darparu ar gyfer hyn. Mewn gwirionedd, mae rheithgorau yn cael eu defnyddio mewn **1%** o achosion yn unig, gan fod bron pob achos yn cael ei glywed yn y llys **ynadon**.

Mae rheithgorau yn cael eu defnyddio mewn nifer bach o achosion sifil hefyd. Yn yr achosion hyn, rôl y rheithgor yw penderfynu ar **atebolrwydd** a'r **iawndal** mewn achosion fel **erlyniad maleisus**, twyll, **carcharu ar gam**, ac weithiau difenwad. Mae Deddf y **Goruchaf Lys 1981 a Deddf Llysoedd Sirol 1984 yn darparu ar gyfer hyn**.

Mae rheithgorau yn cael eu defnyddio yn llys y crwner hefyd, lle maen nhw'n penderfynu beth yw **achos y farwolaeth** mewn achosion fel marwolaethau yn y ddalfa, marwolaethau yn y **carchar** a digwyddiadau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Un enghraifft oedd cwest **Hillsborough**.

Gweithgaredd 1.44 Ydw i'n gymwys i wasanaethu ar reithgor?

1. Mae Brenda yn gymwys oherwydd nid yw ei heuogfarn droseddol yn ddigon difrifol i'w gwneud yn anghymwys o dan **Ddeddf Rheithgorau 1974** fel y'i diwygiwyd gan **Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003** a **Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015**, gan ragdybio ei bod hi rhwng 18 a 75 oed, ar y rhestr etholiadol ac yn byw yn y DU.
2. Mae Carl yn gymwys oherwydd nid yw ei euogfarn droseddol yn ddigon difrifol i'w wneud yn anghymwys o dan **Ddeddf Rheithgorau 1974** fel y'i diwygiwyd gan **Ddeddf**

- Cyfiawnder Troseddol 2003* a *Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015*, gan ragdybio ei fod rhwng 18 a 75 oed, ar y rhestr etholiadol ac yn byw yn y DU.
3. Mae Michael yn gymwys o dan *Ddeddf Rheithgorau 1974* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* a *Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015*, gan ragdybio ei fod rhwng 18 a 75 oed, ar y rhestr etholiadol ac yn byw yn y DU. Fodd bynnag, gallai wneud cais i gael ei esgusodi neu i ohirio ei wasanaeth ar sail ei ymrwymadau gwaith.
 4. Mae Jennifer yn gymwys o dan *Ddeddf Rheithgorau 1974* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* a *Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015*, gan ragdybio ei bod hi rhwng 18 a 75 oed, ar y rhestr etholiadol ac yn byw yn y DU. Cyn pasio *Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003*, ni fyddai hi wedi bod yn gymwys, oherwydd roedd pob aelod o broffesiwn y gyfraith, gan gynnwys barnwyr a swyddogion yr heddlu, wedi'u heithrio.
 5. Mae Elizabeth yn gymwys o dan *Ddeddf Rheithgorau 1974* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* a *Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015*, gan ragdybio ei bod hi rhwng 18 a 75 oed, ar y rhestr etholiadol ac yn byw yn y DU. Hefyd, er mwyn sicrhau Erthygl 6 ECHR (hawl i dreial teg), byddai angen iddi wneud yn siŵr nad oes angen iddi gael 13eg unigolyn i'w helpu i ddarllen gwefusau.
 6. Mae Anthony yn gymwys o dan *Ddeddf Rheithgorau 1974* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* a *Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015*, gan ragdybio ei fod rhwng 18 a 75 oed, ar y rhestr etholiadol ac yn byw yn y DU. Fodd bynnag, gallai wneud cais i gael ei esgusodi neu i ohirio ei wasanaeth ar sail ei arholiadau.
 7. Mae Azeem yn anghymwys o dan *Ddeddf Rheithgorau 1974* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* a *Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015*, oherwydd un o'r meini prawf anghymwyso yw os ydych yn derbyn triniaeth am salwch meddwl cydnabyddedig.
 8. Mae Cecil yn anghymwys o dan *Ddeddf Rheithgorau 1974* fel y'i diwygiwyd gan y *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* a *Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015*, oherwydd ei euogfarn droseddol ddifrifol. Byddai hefyd wedi bod yn euog o ddirmyg llys wrth wasanaethu ar y rheithgor heb ddatgelu ei euogfarnau.

Gweithgaredd 1.45 Dyddiadur rheithiwr

Diwrnod 1

Ar ddechrau'r diwrnod, roeddwn yn nerfus iawn ac roeddwn yn meddwl efallai y bydden nhw'n pigo arna i. Doeddwn i ddim yn gwybod eu bod nhw'n gallu gwneud hynny. **Roeddwn yn poeni y byddwn i'n dychwelyd y rheithfarn anghywir.** [Mae'r cysyniad o degwch y rheithgor yn golygu na all rheithgorau gael eu dylanwadu gan y barnwr na phobl eraill. **Dangosodd achosion Bushell, R v Wang** ac **R v Ponting** y cysyniad hwn o degwch y rheithgor. Mae rheithgorau yn penderfynu ar sail y ffeithiau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y llys yn unig.]

Cyn i'r treial ddechrau, dywedodd un o aelodau'r rheithgor wrth y tywysydd **na fyddai hi'n gallu gwasanaethu oherwydd ei bod wedi dioddef lladrad arfog.** [Dyma enghraifft o her am reswm, lle gall rheithwyr gael eu hesgusodi os nad ydyn nhw'n gallu bod yn 'deg, yn ddiuedd neu'n gymwys'. Yn yr achos hwn, ni fyddai'r rheithiwr yn ddiuedd gan ei bod wedi cael profiad blaenorol mewn achos tebyg. **R v Gough** yn tynnu sylw at y mater hwn a phenderfynwyd bod yn rhaid profi bod 'perygl gwirioneddol' nad yw'r rheithiwr yn ddiuedd.] Roedd hi'n teimlo y byddai'n peri llawer o ddychryn a gofid iddi hi wrth glywed am achos tebyg. Roeddwn yn meddwl fod hyn braidd yn od, oherwydd doeddwn i ddim yn meddwl eich bod chi'n gallu cael eich esgusodi o wasanaeth rheithgor.

Clywais gan sawl tyst heddiw, gan gynnwys cwsmer yn y siop ac roeddwn i'n gwybod ei fod yn ficer lleol. Roedd yn mynnu bod Tim Burr wedi dioddef ymosodiad gan gwsmer arall yn y siop. Cyn y treial, gwelais **luniau teledu cylch cyfyng (CCTV) o'r ymosodiad mewn papur newydd lleol sy'n cadarnhau hyn, er na chafodd lluniau cylch cyfyng eu dangos yn ystod y treial.** [Dylai rheithgorau seilio eu penderfyniad ar yr hyn maen nhw'n ei weld a'i glywed yn y llys yn unig ac ni ddylen nhw gael eu dylanwadu gan ffynonellau allanol. Mae'n bosibl bod y lluniau cylch cyfyng, am ba bynnag reswm, yn annibynadwy neu'n annerbyniol. **R v Taylor & Taylor** yn enghraifft lle cafodd y rheithgor ei ryddhau am gael ei ddylanwadu gan y cyfryngau.] Roeddwn yn meddwl bod hyn braidd yn rhyfedd, ond efallai na wnaethon nhw eu dangos gan eu bod nhw'n cymryd yn ganiataol y byddai pawb wedi eu gweld. Mae bargyfreithiwr yr amddiffyniad, Jo King QC, yn **olygus iawn.** Mae perfformiad Jo wedi gwneud cymaint o argraff arnaf nes fy mod yn ystyried awgrymu ein bod yn mynd ar ddêr ar ôl i'r treial ddod i ben. [Mae hyn yn debyg i achos **R v Alexander and Steen**, lle gwnaeth rheithiwr anfon llawer iawn o lythyrau caru at QC yn ystod treial. Mae hyn yn dangos pa mor annibynadwy gall treial gan reithgor fod oherwydd dydych chi ddim yn gwybod ar ba sail mae aelodau'r rheithgor yn dod i'w penderfyniad]

Does gen i ddim syniad o hyd a yw'r diffynnydd yn euog neu'n ddieuog, felly rwyf wedi bod yn gydwybodol ac wedi gwneud **rhywfaint o ymchwil ar y rhyngwrwyd** i ddarganfod mwy am y diffynnydd a'r ymosodiad. Rwyf wedi darganfod bod gan y diffynnydd, Carrie Oakey, euogfarnau blaenorol am ddwyn ac felly rwy'n siŵr ei bod hi'n euog.

Roeddwn wedi penderfynu mynd â'r nodiadau hyn gyda mi fory, a rhannu'r wybodaeth â'r rheithwyr eraill, [O dan **Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015**, mae bellach yn drosedd ymchwilio i achos ar-lein ac mae rhannu'r wybodaeth hon â rheithwyr eraill yn drosedd ychwanegol. Digwyddodd hyn yn achos **R v Smith & Deane (2016)**, ac mae'n dangos bygythiad y rhyngwrwyd a'r ffaith ei bod mor hawdd cael mynediad at wybodaeth.] **pan gefais neges Facebook gan ferch Ms Oakey.** Roedd hi yn y llys heddiw, ac yn y neges gofynnodd i mi ganfod ei mam yn ddieuog oherwydd bod ei thad wedi marw, ac felly bydd hi'n cael ei gadael ar ei phen ei hun os bydd ei mam yn mynd i'r carchar. [Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn fygythiad enfawr i dreial gan reithgor ac yn achos **R v Fraill (2011)**,

cafodd Joanna Fraill ei charcharu am ddirmyg llys ar ôl sgwrsio ar y cyfryngau cymdeithasol gyda diffynnydd a gafodd ei ryddfarnu mewn achos cyffuriau.] Mae hyn yn gwneud i mi deimlo trueni dros Ms Oakey, ond mae'n fy rhoi mewn sefyllfa letchwith. Rwyf wedi anfon neges breifat ati yn dweud y byddaf yn gwneud beth fedraf. Dydw i ddim yn meddwl y bydd hyn yn golygu fy mod mewn trwbwl, oherwydd dydw i ddim wedi addo unrhyw beth iddi.

Diwrnod 2

Ar ôl i mi gyrraedd y llys, rydw i'n cael gair gydag un o'r rheithwyr eraill ac rydyn ni'n penderfynu mynd am ginio gyda'n gilydd. Dros ginio, rydyn ni'n siarad am y treial am amser hir. [O dan **Ddeddf Dirmyg Llys 1981**, mae'n drosedd siarad am y treial gyda phobl heblaw'r rhai sydd hefyd ar y rheithgor ac mae'n rhaid i'r rheithgor fod gyda'i gilydd ar yr adeg hwnnw. Mae hyn wedi'i esbonio'n glir yn y fideo cyflwyniadol a ddangosir i bob rheithiwr. Gwylwch y fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=yQGekF-72xQ>.] Mae'n dweud wrtha i ei fod wedi ymddeol fel swyddog yr heddlu a does dim ffordd y gall tystiolaeth yr heddlu fod yn anghywir, felly mae'n rhaid bod y diffynnydd yn euog. [Ers pasio **Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003**, mae swyddogion yr heddlu wedi gallu gwasanaethu ar reithgor, ond mae hyn wedi arwain at honiadau o duedd. Fodd bynnag, yn achos **Hanif and Khan v UK (2011)**, penderfynodd y ECtHR y gallai presenoldeb swyddogion yr heddlu ar y rheithgor fynd yn groes i Erthygl 6, ond dim ond os oedd tystiolaeth yr heddlu yn cael ei herio.] Mae hyn wedi gwneud i mi newid fy meddwl. Hefyd, rydyn ni bellach wedi gweld lluniau o anafiadau Mr Burr, ac maen nhw'n reit ddrwg – roedd un ffotograff yn dangos lle roedd y gyllell wedi cael ei thrywanu yn ei frest, ac roedd yn llawn gwaed a llanast. Rydw i'n meddwl y byddaf yn cael hunllefau heno. [Gall gwasanaeth rheithgor beri gofid mawr i rai pobl. Yn achos **R v West**, roedd yn rhaid i reithwyr gael cwnsela proffesiynol o ganlyniad i'r delweddau a'r dystiolaeth roedden nhw wedi eu gweld yn ystod treial y llofruddion torfol Fred a Rose West.]

Diwrnod 3

Wrth i'r treial fynd yn ei flaen, rwyf yn dechrau diflasu ac rydw i eisïau mynd adref. Mae'n rhaid aros o gwmpas am hir, ac rydw i'n dechrau meddwl am yr holl bethau y gallwn i fod yn eu gwneud yn hytrach nag eistedd mewn ystafell ddiflas yn y llys, yn gwrando ar lwyth o bobl mewn dillad gwirion yn siarad am bethau nad ydw i'n eu deall; dydy hyd yn oed Jo King QC ddim yn edrych mor olygus erbyn hyn. [Un o'r ffactorau sy'n gwneud gwasanaeth rheithgor yn annibynadwy yw'r drwgdeimlad ymhlith rhai rheithwyr ynghylch gorfod gwasanaethu, a hefyd diffyg dealltwriaeth am yr hyn sy'n digwydd yn ystafell y llys. Yn achos **R v Pryce**, cafodd y rheithgor ei ryddhau am ofyn cwestiynau a oedd yn dangos 'diffygion sylfaenol o ran dealltwriaeth' ac felly nid oedd yn gallu dod i reithfarn ddiogel.] Er mwyn gwneud i'r amser basio'n gynt, rydw i wedi dechrau chwarae gêm OXO gyda'r rheithiwr sy'n eistedd wrth fy ymyl. Fydd y bobl yn y llys ddim yn gwybod beth rydyn ni'n ei wneud, gan ein bod ni'n cael gwneud nodiadau yn ystod y treial. Rydw i wir yn gobeithio y bydd y treial yn gorffen yfory.

Diwrnod 4

Mae'r amddiffyniad a'r erlyniad yn crynhoi heddiw. Mae'r ddwy ochr yn dda ond byddaf yn bendant yn gofyn i Jo, bargyfreithiwr yr amddiffyniad, i fynd allan ar ddêr ar ôl i'r llys orffen. Gao brin y byddai rhywun mor hyfryd yn amddiffyn rhywun sydd wedi cyflawni trosedd mor ofnadwy, felly mae'n rhaid bod Ms Oakey yn ddieuog. Wrth i'r barnwr ddweud wrthon ni am fynd allan i drafod, mae'n dweud bod rhaid i ni ddod i benderfyniad rydyn ni i gyd yn cytuno arno; rydw i'n meddwl ei fod wedi ei alw'n rheithfarn unfrydol.

Mae ystafell drafod y rheithgor yn fach iawn, heb ffenestri, ac mae'n teimlo fel cell mewn carchar. Er bod cyfleusterau i wneud te a choffi, mae'n drewi ac yn hen; does neb arall yn cael dod i mewn yma.

Mae'r cyn-swyddog heddlu, yr un roeddwn i'n siarad ag ef dros ginio, wedi ei enwebu ei hun yn ben-rheithiwr. Mae e'n sicr bod y diffynnydd yn euog, oherwydd bod y tyst mwyaf allweddol yn swyddog yr heddlu. [Trafodaethau cyfrinachol yw un o fanteision treial gan reithgor, oherwydd maen nhw'n golygu na ellir holi cwestiynau iddyn nhw ynghylch eu rheithfarn. Fodd bynnag, gall hyn achosi problemau hefyd gan nad oes neb yn gwybod yn union sut maen nhw'n penderfynu ar eu rheithfarn. Mae personoliaethau cryf, cymeriadau gormesol a drwgdeimlad tuag at wasanaeth rheithgor oll yn cyfrannu at reithfarnau annibynadwy.] *Gan fod pawb yn awyddus iawn i fynd adref, rydyn ni i gyd yn cytuno ac yn penderfynu cael y diffynnydd yn euog wedi'r cwbl.* [Dylai rheithfarnau fod yn unfrydol o dan Ddeddf Rheithgorau 1974, sy'n golygu y dylai pob un o'r 12 aelod gytuno ar y rheithfarn. Mae hyn yn fantais oherwydd mae'n golygu nad oes elfen o amheuaeth. Fodd bynnag, bydd y barnwr yn derbyn rheithfarn fwyafrifol o ddim llai na 10–2 os bydd cyfnod rhesymol o amser wedi mynd heibio heb benderfyniad mwyafrifol.] *Fydd y barnwr ddim yn gofyn i ni pam rydyn ni wedi dod i'r penderfyniad hwnnw.* [O dan **Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015**, mae'n bosibl erbyn hyn i reithwyr ddatgelu wrth y barnwr unrhyw ddatganiadau a wnaed, safbwyntiau a fynegwyd neu ddadleuon a gyflwynwyd yn yr ystafell drafod a allai arwain at gamweinyddu cyfiawnder.] *Roedd y trafodaethau drosodd mewn awr, a daeth ein gwasanaeth rheithgor i ben ar ôl i ni gyflwyno'r rheithfarn i'r barnwr yn y llys.*

Gweithgaredd 1.46 A yw treial gan reithgor yn ddibynadwy?

Defnyddiwch y tabl canlynol i'ch helpu i ateb y cwestiwn.

Ffynhonnell sy'n awgrymu bod treial gan reithgor yn ddibynadwy	Ffynhonnell sy'n awgrymu bod treial gan reithgor yn annibynadwy

1.8 Cwestiynau cyflym

1. Oherwydd ei fod yn dyddio'n ôl i'r Magna Carta, a oedd yn caniatáu 'treial gan eich cymheiriaid'.
2. **Deddf Rheithgorau 1974** fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 a **Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015**. Y rheolau cymhwysedd presennol yw y dylai darpar-reithwyr fod rhwng 18 a 75 oed, fod wedi byw yn y DU am o leiaf pum mlynedd ers eu pen-blwydd yn 13 oed, ac wedi'u cofrestru ar y gofrestr etholiadol.
3. Unrhyw un sydd ar fechnïaeth ar hyn o bryd, sy'n derbyn triniaeth am salwch meddwl cydnabyddedig, a'r rhai sydd ag euogfarnau troseddol difrifol.
4. Gall pobl sydd ag ymrwymïadau blaenorol sy'n eu hatal rhag gwasanaethu, er enghraifft, arholiadau, apwyntiadau ysbyty, gwyliau, ac ati, gael eu hesgusodi ar sail disgresiwn. Fel arfer bydd eich gwasanaeth yn cael ei ohirio am hyd at ddwy flynedd o dan yr amgylchiadau hyn.
5. Ystyr fetio rheithgorau yw pan fydd aelodau'r rheithgor yn cael eu gwirio o ran eu haddasrwydd – fel arfer yn nhermau gwiriadau troseddol ac ymlyniad gwleidyddol er mwyn chwynnu unigolion â safbwyntiau eithafol.
6. Roedd achos **R v Mason** yn cymeradwyo'r arfer o fetio rheithgorau ar y sail bod hyn yn 'hybu didueddrwydd'.
7. Gorchmynnodd **ABC trial** aildreial, oherwydd bod y rheithgor wedi cael ei fetio. Yn achos **R v Sheffield Crown Court ex p Brownlow**, condemniodd yr Arglwydd Denning fetio rheithgorau fel arfer 'anghyfansoddiadol' a oedd yn 'amharu'n ddifrifol ar breifatrwydd'.
8.
 - Her am reswm: bydd rheithiwr yn cael ei ryddhau oherwydd nad yw'n gallu bod yn deg, yn ddiduedd neu'n gymwys.
 - Mae'r Goron yn eich hepgor: defnyddir ar y cyd â fetio mewn achosion yn ymwneud â therfysgaeth a diogelwch cenedlaethol.
 - Herio'r rheithwyr: bydd holl aelodau'r rheithgor yn cael eu gwrthwynebu ar y sail bod y swyddog gwysio wedi gweithredu'n anghywir.
9. Yn achos **R v Ford** penderfynwyd nad oes hawl i gael rheithgor amlhiliol ond yn achos **Sander v UK** penderfynwyd bod rheithgor hiliol yn groes i Erthygl 6 ECHR – yr hawl i dreial teg.
10.
 - **adran 71** (**adran 20A Deddf Rheithgorau 1974** fel y'i diwygiwyd): creodd y drosedd o "ymchwilio" i achos yn ystod cyfnod y treial.
 - **adran 72** (**adran 20B Deddf Rheithgorau 1974** fel y'i diwygiwyd): creodd y drosedd o ddatgelu'n fwriadol gwybodaeth a gafwyd o dan adran 71.
 - **adran 73** (**adran 20C Deddf Rheithgorau 1974** fel y'i diwygiwyd): creodd y drosedd o gymryd rhan mewn "ymddygiad gwaharddedig" yn ystod y trafodaethau.
 - **adran 74** (**adran 20D Deddf Rheithgorau 1974** fel y'i diwygiwyd): creodd y drosedd o ddatgelu'n fwriadol gwybodaeth am ddatganiadau a wnaed, safbwyntiau a fynegwyd, dadleuon a gyflwynwyd neu bleidleisiau a gafodd eu bwrw yn ystod y trafodaethau.

Personél cyfreithiol: Bargyfreithwyr a chyfreithwyr

Gweithgaredd 1.47 Croesair personél cyfreithiol

Dim atebion ar gael

Gweithgaredd 1.48 Cwis personél cyfreithiol

1. **b.** Cynrychioli cleient yn y llys
2. **c.** Delio ag ochr gyfreithiol prynu tŷ
3. **b.** **Uwch fargyfreithiwr neu gyfreithiwr**
4. **a.** Bargyfreithiwr
5. **c.** Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyfreithiol

Gweithgaredd 1.49 Cwestiynau heriol am personél cyfreithiol

Dim atebion ar gael

Gweithgaredd 1.50 Paragyfreithwyr vs gweithredwyr cyfreithiol

PARAGYFREITHWYR	GWEITHREDWYR CYFREITHIOL

1.9 Cwestiynau cyflym

1. Ar ôl sawl blwyddyn o weithio fel bargyfreithiwr gall rhywun fod yn gymwys i ddod yn Gwnsler y Frenhines?
2. Beth yw rheol y 'rhes cabiau'?
3. Beth yw'r enw sy'n cael ei roi ar gyfnod hyfforddi bargyfreithwyr?
4. Beth yw enwau pedwar Ysbyty'r Brawdlys?
5. Beth yw ystyr **hawliau ymddangos**?
6. Beth yw enw'r corff sy'n delio â chwynion yn erbyn cyfreithwyr?
7. Pa Ddeddf Seneddol oedd yn ei gwneud yn bosibl i gyfreithwyr gael eu penodi i'r llysoedd uwch?

Personél cyfreithiol: Y Farnwriaeth

Gweithgaredd 1.51 Y proffesiwn cyfreithiol: cymhariaeth

	Barnwyr	Bargyfreithwyr/cyfreithwyr
Rôl		
Cymwysterau		
Dull dethol		
Pa mor gynrychiadol o gymdeithas ydyn nhw?		
Sut gallan nhw gael eu dyrchafu		
Y llysoedd lle maen nhw'n gweithio		
Nifer yn y system gyfreithiol		
Beirniadaeth gyffredin o'u rôl		
Sylwadau eraill		

Gweithgaredd 1.52 Dethol barnwyr

Dadansoddwch a gwerthuswch i ba raddau mae'r dull o ddethol barnwyr yn decach nawr nag oedd cyn *Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005*.

Un rheswm pam mae'r broses o ddethol barnwyr yn decach nawr yw bod y pwll o ddarpar ymgeiswyr yn fwy **eang**. Yn y gorffennol, profiad fel **bargyfreithiwr** yn unig oedd yn cael ei dderbyn cyn byddai rhywun yn gallu dod yn farnwr is. Bellach, mae llawer o farnwyr is wedi gweithio fel **cyfreithwyr**, yn hytrach nag fel bargyfreithwyr. Yn ogystal â hynny, roedd **Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007** hefyd yn galluogi'r rhai oedd â phrofiad fel cymrodyr, academyddion a chyflafareddwyr i wneud cais i ddod yn farnwr. [NOTE TO DESIGN: SECOND BLANK BOX NOT NEEDED] Ond yn 2017 nododd y 'Judicial **ILEX** Statistics' fod gostyngiad wedi bod yn nifer y barnwyr oedd heb gefndir fel bargyfreithwyr. Roedd hyn yn dangos bod camau wedi eu cymryd i wneud y broses ddethol yn decach, ond mae angen gwneud mwy i wella nifer y barnwyr o gefndiroedd heb fod yn **wyn**.

Un pwynt ychwanegol sy'n awgrymu bod y broses o ddethol barnwyr yn decach erbyn hyn yw bod mwy o annibyniaeth oddi wrth y **Weithrediaeth**. Er enghraifft, mae pwerau **Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005** i ddethol barnwyr wedi diflannu, bron iawn. Mae'r broses gudda dadleuol flaenorol o ddethol barnwyr gan rywun mewn swydd wleidyddol wedi cael ei dileu ar gyfer pob barnwr is. Yn hytrach, mae'r **Comisiwn Penodiadau Barnwrol** annibynnol wedi cael ei greu i ddethol barnwyr ar sail haeddiant yn unig. Ond mae'n rhaid ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor o hyd ar benodiadau uwch.

Mae hyn yn dangos bod y broses o ddethol barnwyr yn llawer tecach ac yn galluogi barnwyr, yn annibynnol ar y Weithrediaeth, i gyflawni eu rôl o warchod dinasyddion y DU yn erbyn llywodraeth a allai fod yn ormesol.

Yn olaf, mae prosesau dethol yn llawer mwy tryloyw erbyn hyn. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol **hysbysebu** swyddi barnwrol ac mae wedi gwneud ymdrech i fynd i'r afael â mater amrywiaeth. Mae'r system agored hon yn cyferbynnu â'r hen system, lle roedd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd yn gyfrinachol i ddod yn farnwyr. Roedd y rhai oedd yn cael eu dethol yn tueddu o ran rhyw i fod yn **wrywaidd** ac o ran ethnigrwydd yn **wyn**. Mae hyn yn dangos bod gan bawb sydd â'r cymwysterau perthnasol gyfle i ymgeisio.

Felly, i raddau helaeth, mae'r prosesau ar gyfer dethol barnwyr yn llawer mwy teg, gan arwain at farnwriaeth o gefndir mwy **amrywiol**

1.10 Cwestiynau cyflym

1. Beth yw enw'r corff sy'n gyfrifol am benodi barnwyr?
2. Beth yw ystyr **sicrwydd daliadaeth**?
3. Beth yw'r gwahanol ffyrdd o ddiswyddo barnwr?
4. Beth oedd ystyr **ymholi dirgel**?
5. O dan ba adran o **Ddeddf Hawliau Dynol 1998** y gall barnwyr gyhoeddi datganiad anghydnawsedd?
6. Pa Ddeddf Seneddol oedd yn ei gwneud yn gymwys i farnwyr gael eu penodi ar sail nifer y blynyddoedd o brofiad oedd ganddyn nhw ar ôl cymhwyso?
7. Beth yw ystyr athrawiaeth **gwahaniad pwerau**?
8. Sut mae barnwr yn dod yn gymwys i gael ei benodi i'r Goruchaf Lys?
9. Pa Ddeddf Seneddol wnaeth sefydlu'r Goruchaf Lys?

Personél cyfreithiol: Ynadon

Gweithgaredd 1.53 Meini prawf cymhwyso ynadon

CYWIR	ANGHYWIR
Ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol	Cymwysterau cyfreithiol
Bod yn aeddfed, deall pobl a bod ag ymdeimlad o degwch	Bod rhwng 21 a 65 oed (gallan nhw fod rhwng 18 a 70 oed)
Bod yn ddibynadwy ac yn ymroddedig i wasanaethu'r gymuned	Bod heb euogfarnau diweddar (er bod y rhai ag euogfarnau diweddar difrifol wedi'u heithrio)
	Gallu bod yn y llys am o leiaf 36 hanner diwrnod bob blwyddyn (26 hanner diwrnod bob blwyddyn sy'n gywir)
	Bod â chefnidir neu swydd broffesiynol

Gweithgaredd 1.54 Ynadon lleig

Mae ynadon **lleig** yn eistedd ar fainc i glywed achos. Maen nhw'n cael cymorth **clerc ynadon** ar faterion cyfreithiol a gweithdrefnau.

Mae ynadon yn profi'r troseddau **ynadol** llai difrifol, yn ogystal â rhai troseddau sy'n brofadwy neillffordd. Maen nhw'n delio â **95%** o achosion troseddol o'r dechrau i'r diwedd. Mewn achosion o'r fath, maen nhw'n penderfynu ar y **rheithfarn** yn ogystal â'r **ddedfryd** i'r diffynnydd. Gall ynadon ddedfrydu diffynnydd i hyd at **chwe** mis yn y carchar neu ddirwy **heb uchafswm**. Os ydyn nhw'n meddwl bod y diffynnydd yn haeddu dedfryd fwy llym, gallan nhw eu hanfon i Lys **y Goron**, lle maen nhw'n cael eu dedfrydu o dan **Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000**.

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, gall yr ynadon naill ai ei ddedfrydu neu, os ydyn nhw'n meddwl bod eu pwerau dedfrydu yn annigonol, gallan nhw ei **anfon** i Lys y Goron i'w ddedfrydu. Os bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, bydd gwrandawriad i bennu **dull y treial** yn penderfynu ymhle bydd y treial yn cael ei gynnal. Mae'r ynadon yn ystyried euogfarnau blaenorol y diffynnydd, a ffeithiau'r achos. Os yw'r ynad yn barod i wrando ar yr achos, gall y diffynnydd ddewis i'r treial gael ei gynnal naill ai mewn llys **ieuenctid** neu Lys **y Goron**.


Er bod pob trosedd **dditiadwy** yn mynd ar brawf yn Llys y Goron, mae angen delio â'r materion rhagarweiniol yn y llys ynadon yn gyntaf. Yn ystod gwrandawriadau o'r fath, mae'n ofynnol i ynadon ganiatáu neu wrthod mechnïaeth o dan **Ddeddf Mechnïaeth 1976**.

Gall dau ynad eistedd gyda barnwr i glywed **apeliadau** yn Llys y Goron. Gall ynadon eraill sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol wrando ar achosion yn y llys **ieuenctid**, lle mae diffynnyddion rhwng 10 ac 17 oed yn cael eu cyhuddo o droseddau (ac eithrio llofruddiaeth).

Y tu allan i'r llys, gall ynadon gyhoeddi gwarantau chwilio ac **arestio** i'r **heddlu**. Maen nhw hefyd yn gallu caniatáu estyniad i'r heddlu o ran y cyfnod amser gallan nhw gadw rhywun dan amheuaeth i'w holi.

Gweithgaredd 1.55 Manteision ac anfanteision ynadon

Llenwch y bylchau.



1.11 Cwestiynau cyflym

1. Faint yw oed ynadon pan mae'n rhaid iddyn nhw ymddeol?
2. Beth yw'r ddirwy fwyaf gall ynadon ei rhoi?
3. Beth yw enw'r corff sy'n cyfweld ynadon?
4. Pa grwpiau o bobl sydd wedi'u heithrio rhag dod yn ynadon?
5. Mae ynadon fel arfer yn eistedd ar fainc sy'n cynnwys sawl ynad?
6. Pwy sy'n gyfrifol am benodi ynadon?
7. Beth yw'r ddedfryd uchaf gall ynadon ei rhoi?
8. Mae ynadon yn gysylltiedig ag achosion yn ymwneud â pha fath o droseddau?

Mynediad at gyfiawnder a chyllid

Gweithgaredd 1.56 Croesair ynadon

I lawr

1. MNTI
2. Pwyllgor ymgynghorol lleol
3. Ymwybyddiaeth gymdeithasol
4. Asgellwr
5. Dosbarth gweithiol
6. Lluoedd arfog
7. Ynadon
8. Llys ieuenctid
9. Chwe nodwedd allweddol
10. Cyfreithiwr ar ddyletswydd
11. Llys y goron
12. Tuedd
13. Ple cyn lleoliad
14. Ymddeol
15. Heddlu
16. Methdalwr

17. Lleyg

18. Chwe mis

Ar draws

19. Profiad bywyd

20. Cymeriad da

21. + 22. + 31.

Gwneud penderfyniadau barnwrol

23. Mechnïaeth

24. Tri

25. Gwarant arestio

26. Dull y treial

27. Dwy

28. Teeside

29. Sgiliau barnwrol

30. Y frenhines

31. Gweler 21 + 22 ar draws

32. Rhagarweiniol

Gweithgaredd 1.57 Methiannau a llwyddiannau Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012

Llwyddiannau ✓	Methiannau ✗
Mae toriadau i gymorth cyfreithiol sifil yn golygu bod pobl yn cael eu hannog i edrych am ddewis arall – e.e. dulliau amgen o ddatrys anghydfod, neu setliad y tu allan i'r llys	Oherwydd bod rhaid pasio prawf modd a haeddiant i gael cymorth cyfreithiol troseddol, mae goblygiadau enfawr i hyn o ran tanseilio rheolaeth cyfraith.
Mae'r toriadau i gymorth cyfreithiol yn golygu bod y llywodraeth yn arbed arian, oherwydd ei bod wedi gorwario llawer iawn o dan y cynllun blaenorol.	Mae rhai cwmnïau o gyfreithwyr yn mynd i'r wal oherwydd nad oes digon o achosion yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus.
Mae ffynonellau eraill, fel Cyngor ar Bopeth ac unedau pro bono, wedi gweld cynnydd yn eu busnes.	Mae cytundebau ffioedd amodol yn ddadleuol, oherwydd dim ond achosion sydd â siawns dda o ennill y bydd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn fodlon eu derbyn.
Nod y Ddeddf oedd osgoi cyfreitha diangen a gwrthwynebus ar bwrs y wlad, ac anelu cymorth cyfreithiol at y rhai sydd fwyaf ei angen.	Mae'r toriadau wedi arwain at gynydd enfawr yn nifer y bobl sy'n cyfreitha drostyn nhw eu hunain (hynny yw, pobl sy'n eu cynrychioli eu hunain) ac mae hyn yn rhoi mwy o faich ar y llysoedd, oherwydd bydd y gwrandawriad yn para'n hirach.
	Mae llawer o achosion sydd ddim yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol bellach, ac oherwydd bod y meini prawf cymhwyso yn fwy llym, mae angen cyfreithiol sydd heb ei ateb yn dal i fodoli.

Gweithgaredd 1.58 Cysylltu awdurdod cyfreithiol

Tynnwch linellau i gysylltu'r adran neu'r atodlen berthnasol o **Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr 2012**

Awdurdod cyfreithiol	Rheol
adran 16	Meini prawf 'ariannu eithriadol' ar gyfer achos sy'n ymwneud â thorri hawliau dynol.
adran 8	Diddymu gallu'r parti sy'n colli i adennill costau mewn cytundebau ffioedd amodol.
adran 4	Meysydd 'blaenoriaeth' sy'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol sifil.
adran 13	Creu cytundebau ar sail iawndal.
adran 14	Cymorth cyfreithiol sifil.
adran 10	Profion modd a haeddiant ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil.
adran 44	Profion modd a haeddiant ar gyfer Gorchmynion Cynrychioli (cymorth cyfreithiol troseddol).
adran 1	Hawl i gael cyfreithiwr ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu.
adran 45	Cymorth cyfreithiol troseddol.

Gallai eich map meddwl ar sut gall achosion sifil a throseddol gael eu hariannu yng Nghymru a Lloegr gynnwys y manylion canlynol.

Crynodeb: Mynediad at gyfiawnder a chyllid

► 1949–1999:

- Y wladwriaeth les
- System yn ôl y galw, a arweiniodd at ‘angen heb ei ateb am wasanaethau cyfreithiol’.

► 1999–2012:

- Cyllideb benodedig
- Masnachfreintio gwasanaethau cyfreithiol
- Cyflwyno cytundebau ffioedd amodol
- Gweinyddu gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

► *Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012 (LASPO)*

- **Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol:** Mae'r Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yn penderfynu ar achosion unigol.

► Cymorth cyfreithiol sifil:

- *adran 8 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012:* Prawf modd a phrawf haeddiant:
 - Amddiffyn plant
 - Budd-daliadau lles
 - Esgeuluster clinigol yn achos babanod
 - Anghenion addysgol arbennig
 - Trais domestig
 - Colli cartref
 - Cyfryngu teuluol
- *adran 10 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012:* ‘ariannu eithriadol’ pan fyddai peidio ag ariannu yn mynd yn groes i hawliau dynol.
- **Contractau:** Cwmnïau sydd â chontract gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yw'r unig rai sy'n gallu cynnig cymorth cyfreithiol sifil (mae hyn yn creu cystadleuaeth ac yn codi safonau)

► Cymorth cyfreithiol troseddol:

- *adran 16 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012:* System gymysg o gynnig cyngor a chynrychiolaeth droseddol, e.e. y gwasanaeth amddiffynwyr cyhoeddus, cyfreithwyr preifat sydd â chontractau â'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
- *adran 13 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012:* Cynllun cyfreithwyr ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu: am ddim i bawb, dim prawf modd
- *adran 14 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012:* Cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth mewn llys: ar gael yn amodol ar brawf modd a phrawf haeddiant (er budd cyfiawnder) yn unig

Gweithgaredd 1.59 Cytundebau ffioedd amodol a chytundebau ar sail iawndal

Cwblhewch y geiriau sydd ar goll gan ddefnyddio'r rhestr a roddwyd.

Cafodd cytundebau ffioedd amodol eu cyflwyno am y tro cyntaf gan **Ddeddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990**, ac wedyn yn fwy eang o fewn **Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999**. Cytundebau **preifat** yw'r rhain rhwng y cyfreithiwr a'r **cleient**. Maen nhw ar gael ar gyfer achosion **anafiadau personol**, gan nad yw'r rhain bellach yn cael eu hariannu gan y system cymorth cyfreithiol. O dan **adran 44 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012**, does dim rhaid i'r **collwr** dalu **costau** r parti sy'n **ennill**. Gall y ffi **ymgodi** fod hyd at **100%** o'r ffi **sylfaenol**, heblaw mewn achosion anafiadau personol, lle nad yw'r ffi llwyddiant yn gallu bod yn fwy na **25%** o'r iawndal, gan eithrio iawndal am **ofal** a cholledion yn y dyfodol.

Mae cytundebau ar sail iawndal yn debyg i gytundebau ffioedd amodol ond, os bydd eu hachos yn llwyddiannus, mae hawl gan y **cyfreithiwr** i gymryd **canran** o **iawndal** eu cleient. Y taliad **uchaf** sy'n gallu cael ei gymryd gan y cyfreithiwr yw **25%** o'r iawndal mewn achosion anafiadau personol a **35%** mewn achosion tribiwnlys cyflogaeth.

Y broblem gyda chytundebau **dim ennill**, **dim ffi** yw bod costau **cudd** yn aml, ac mae'n rhaid i hawlwr yn aml dalu premiwm **yswariant** drud i dalu am gostau, sydd ddim o reidrwydd yn **fforddiadwy** i bawb. Mae pobl yn aml yn cael eu rhoi o dan bwysau mawr gan dactegau gwerthu'r 'ffermwyr hawliadau', fel maen nhw'n cael ei galw wrth iddyn nhw ddefnyddio technegau marchnata amhriodol a gwerthwyr **bygythiol**. Ond maen nhw'n cynnig mynediad at gyfiawnder i'r bobl sydd ddim yn **gymwys** i gael cymorth cyfreithiol.

Gweithgaredd 1.60 Deall termau'r broses droseddol

Rhowch ddiffiniad ar gyfer y termau allweddol hyn y mae angen i chi eu gwybod mewn perthynas â'r broses droseddol.

Term	Diffiniad
prawf er budd cyfiawnder	Prawf a ddefnyddir cyn y gellir bod yn gymwys am gymorth cyfreithiol yn y Llys Ynadon – enw arall arno yw Gorchymyn Cynrychioli. Mae'r prawf yn ystyried euogfarnau blaenorol, natur y drosedd a'r risg o gadw'r unigolyn yn y ddalfa.
prawf modd (cymorth cyfreithiol troseddol)	Prawf a ddefnyddir i bennu gallu ariannol diffynnydd i dalu am ei ffioedd cyfreithiol ei hun.
Gwasanaeth Amddiffynwyr Cyhoeddus	Adran yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol sy'n gweithredu ochr yn ochr â darparwyr preifat. Mae'n cynnig gwasanaethau cyfreithiol, cyngor a chynrychiolaeth yng ngorsaf yr heddlu a'r llys ynadon.
Gorchymyn Cynrychioli	Enw arall am gymorth cyfreithiol troseddol sy'n cael ei roi yn y llys ynadon.
Prawf modd (cymorth cyfreithiol sifil)	Prawf a ddefnyddir i bennu gallu ariannol hawlydd i dalu am ei ffioedd cyfreithiol sifil ei hun. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn edrych ar incwm a chyfalaf yr hawlydd.
Prawf haeddiant	Prawf a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i benderfynu a fydd cymorth cyfreithiol yn cael ei roi; mae'n ystyried y rhagolygon o lwyddo, budd y cyhoedd, cymesuredd a'r iawndal tebygol.
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol	Y corff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r system cymorth cyfreithiol yn y DU, gan ddisodli'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.
angen heb ei ateb am wasanaethau cyfreithiol	Ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio problem a wynebwr gan bobl y mae angen cyfreithiwr neu achos llys arnyn nhw ond dydyn nhw ddim yn gallu cael mynediad at y system oherwydd diffyg arian neu wybodaeth.
dim ennill, dim ffi	Enw anffurfiol am drefniant ffi amodol neu gytundeb yn seiliedig ar iawndal lle na fydd yn rhaid i'r hawlydd dalu ei ffioedd cyfreithiol os na fydd yn ennill yr achos.
Criminal Defence Direct	Dull o roi cyngor dros y ffôn i bobl sydd dan amheuaeth mewn gorsafoedd heddlu yn absenoldeb cyfreithwyr ar ddyletswydd.
ffi ymgodi/ffi llwyddiant	Canran o ffi sylfaenol y cynrychiolwyr cyfreithiol wedi'i ychwanegu at y ffi; bydd yn daladwy os enillir yr achos.

Gweithgaredd 1.61 Cyllid cyfreithiol

Dim atebion ar gael.


1.12 Cwestiynau cyflym

1. Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (a wnaeth ddisodli'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol).
2. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:
 - Esgeuluster clinigol yn achos babanod.
 - Gwahaniaethu.
 - Cyfryngu teuluol.
 - Trais domestig.
 - Amddiffyn plant a herwgydio plant.
 - Dyled.
 - Anghenion addysgol arbennig.
 - Priodasau dan orfod.
 - Tai.
 - Budd-daliadau lles.
 - Mewnfudo.
3. Mae'r Gwasanaeth Amddiffynwyr Cyhoeddus yn darparu gwasanaethau cyfreithiol troseddol ochr yn ochr â darparwyr preifat yng ngorsaf yr heddlu a'r llys ynadon.
4. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:
 - Achosion cadarn yn unig fydd yn cael eu derbyn gan gyfreithwyr ac, i bob pwrpas, gallan nhw ddewis a dethol yr achosion sy'n fwyaf tebygol o lwyddo.
 - Mae pobl yn aml yn cael eu rhoi o dan bwysau mawr gan dactegau gwerthu y ffermwyr hawliadau.
 - Llawer o daliadau cudd, annisgwyl nad yw pobl yn ymwybodol ohonyn nhw.
5. Mae'r adran hon yn datgan y gellir "ariannu achosion eithriadol" mewn amgylchiadau eithriadol, lle byddai peidio â darparu cyllid cyfreithiol yn arwain at dorri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
6. Adran 16.
7. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:
 - Mae cymorth cyfreithiol sifil ar gael ar gyfer nifer cyfyngedig o achosion erbyn hyn yn unig.
 - Mae'n rhaid i lawer o bobl dalu'n breifat neu gynrychioli eu hunain yn y llys.
 - Mae llai o bobl yn gymwys am gymorth cyfreithiol yn ôl y meini prawf a gafodd eu nodi yn y ***Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012***.
8. Mae'r adran hon yn datgan y gellir "ariannu achosion eithriadol" mewn amgylchiadau eithriadol, lle byddai peidio â darparu cyllid cyfreithiol yn arwain at dorri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
9. Cyfreithwyr yw'r rhain sy'n gweithio mewn cwmnïau preifat, ond sydd wedi ennill contract gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i roi cyngor troseddol i bobl mewn gorsafoedd heddlu sydd wedi'u harestio.
10. Math o gyngor dros y ffôn sy'n cael ei roi i bobl sydd dan amheuaeth mewn gorsafoedd heddlu yn absenoldeb cyfreithwyr ar ddyletswydd yng ngorsafoedd yr heddlu.

Pennod 2: Cyfraith contract

Rheolau a damcaniaeth cyfraith contract

Gweithgaredd 2.1 Chwilair cyfraith contract



2.1 Cwestiynau cyflym

- Contract yw unrhyw gytundeb neu addewid sy'n gyfreithiol-rwym, a gall fod yn ysgrifenedig neu'n anysgrifenedig.
- Laissez-faire yw'r syniad bod pobl yn gallu gwneud cytundebau ar eu telerau eu hunain, a llunio 'bargen' er eu lles eu hunain ac ar eu telerau eu hunain.
- Mae'n amodi, 'cyhyd ag y mae'n bosibl gwneud hynny, rhaid darllen deddfwriaeth gynradd ac is-ddeddfau a rhoi grym iddynt mewn modd sy'n cyd-fynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol'. Dangoswyd hyn yn achos *Shanshal v Al-Kishtaini (2001)*.
- Gall statudau fel *Deddf Telerau Contract Annheg 1977* gyfyngu ar egwyddor y rhyddid i lunio contract, er mwyn sicrhau bod y syniad o degwch yn cael ei gynnal.
- Cyfraith gwlad/cyfraith gyffredin ('fel hawl'):
 - Iawndal
 - Cyflawniad llythrennol
 - Ecwiti (dewisol):
 - Dadwneuthuriad
 - Gwaharddeb
 - Cywiro

6. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol: archebu gwyliau, prynu nwyddau mewn siop, llunio contract ar gyfer ffôn symudol newydd, defnyddio maes parcio talu ac arddangos, prynu tocynnau cyngerdd.
7. Cynnig yw hwn i gysoni rheolau'r UE ar gyfer prynu cynnwys digidol ar-lein yn ogystal â gwerthu nwyddau go iawn.

Gofynion hanfodol contract

Gweithgaredd 2.2 Gwahoddiadau i drafod

Gwahoddiadau i drafod	Esboniad	Achos(ion) i gefnogi
Arddangos nwyddau.	Dydy'r nwyddau sy'n cael eu harddangos ddim yn dod yn gynnig nes bod y cwsmer yn codi'r nwyddau. Pan fydd y gwerthiant yn cael ei gytuno, bydd contract yn cael ei lunio.	<i>Fisher v Bell (1961)</i>
Eitemau mewn arwerthiant	Mae galwad yr arwerthwr am gynigion (<i>bids</i>) yn wahoddiad i drafod. Mae'r cynigion (<i>bids</i>) eu hunain yn gynigion (<i>offers</i>) ac mae'r cynnig yn cael ei dderbyn pan fydd y morthwyl yn cael ei daro.	<i>British Car Auctions v Wright (1972)</i>
Nwyddau neu wasanaethau a hysbyseb ar werth mewn papur newydd neu gylchgrawn.	Mae hysbyseb am nwyddau ar werth fel arfer yn wahoddiad i drafod. Ond gall fod yn gynnig, yn dibynnu ar y geiriad a'r amodau.	<i>Partridge v Crittenden (1968)</i>
Cais am dendrau.	Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig cyfle i gwmnïau dendro eu gwasanaethau. Gall y sefydliad ddewis unrhyw gwmni y mae'n ei ddimuno.	<i>Harvela Investments v Royal Trust of Canada (1986)</i>
Datganiad o bris.	Os yw rhywun yn nodi pris a fyddai'n dderbyniol, nid yw hynny yn gyfystyr â chynnig.	<i>Harvey v Facey (1893)</i>

Gweithgaredd 2.3 A oes contract?

	Contract?
Mewn arwerthiant, mae Elton yn gweld piano ac yn rhoi'r cynnig buddugol, sef £950. Yna mae'n sylweddoli mai £500 yn unig sydd ganddo.	
Mae siop DIY wedi hysbysebu'r canlynol: ' <i>Paent moethus: £10 y tun. Os prynwch y paent a dod o hyd i baent cyfatebol yn rhatach yn rhywle arall, byddwn yn rhoi ad-daliad i chi</i> '. Mae Harriet yn prynu tri thun i baentio ei hystafell fwyta, ond mae'n gweld yr un cynnyrch ar werth mewn siop wahanol am £5 y tun. Mae hi'n dychwelyd i'r siop gyntaf, gan fynnu ad-daliad.	
Mae Sophie eisiau cyflogi glanhawr. Mae ei chydweithiwr, Doreen, yn dweud bod ei glanhawr yn chwilio am fwy o waith. Mae Sophie yn gofyn faint mae hi'n ei godi ac mae Doreen yn dweud '£20 yr wythnos'. Mae Sophie yn derbyn y cynnig i'r glanhawr ddod i'w thŷ unwaith yr wythnos.	
Mae Megan eisiau gwerthu ei pheiriant coffi. Mae hi'n gwybod bod ei ffrind George wrth ei fodd â choffi yn y bore. Mae hi'n meddwl y bydd hi'n ei werthu iddo am £30, ond dydy hi ddim wedi siarad ag ef am y mater eto.	

	Contract?
Cafodd Ali gyfweiliad am swydd yn McDonalds ac roedd un o'i ffrindiau, Stewart, ar y panel cyfweild. Penderfynodd Stewart mai Ali oedd yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd, a dywedodd wrth Ali ei fod wedi cael y swydd. Mewn gwirionedd, penderfynodd y rheolwyr eraill beidio â chynnig y swydd i Ali oherwydd nad oedd wedi sgorio'n ddigon uchel yn y cyfweiliad.	
Mae Claire yn gwerthu byngalo ei modryb sydd wedi marw. Mae hi'n rhoi'r tŷ ar werth ac mae Paula ac Ayesha wedi dod i weld y tŷ. Maen nhw'n hoff iawn o'r tŷ ac yn cynnig £180,000 i Claire amdano. Mae Claire eisiau mwy o arian na hynny, felly mae hi'n gwrthod y cynnig. Yna maen nhw'n cynnig £195,000 iddi am y tŷ. Mae Claire yn derbyn y cynnig hwn ac yn dweud y bydd yn rhoi gwybod i'w chyfreithiwr y diwrnod nesaf.	

Gweithgaredd 2.4 Cwestiwn cymhwyso wedi'i gymryd o ddeunyddiau asesu enghreifftiol CBAC

Defnyddiwch y strwythur NDC i ymateb i'r senario a chymharwch eich ateb gydag atebion eich cyd-fyfyrwyr.

Gweithgaredd 2.5 Preifatrwydd contract: Gwerthuso

Gweithgaredd trafodaeth yw hwn – defnyddiwch dudalennau 124–125 yn *CBAC Safon Uwch Y Gyfraith Llyfr 1* i gael rhai syniadau, ac yna trafodwch eich syniadau gyda'ch cyd-fyfyrwyr.

Gweithgaredd 2.6 Telerau contract

Defnyddiwch dudalennau 111–125 yn *CBAC Safon Uwch Y Gyfraith Llyfr 1* fel man cychwyn, ac ystyriwch ddefnyddio enghreifftiau o'ch bywyd eich hun.

2.2 Cwestiynau cyflym

- Contract dwyochrog = contract rhwng dau barti lle mae'r naill a'r llall yn addo cyflawni gweithred yn gyfnewid am weithred y llall. Contract unochrog = cynnig sy'n cael ei wneud yn gyfnewid am weithred; er enghraifft, gwobr am eiddo coll.
- Cynnig = mynegiant o barodrwydd gan y cynigai i lunio cytundeb cyfreithiol-rwym ar sail y telerau sydd yn y cynnig a wnaed gan y cynigiwr. Gwahoddiad i drafod = datganiad o barodrwydd i drafod, ond nid datganiad o fwriad i lunio cynnig rhwymol.
- Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol: arddangos nwyddau, eitemau mewn arwerthiant, nwyddau neu wasanaethau a hysbysebair ar werth mewn papur newydd neu gylchgrawn, cais am dendrau, datganiad o bris.
- Rhaid i gynnig gael ei gyfleu (*Taylor v Laird (1856)*) a rhaid i delerau'r cynnig fod yn bendant (*Guthing v Lynn (1831)*).
- Gall trydydd parti dibynadwy gyfleu'r ffaith bod cynnig wedi ei dynnu'n ôl. Yn achos *Dickinson v Dodds (1876)*, roedd y ddau barti yn adnabod y trydydd parti dibynadwy hwnnw.
- Mewn sawl ffordd:
 - Derbyn
 - Gwrthod
 - Dirymu
 - Gwrthgynnig
 - Amser yn mynd heibio
 - Methiant amodau
 - Marwolaeth

7. Lle bydd telerau cytundeb yn nodi neu'n awgrymu mai'r post arferol yw'r ffurf arferol, ragweladwy neu wedi'i chytuno o dderbyn, bydd y derbyn yn digwydd pan fydd y llythyr yn cael ei bostio, nid pan fydd yn cael ei dderbyn.
8. Yn yr achos hwn, cadarnhawyd, lle cytunir bod contract yn cael ei dderbyn drwy ddulliau cyfathrebu 'ar unwaith' (ffacs, e-bost, ac ati), yna bydd y contract yn gyflawn pan fydd y derbyniad yn cael ei dderbyn.
9. Mae'r rhagdybiaeth nad oes gan gytundebau cymdeithasol a domestig fwriad cyfreithiol yn wrthbrofadwy. Golyga hyn, os gall y llysoedd ddod o hyd i dystiolaeth o fwriad, y gallan nhw ganfod hefyd fod cytundeb cyfreithiol-rwym wedi ei lunio – gall hyn fod yn wir os yw'r partïon wedi cyfnewid arian fel yn achos *Simpkins v Pays (1955)*.
10. Y rhain yw:
 - Rhaid i gydnabyddiaeth fod yn 'ddigonol', ond nid oes rhaid iddi fod yn 'llawnddigonol'.
 - Rhaid i gydnabyddiaeth symud oddi wrth yr addewid.
 - Nid yw dyletswydd contract sy'n bodoli'n barod yn gyfystyr â chydabyddiaeth.
 - Nid yw rhan-daliad dyled yn gydnabyddiaeth.
 - Nid yw cydnabyddiaeth yn y gorffennol yn gydnabyddiaeth.
11. Preifatrwydd contract yw'r rheol na allwch roi hawliau neu osod rhwymedigaethau sy'n deillio ohono ar unrhyw unigolyn ac eithrio'r partïon sy'n rhan ohono.
12. Mae'r Ddeddf hon yn galluogi trydydd partïon i orfodi hawliau o dan contract o dan yr amgylchiadau canlynol:
 - **adran 1(1)(a)** – os cyfeirir yn benodol yn y contract at y trydydd parti; neu
 - **adran 1(1)(b)** – os yw'r contract yn honni ei fod yn rhoi budd iddyn nhw.
13. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol.
 - Ewyllys rydd – dylai partïon fod yn rhydd i ymrwymo i contractau gyda phwy bynnag maen nhw'n ddymuno, a dylen nhw gael hawliau a rhwymedigaethau dim ond pan fyddan nhw'n cytuno i ddod yn rhan o contract.
 - Annheg – mae'n annheg caniatáu i barti siwio os na ellir siwio'r parti hwnnw ei hun.
 - Cyfyngol – mae rheol preifatrwydd yn cyfyngu ar hawliau'r partïon i addasu neu derfynu'r contract.
 - Atebolrwydd amhenodol – mae'r eithriadau yn golygu y gall contractwyr fod ag atebolrwydd amhenodol i nifer anghyfyngedig o drydydd partïon.
14. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol.
 - Cyfreitha estynedig – gallai rheol preifatrwydd arwain at gyfres o hawliadau contract.
 - Bwriad y partïon – nid yw rheol preifatrwydd o anghenraid yn adlewyrchu bwriad y partïon, gan y bydden nhw o bosibl yn dymuno i drydydd parti gael hawliau a rhwymedigaethau.
 - Nifer o eithriadau – mae'r nifer helaeth o eithriadau statudol a chyfraith gwlad yn gwneud hwn yn faes cyfreithiol cymhleth.

Rhyddhau contract

Gweithgaredd 2.7 Rhyddhau drwy lesteirio

Defnyddiwch y strwythur NDC i lunio eich ateb ac yna cymharwch eich ateb â rhai eich cyd-fyfyrwyr.

Gweithgaredd 2.8 Croesair rhyddhau contract

Across

2. Unilateral
3. Anticipatory
7. Caldwell
8. Illegality
9. Impossibility
10. Frustration
11. Recover

Down

1. Severable
4. Terminate
5. Part
6. Performance.

Gweithgaredd 2.9 Cysylltwch yr achos â'r math o ryddhau

RHYDDHAU CONTRACT			
CYFLAWNI	TOR-CONTRACT	CYTUNDEB	LLESTEIRIO
<i>Sumpter v Hedges (1898)</i>			<i>Bolton v Mahadeva (1972)</i>
<i>Taylor v Caldwell (1863)</i>			<i>Frost v Knight (1872)</i>
<i>Cutter v Powell (1795)</i>			<i>White and Carter Ltd v McGregor (1962)</i>
<i>Platform Funding Ltd v Bank of Scotland (2008)</i>			<i>Avery v Bowden (1855)</i>
<i>Startup v Macdonald (1843)</i>			<i>Modahl v British Athletic Federation (1999)</i>
<i>Robinson v Davidson (1871)</i>			<i>Dakin & Co v Lee (1916)</i>
<i>Krell v Henry (1903)</i>			<i>Herne Bay Steamboat Co v Hutton (1903)</i>
<i>Hoeing v Isaacs (1952)</i>			<i>Planche v Colburn (1831)</i>

2.3 Cwestiynau cyflym

1. Rhyddhau dwyochrog: Mae tybiaeth y bydd y ddau barti yn cael budd newydd ond gwahanol o gytundeb newydd. Rhyddhau unochrog: Dim ond un parti fydd yn cael budd, felly mae'n ceisio argyhoeddi'r parti arall i'w ryddhau o'r rhwymedigaethau sy'n codi o dan y cytundeb gwreiddiol.
2. Tor-contract gwirioneddol yw lle na fydd parti mewn contract yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y contract o gwbl. Tor-contract rhagddyfalus yw lle mae parti mewn contract yn rhoi gwybod o flaen llaw na fydd yn cyflawni ei rhwymedigaethau fel y cytunwyd.
3. Daeth yr achos hwn i'r casgliad, os yw contract yn gofyn am gael ei gyflawni'n llawn, a bod parti yn methu cyflawni'r contract yn ei gyfanrwydd, nid oes ganddo'r hawl i unrhyw beth o dan y contract gan y parti arall.
4. *Taylor v Caldwell (1863)*.
5.
 - Amhosibilrwydd
 - Anghyfreithlondeb
 - Oferedd masnachol
6. Lle mae diben masnachol y contract wedi diflannu o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n ymyrryd.
7. *Deddf Diwygio'r Gyfraith (Contractau dan Lestair) 1943*

Rhwymedïau: Cyfraith contract

Gweithgaredd 2.10 Rhwymedi iawndal cyfraith gwlad/cyfraith gyffredin

Mae rhwymedi iawndal cyfraith gwlad/cyfraith gyffredin ar gael 'fel hawl' os sefydlir bod contract wedi cael ei dorri. Yng nghyfraith contract, mae iawndal yn daliad ariannol i ddigolledu'r parti a niweidiwyd. Diben iawndal mewn cyfraith contract yw rhoi'r dioddefwr, cyn belled ag sy'n bosibl ac i'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu, yn yr un sefyllfa ag y byddai wedi bod ynddo pe bai'r contract heb gael ei dorri, ond yn hytrach wedi cael ei gyflawni yn y modd ac ar yr amser a fwriadwyd gan y partïon. Pan fydd tor-contract, gall parti ddioddef colled ariannol neu golled anariannol, sef colledion eraill, fel straen meddyliol, siom, brifo teimladau neu gywilydd. Yn draddodiadol, nid yw'r rhain wedi cael eu digolledu o fewn cyfraith contract (yn wahanol i gyfraith camwedd). Ond yn ddiweddar, mae'r rheol hon wedi cael ei llacio yn achos contractau sy'n rhai penodol ar gyfer pleser, ymlacio a thawelwch meddwl – gweler *Jarvis v Swans Tours Ltd (1973)* a *Farley v Skinner (2001)*.

Gweithgaredd 2.11 Cyfyngiadau ar ddyfarnu iawndal

Cysyniad allweddol	Esboniad
Profion achosiaeth	Bydd rhywun yn atebol dim ond i golledion a achoswyd gan eu tor-contract. Rhaid i dor-contract y diffynnydd fod yn weithred effeithiol ac ymyrrol (<i>intervening</i>) rhwng y tor-contract a'r golled a gafodd ei hachosi, er mwyn torri'r gadwyn achosiaeth, e.e. <i>Quinn v Burch Bros (Builders) Ltd (1966)</i> .
Pellenigrwydd	Mae rhai colledion yn cael eu hystyried yn rhy bellennig (hynny yw, pell i ffwrdd) oddi wrth y tor-contract i ddisgwyl cael eu digolledu gan y diffynnydd. Bydd diffynnydd yn atebol dim ond i golledion y byddai modd 'yn rhesymol eu rhagweld' yn sgil y tor-contract – fel yn achos <i>Hadley v Baxendale (1854)</i> ac yn ddiweddarach yn <i>Transfield Shipping v Mercator Shipping [The Achilles] (2008)</i> .
Lliniaru colled	Mae dyletswydd ar hawlwr i liniaru eu colled; mewn geiriau eraill, chawn nhw ddim adennill iawndal am golledion y byddai wedi bod yn bosibl eu hosgoi petaen nhw wedi cymryd camau rhesymol – gweler <i>Pilkington v Wood (1953)</i> . Ni all hawlwr eistedd yn ôl a gadael i golledion gynyddu. Os oes rhywbeth y gallan nhw ei wneud i leihau'r effaith neu'r golled, ac mae camau rhesymol y gallan nhw eu cymryd, yna maen nhw dan rwymedigaeth i wneud hynny.

Gweithgaredd 2.12 Chwilair cyfrifo colled

H I U T I U U M N C J O J S L M M I L M F P E N J
 J T S J H G G T G J B D W B O Y U T T E T G B S M
 F F E L J C I Y S J L I T S M D G O Y U I E U E O
 H D B A J O M G N M S W N B A W A C T P B F R L B
 Y P O U I Y J S Y A O L B I T W N G C M T D W N U
 L D J N J N J C T T Y S L O U S L P D M C C N F R
 H J P A G W Y F A T Y Y H M O T L J B R M B B J R
 H B T B B M O B N D W S I H T R E W G B R S C D T
 U D Y S T J F A I G T Y P F R N A O B D G I M Y M
 E E E I M O C W S D W J T I J N G H J O L J C S A
 F S L S B M I I C F L L B I U L R I J N W G M N T
 B L L G D R D J O O S I D G L L A O T H R S G M E
 C R T H U D R R L Y S W A N R P D H J S E L J L G
 O S N H E R T G L I G B M S T M D B A A I H A T I
 B S O L R L P S I B Y I C Y R P Y I H A J P A G B
 S C L M U M O U C R R A B S R A S W T R F U G J C
 M O I C S N P B Y S E S B E T I D V L B W I R B P
 C C T M E W R D F U S B R M A M A E B E P D G H S
 R G I M M W D J L A M C F B Y I N W L M I T J B J
 M P J J T E U L E R H N T J M T H D N L P L A B W
 G O L D E N V I C T O R Y I I J C N Y D O U L G G
 S Y M T M G S S E L S H P D D S R W U G A C P O Y
 T D S I S T R J B C P C J P I P A D J J M L J M C
 Y I S F M T U E U J I N I N Y Y M J C C Y C I L A
 D T N G E J O F L S W S P S W H S W C R J G S P L

Term allweddol	Diffiniad
Swm yr iawndal	Faint o iawndal a roddwyd.
Colled disgwyliad	Y diben yw rhoi'r hawlydd yn yr un sefyllfa ariannol y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r contract wedi cael ei gyflawni
Colled ar sail dibyniaeth	Lle mai dyma yw'r sail ar gyfer cyfrifo iawndal, bydd y llysoedd yn ceisio rhoi'r hawlydd yn y sefyllfa yr oedd ynddi cyn llunio'r contract.
<i>Golden Victory (2007)</i>	Achos sy'n cael ei ddefnyddio gan y llysoedd i roi blaenoriaeth i degwch o flaen ansicrwydd, drwy beidio ag ystyried digwyddiadau sydd wedi digwydd ar ôl y tor-contract.
Mesur	Gall rhoi swm ar rywbeth.
Gwerth is	Llai na.
Marchnad sydd ar gael	Nifer y bobl sy'n fodlon ac yn gallu prynu cynnyrch neu wasanaeth penodol mewn marchnad benodol.
Colli elw	Arian nad yw'r busnes wedi ei wneud, o bosibl oherwydd y problemau yn gysylltiedig â'r contract.
Colli cyfle	Mater achosiaeth

Gweithgaredd 2.13 Rhwymedïau ecwitiol

Yn wahanol i rhwymedïau cyfraith gwlad, sy'n cael eu hystyried 'fel hawl', mae rhwymedïau ecwitiol yn **ddewisol**. Mae rhwymedïau ecwitiol yn seiliedig ar yr egwyddor o 'degwch'.

Mewn achosion lle nad yw rhwymedïau cyfraith gwlad yn ddigonol i **ddigolledu** 'r hawlydd, mae rhwymedïau ecwitiol ar gael yn lle hynny. Maen nhw'n cael eu darparu ar ddisgresiwn y llys, ac yn rhoi ystyriaeth i **ymddygiad** y ddau barti yn ogystal â **chyfiawnder** cyffredinol yr achos.

Mae pedwar prif fath o rwymedi ecwitiol:

- **gwaharddeb**
- **cyflawniad**
- dadwneuthuriad,
- cywiro.

Gweithgaredd 2.14 Rhwymedïau ecwitiol

Rhwymedi ecwitiol	Esboniad
Gwaharddeb	Fel arfer, mae gwaharddeb yn gorfodi'r diffynnydd i beidio â gwneud rhywbeth penodol (yr enw ar hyn yw gwaharddeb waharddiadol) – gweler <i>Warner Bros Pictures Inc v Nelson (1937)</i> . Fodd bynnag, os oes gweithred eisoes wedi digwydd, gall y llys orchymyn gorfodeb sy'n gorfodi'r parti i wneud rhywbeth. Fel arfer, byddai hyn yn orchymyn i'r diffynnydd gymryd camau i adfer y sefyllfa, er mwyn ei gwneud yr un fath â'r hyn oedd cyn i'r diffynnydd dorri'r contract.
Cywiro	Rhwymedi ecwitiol sy'n ei gwneud yn bosibl i newid dogfen ysgrifenedig er mwyn cywiro camgymeriad. Bydd yn cael ei ddyfarnu pan fydd cytundeb ysgrifenedig yn gwrth-ddweud y cytundeb gwirioneddol a luniwyd gan y partïon. <i>Craddock Brothers Ltd v Hunt (1923)</i> .
Dadwneuthuriad	Mae'r rhwymedi hwn yn gosod y partïon yn ôl yn y sefyllfa roedden nhw ynddi cyn y contract. Os nad yw hyn yn bosibl, ni fydd dadwneuthuriad yn cael ei ganiatáu. Mae'n cael ei ganiatáu yn bennaf fel rhwymedi mewn achosion camliwio. Y term am hyn yw <i>restitutio in integrum</i> (<i>Clarke v Dickson (1858)</i>).
Cyflawniad llythrennol	Gorchymyn sy'n gorfodi un ochr o'r contract i gyflawni ei rwymedigaethau o dan gontract. Anaml iawn y bydd y rhwymedi hwn yn cael ei ddyfarnu, a hynny mewn achosion lle byddai iawndal yn unig yn annigonol (<i>Beswick v Beswick (1968)</i>), lle mae'r contract wedi'i lunio yn deg (<i>Walters v Morgan (1861)</i>), a lle na fyddai dyfarnu cyflawniad llythrennol yn achosi caledi mawr nac annhegwch i'r diffynnydd (<i>Patel v Ali (1984)</i>). Mae hyn yn cefnogi natur ecwitiol cyflawniad llythrennol fel rhwymedi.

2.4 Cwestiynau cyflym

1. Mae cyfraith contract yn ei gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd ddigolledu'r hawlydd am yr anaf neu'r golled mae wedi ei hachosi. Bydd yr iawndal yn adlewyrchu'r math o anaf neu golled. Mae cyfraith camwedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd roi'r gorau i wneud yr hyn sy'n achosi niwed i'r hawlydd neu ei eiddo, ac mae'r iawndal yn ei ddigolledu am yr anaf neu golled.
2. Iawndal ariannol.
3. Cyfraith gwlad ac ecwiti.
4. Gall yr iawndal un ai fod ar sail colled disgwyliad (bydd y llysoedd yn ceisio rhoi'r hawlydd yn y sefyllfa y byddai wedi gallu bod ynddi pe na bai'r tor-contract wedi digwydd) neu golled ar sail dibyniaeth (bydd y llysoedd yn ceisio rhoi'r hawlydd yn y sefyllfa roedd ynddi cyn y tor-contract).
5. Dyma'r colledion ariannol sy'n digwydd o ganlyniad i dor-contract.
6. Dyma'r colledion anariannol, fel straen meddyliol, siom, brifo teimladau neu gywilydd.
7. Gwaharddeb, cyflawniad llythrennol, dadwneuthuriad, cywiro.
8. Dewis y llys yw rhoi iawndal neu beidio.
9. Lleihau colled.

Pennod 3: Cyfraith trosedd

Rheolau camwedd

Gweithgaredd 3.1 Y gwahaniaeth rhwng camwedd a throsedd

Mae camwedd yn wahanol i drosedd yn y ffyrdd canlynol. Mae camwedd yn weithred cyfraith **breifat** yn erbyn **unigolyn** (e.e. esgeuluster, niwsans, etc.), ond mae trosedd yn weithred cyfraith **gyhoeddus** yn erbyn **y wladwriaeth** (e.e. lladrad, niwed corfforol difrifol, llofruddiaeth, etc.). Nod achosion camwedd yw **digolledu**'r dioddefwr am y niwed a achoswyd, ond nod erlyniad troseddol yw **cosbi**'r drwgweithredwr. Mae rhai meysydd yn gorgyffwrdd: er enghraifft, gellid dadlau bod lefelau uchel o **iawndal** mewn achosion camwedd yn 'cosbi'r' diffynnydd, ac mae darpariaethau hefyd mewn cyfraith trosedd i'r drwgweithredwr ddigolledu'r dioddefwr yn ariannol. Gall un digwyddiad arwain at erlyniad troseddol yn ogystal ag achos camwedd – er enghraifft, pan fydd dioddefwr yn cael **anaf** o ganlyniad i **yrru** peryglus.

Atebolrwydd ar sail bai ac atebolrwydd caeth

Yr egwyddor gyffredinol yw nad oes **atebolrwydd** heb **fai**. Mae atebolrwydd mewn cyfraith camwedd yn seiliedig ar y syniad bod bai ar y diffynnydd mewn rhyw ffordd. Mae ystyr eang i'r term 'bai' yng nghyfraith camwedd, ac mae'n cynnwys sefyllfaoedd fel esgeuluster (lle mae ymddygiad diffynnydd o **safon** is na'r hyn sydd i'w ddisgwyl), achosi niwed yn fwriadol, a thresmasu (lle mae'r diffynnydd yn tresmasu ar **hawliau** rhywun arall). Mae atebolrwydd ar sail bai yn atal pobl eraill gan eu bod yn gwybod, os penderfynir mai nhw sydd ar fai, y gallan nhw fod yn atebol i dalu **iawndal**.

Mae'n bosibl cyflawni rhai camweddau, o'r enw camweddau atebolrwydd **caeth**, heb fod unrhyw fai ar y diffynnydd o gwbl. Mae potensial i'r rhain fod yn **annheg**, gan y gall y diffynnydd fod yn atebol i dalu iawndal er na fyddai wedi gallu **atal** y niwed o bosibl. Mae achos **Rylands v Fletcher (1868)** yn enghraifft o gamwedd atebolrwydd caeth.

Gweithgaredd 3.2 Chwilair damcaniaethau cyfraith camwedd

W G J C I L G Y Y M A F O J G T W C L Y
P G Y G E O F A J T B H I C E E Y O A G
G A A U G R G R Y U J P W G M F R S D B
F B W G M I B F R S C J O P I E H B N G
I Y N I J W C A G Y C N J A F H W P W L
L O D O F Y D Y N Y N Y W D D M Y M A C
G U L I M C A C W Y W N A J B Y S G I J
O J N W L R M O L E D R W R C E T D J W
N J T I R E C R I E E O U A M T R R A T
S D T S O D A J R D P J W B P W T J A T
L B G T H N N D N H A L H E U H W B M G
B D I T G W I W R Y W W P I M L H D T Y
J T W F W A A R I A N Y S W I R I A N T
G F R E L I E E C W T F M R D B T M U G
T J M G F F T P T A L J T E E I E P D J
S H A Y P Y H P B W M G Y N D P T J C H
L R C L T C A H B U M G B T T I P O E F
R B S I E D U J E L A U C P D T J P J U

Term allweddol	Diffiniad
damcaniaethau	Syniadau neu awgrymiadau ynghylch sut mae rhywbeth yn gweithio.
diben	Pwrpas rhywbeth.
rhwymedi	Y datrysiad mewn achos sifil, e.e. iawndal i roi'r hawlydd yn ôl yn yr un sefyllfa ag oedd pe na bai'r camwedd wedi digwydd.
cyfiawnder cywirol	Rhoi pethau yn ôl fel yr oedden nhw i'r graddau bod hynny'n bosibl.
unioni'r cam	Yn cefnogi'r safbwynt mai diben iawndal mewn cyfraith camwedd yw 'unioni'r cam'.
cyfiawnder adferol	Y datrysiad mewn achos sifil, e.e. iawndal i roi'r hawlydd yn ôl yn yr un sefyllfa ag oedd pe na bai'r camwedd wedi digwydd.
cyfiawnder dialgar	Yn cael ei gysylltu fel arfer â chyfraith trosedd ond mae'n chwarae rhan yng nghyfraith camwedd. Mae'r ddamcaniaeth hon yn rhoi pwyslais ar gosbi, gyda'r bwriad o berswadio'r diffynnydd ac eraill i beidio â chamymddwyn yn y dyfodol.
cosb	Gosod dirwy fel cosb haeddiannol am drosedd.
perswadio	Y nod yw perswadio pobl i beidio â chyflawni'r weithred nas dymunir.
camymddwyn yn y dyfodol	Ymddygiad tebyg yn y dyfodol sydd yn erbyn y gyfraith.
siwio	Lle bydd camau cyfreithiol yn cael eu cymryd yn eich erbyn.
rhwystr	Ceisio atal gweithred benodol.
arian yswiriant	Swm wedi'i dalu am bolisi yswiriant – e.e. yswiriant ceir.
iawndal	Dyfarniad, ariannol fel arfer, i ddigolledu am golled.

Gweithgaredd 3.3 Gwerthuso cyfraith camwedd

Ychwanegwch fwy o fanylion at y nodiadau sy'n gwerthuso cyfraith camwedd.

Cyfiawnhau cyfraith camwedd	Beirniadu cyfraith camwedd
Mae'n ffordd o roi iawndal i'r dioddefwr am y difrod a gafodd ei achosi gan y drwgweithredwr. Gall roi'r dioddefwr yn ôl yn y sefyllfa roedd ynddi (i'r graddau bod hynny'n bosibl) cyn i'r camwedd ddigwydd – (cyfiawnder cywirol neu gyfiawnder adferol).	Diwylliant iawndal: Mae rhai pobl o'r farn bod cyfraith camwedd yn creu diwylliant iawndal yn debyg i'r un mewn gwledydd eraill, fel UDA.
Gall atal pobl rhag cyflawni gweithredoedd neu anwaith a allai niweidio eraill, os ydyn nhw'n gwybod y bydd rhaid iddyn nhw dalu iawndal o bosibl. Mae cyfraith camwedd yn ceisio gwneud i bobl a chwmnïau fod yn fwy gofalus o ran eu gweithredoedd neu anwaith ac, o ganlyniad, yn gwneud cymdeithas yn fwy diogel.	Mae achosion camwedd atebolrwydd caeth, fel <i>Rylands v Fletcher (1868)</i> , wedi cael eu beirniadu am beidio â mynnu bai ar ran y camweddwr.
Heb system gamwedd, ni fyddai pobl sy'n cael anafiadau yn gallu hawlio iawndal. Felly efallai bydden nhw'n gorfod hawlio budd-daliadau lles, a hynny ar gost i'r trethdalwyr.	Y gost i drethdalwyr: Mae achosion o esgeuluster yn erbyn cyrff y wladwriaeth fel y GIG (NHS) yn dal i gostio llawer o arian i drethdalwyr.
Rheolaeth cyfraith: Er enghraifft, os yw hawlydd wedi'i gadw yn y ddalfa'n anghyfreithlon gan yr heddlu, gall ddwyn achos o garcharu ar gam yn eu herbyn.	Mae diffyg cydraddoldeb yn y system camwedd oherwydd mae'n bosibl na fydd gan rai hawlwr y modd ariannol i ddwyn achos o gamwedd; anaml y mae cymorth cyfreithiol ar gael o ran camwedd.
Elfennau cyfiawnder dialgar. Er enghraifft, mewn rhai amgylchiadau, gall llys ddyfarnu iawndal i gosbi'r camweddwr. Mae hyn ar ffurf iawndal esiamplaid.	Twyll: Mae'n bosibl i'r system gael ei chamddefnyddio gan bobl yn hawlio'n dwyllodrus.

3.1 Cwestiynau cyflym

1. Torri cyfraith sifil.
2. Mae gwahanol enghreifftiau yn bosibl, e.e. tor-contract, niwsans.
3. Bydd yn cynnwys y nodweddion canlynol: hawlydd yn erbyn diffynnydd, cyfraith breifat, baich ar yr hawlydd, tri llwybr, yn ôl pwysau tebygolrwydd, rhwymedïau.
4. Barnwyr sy'n llunio cyfraith gwlad/cyfraith gyffredin. Mae cyfraith camwedd wedi datblygu drwy gyfraith achosion lle mae barnwyr wedi datblygu cynseiliau.
5. Rhwymedi.
6. Llys Sirol a'r Uchel Lys.
7. Y tri llwybr.
 - Mân hawliadau – Llys Sirol.
 - Llwybr cyflym – Llys Sirol.
 - Aml-drywydd – naill ai'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys.
8. Yn ôl pwysau tebygolrwydd, h.y. a yw'n 'fwy tebygol na pheidio'?
9. Ar yr hawlydd.
10. Mae'n cefnogi'r safbwynt mai diben iawndal mewn cyfraith camwedd yw 'unioni'r cam'.
11. Mae'n cynnig dull sifil o 'roi pethau'n ôl fel roedden nhw' i'r graddau bod hynny'n bosibl.

12. Cosb gyda'r bwriad o berswadio'r diffynnydd ac eraill i beidio â chamymddwyn yn y dyfodol.
13. Bai (*blame*).
14. Camwedd y mae'n bosibl ei gyflawni heb fod unrhyw fai ar y diffynnydd o gwbl.
15. Gall enghreifftiau o gyfiawnhad gynnwys y canlynol:
 - Gall roi iawndal i'r dioddefwr am y difrod a gafodd ei achosi gan y drwgweithredwr. Mae'n rhoi'r unigolyn yn ôl yn y sefyllfa roedd ynddi (i'r graddau bod hynny'n bosibl) cyn i'r camwedd ddigwydd – cyfiawnder cywirol neu gyfiawnder adferol.
 - Gall atal pobl rhag cyflawni gweithredoedd neu anwaith a allai niweidio eraill, os ydyn nhw'n gwybod y bydd rhaid iddyn nhw dalu iawndal o bosibl. Mae cyfraith camwedd yn ceisio gwneud i bobl a chwmnïau fod yn fwy gofalus o ran eu gweithredoedd neu anwaith ac, o ganlyniad, yn gwneud cymdeithas yn fwy diogel.
 - Heb system gamwedd, ni fyddai pobl sy'n cael anafiadau yn gallu hawlio iawndal. Felly efallai bydden nhw'n gorfod hawlio budd-daliadau lles, a hynny ar gost i'r trethdalwyr.
 - Fe'i cefnogir gan y cysyniad o reolaeth cyfraith. Er enghraifft, os yw hawlydd wedi'i gadw yn y ddalfa'n anghyfreithlon gan yr heddlu, gall ddwyn achos o garcharu ar gam yn eu herbyn.
 - Er bod cyfraith camwedd yn seiliedig yn bennaf ar gyfiawnder cywirol, mae'n cynnwys elfennau o gyfiawnder dialgar. Er enghraifft, mewn rhai amgylchiadau, gall llys ddyfarnu iawndal i gosbi'r camweddwr. Mae hyn ar ffurf iawndal esiamplaidd.
16. Gall beirniadaeth gynnwys y canlynol:
 - Mae rhai pobl o'r farn bod cyfraith camwedd yn creu diwylliant iawndal yn debyg i'r un mewn gwledydd eraill, fel UDA.
 - Mae achosion o esgeuluster yn erbyn cyrff y wladwriaeth fel y GIG (NHS) yn dal i gostio llawer o arian i drethdalwyr.
 - Mae diffyg cydraddoldeb yn y system gamwedd. Mae'n bosibl na fydd gan ddarpar-hawlwyr y modd ariannol i ddwyn achos o gamwedd; anaml y mae cymorth cyfreithiol ar gael o ran camwedd.
 - Mae achosion camwedd atebolrwydd caeth, fel *Rylands v Fletcher*, wedi cael eu beirniadu am beidio â mynnu bai ar ran y camweddwr.
 - Mae'n bosibl i'r system gael ei chamddefnyddio gan bobl yn hawlio'n dwyllodrus.

Atebolrwydd o ran esgeuluster

Gweithgaredd 3.4 Dyletswydd gofal

Elfen	Esboniad	Achos(ion) ategol	Egwyddor gafodd ei sefydlu
Rhaid bod y difrod yn rhagweladwy	Er mwyn i ddyletswydd gofal fodoli, rhaid bod modd rhagweld yn rhesymol y byddai difrod neu niwed yn cael ei achosi i'r diffynnydd penodol, neu i ddosbarth o bobl maen nhw'n perthyn iddo (yn hytrach na phobl yn gyffredinol).	<i>Kent v Griffiths (2000)</i>	Roedd y llys o'r farn ei bod yn 'rhesymol ragweladwy' y byddai'r hawlydd yn dioddef rhyw niwed yn sgil yr oedi hwn.
Rhaid bod perthynas ddigon agos rhwng yr hawlydd a'r diffynnydd	Ystyr 'digon agos' yw 'agosrwydd' at rywbeth. Gall hyn olygu bod yn agos o ran gofod neu'n gorfforol, yn agos o ran amser neu'n agos o ran perthynas; mae'r prawf yn eithaf tebyg i brawf y 'cymydog'. Os nad yw'r berthynas rhwng yr hawlydd a'r diffynnydd yn ddigon agos, does dim disgwyl yn rhesymol y byddai'r diffynnydd wedi meddwl am yr hawlydd, gan nad yw'n debygol o gael ei effeithio gan weithredoedd neu anwaith y diffynnydd.	<i>Bourhill v Young (1943)</i>	Er ei fod yn rhesymol ragweladwy y byddai rhywun yn dioddef niwed o ganlyniad i yrru esgeulus y diffynnydd, nid oedd anaf i'r hawlydd penodol yn rhagweladwy gan nad oedd yn union ger y fan lle digwyddodd y ddamwain – clywodd y ddamwain yn hytrach na'i gweld yn digwydd. Oherwydd hyn, ni lwyddodd ei hachos.
Mae'n gyfiawn, yn deg ac yn rhesymol i osod dyletswydd gofal	Mae hyn hefyd yn cael ei alw'n brawf 'polisi', gan fod barnwyr yn gallu cyfyngu ar hyd a lled y camwedd drwy ddisgresiwn barnwrol. Un o'r prif resymau dros yr elfen hon o ddadl y llifddorau, lle mae perygl y byddai llawer iawn o hawlwr yn gallu gwneud hawliad posibl os yw un yn llwyddo. Cyfeiriodd barnwr Americanaidd, Cardozo CJ, at y perygl hwn pan rybuddiodd am 'atebolrwydd mewn swm amhenodol ar gyfer amser amhenodol i ddosbarth amhenodol'.	<i>Mulcahy v Ministry of Defence (1996)</i>	Roedd y Llys Apêl o'r farn, er bod ffactorau rhagweladwyaeth ac agosrwydd i'w cael, fod ffeithiau'r achos yn golygu bod rhaid trin yr achos fel mater polisi. Felly, doedd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddim dyletswydd gofal tuag at filwyr mewn sefyllfaoedd tebyg ar faes y gad.

Gweithgaredd 3.5 Tor-dyletswydd

Ffactor risg	Esboniad	Achos(ion) ategol	Egwyddor gafodd ei sefydlu
I ba raddau mae hi'n debygol y bydd niwed yn cael ei achosi	Os yw'r risg yn fach iawn, efallai y penderfynir nad yw'r diffynnydd wedi torri'r ddyletswydd. Rhaid cymryd gofal hefyd yn achos risg lle mae niwed neu anaf yn rhesymol ragweladwy.	<i>Bolton v Stone (1951)</i>	Mae tebygolrwydd bach iawn o niwed yn golygu nad yw'n bosibl sefydlu tor-dyletswydd.
Maint y niwed tebygol	Yn y prawf hwn, mae'r llysoedd yn ystyried risg y niwed, ond maen nhw hefyd yn ystyried a yw'n bosibl rhagweld pa mor ddifrifol fydd yr anaf.	<i>Paris v Stepney Borough Council (1951)</i>	Po fwyaf y risg i'r hawlydd, y mwyaf o ragofalon nag arfer y byddai'n rhaid eu cymryd.
Cost ac ymarferoldeb atal risg	Yn y prawf hwn, mae'r llys yn ystyried a fyddai'r diffynnydd wedi gallu cymryd rhagofalon yn erbyn y risg. Os nad yw'r gost o gymryd rhagofalon i ddileu'r risg yn gwbl gymesur â maint y risg ei hun, ni fydd y diffynnydd yn cael ei ystyried yn atebol.	<i>Latimer v AEC Ltd (1953)</i>	Rhaid i'r dull o osgoi'r risg fod yn gymesur.
Buddion posibl y risg	Mewn rhai sefyllfaoedd, bydd y risg o fudd posibl i gymdeithas, er enghraifft, gyrru ambiwlans.	<i>Daborn v Bath Tramways</i> <i>Armsden v Kent Police (2000)</i>	Yr Arglwydd Ustus Asquith: 'Pe bai holl drenau'r wlad hon yn cael eu cyfyngu i gyflymder o bum milltir yr awr, byddai llai o ddamweiniau, ond byddai'n achosi i'n bywyd cenedlaethol arafu mewn ffordd annioddefol. Mae pwrpas y weithred, os yw'n ddigon pwysig, yn cyfiawnhau'r rhagdybiaeth o risg anarferol...'

Gweithgaredd 3.6 Nodweddion arbennig

Mewn rhai sefyllfaoedd, nid yw'r safon yn un **gwrthrychol** yn unig. Gall y llysoedd roi ystyriaeth i rai o **nodweddion** arbennig y diffynnydd. Yn ddiddorol, yn achos gyrrwyr, y safon dan sylw yw safon y gyrrwr cyffredin, arferol (gan anwybyddu eu **profiad** a'u blynyddoedd wrth y llyw). Cadarnhawyd hyn yn achos **Nettleship v Weston (1971)**.

Pobl broffesiynol

Os bydd gan y diffynnydd **sgil** proffesiynol, bydd y llys yn disgwyl i'r diffynnydd ddangos bod ganddo'r lefel cymhwysedd sydd fel arfer yn ddisgwyliedig gan aelod **medrus** nodweddiadol o'r **proffesiwn** hwnnw. Golyga hyn, er enghraifft, y bydd disgwyl i feddyg teulu ddangos lefel sgil arferol meddyg teulu yn unig, yn hytrach nag uwch ymgynghorydd neu lawfeddyg.

Plant

Os yw'r diffynnydd yn blentyn, y safon gofal yw'r safon gofalus a rhesymol arferol sy'n cael ei roi i **blentyn** o'r un **oedran** fel yn achos **Mullin v Richards (1991)**.

Gweithgaredd 3.7 Croesair difrod o ganlyniad

Ewch ati i ddatrys cliwiau'r croesair a'u gosod yn y grid.

Ar Draws

7. Remote
8. But for test
9. Actus interveniens
10. Barnett

I Lawr

1. Res ipsa loquitor
2. Foreseeable
3. Thin skull test
4. Wagon Mound
5. Re Polemis
6. Causation

Gweithgaredd 3.8 Enghraifft o sut i ateb cwestiwn cymhwyso'r gyfraith at broblem

Defnyddiwch y tabl isod i ysgrifennu ateb enghreifftiol, yna cymhwyswch yr un egwyddorion at gwestiwn tebyg.

3.2 Cwestiynau cyflym

1. **Donoghue v Stevenson (1932)**. Dywedodd yr Arglwydd Atkin fod gan y gwneuthurwyr ddyletswydd gofal tuag at 'unrhyw un a allai gael ei effeithio gan eu gweithredoedd' (eu cymdogion).
2. Dyletswydd gofal, tor-dyletswydd, difrod o ganlyniad.
3. Cymhwyso wrth i sefyllfaoedd newydd godi, yn hytrach na chymryd yn ganiataol ei bod yn bodoli ym mhob sefyllfa.
4. • Bod y difrod yn rhagweladwy.
 - Rhaid bod perthynas 'ddigon agos' rhwng yr hawlydd a'r diffynnydd.
 - Ei bod yn gyfiawn, yn deg ac yn rhesymol gosod dyletswydd gofal.
5. Rhagweladwyaeth: **Kent v Griffiths (2000)**. Agosrwydd: **Bourhill v Young (1943)**. Mae'n gyfiawn, yn deg ac yn rhesymol i osod dyletswydd: **Mulcahy v Ministry of Defence (1996)**.
6. **Safon y gofal sydd i'w ddisgwyl yw safon y dyn rhesymol – yn y rhan fwyaf o achosion.**
7. **Er enghraifft, yn achos pobl broffesiynol a phlant.**
8. Rhywun sydd naill ai wedi dioddef anaf corfforol o ganlyniad i esgeuluster rhywun arall, neu wedi dioddef anaf seiciatrig lle roedd yn rhesymol ragweladwy y gallai fod wedi cael anaf corfforol o ganlyniad i esgeuluster rhywun arall, ac o ganlyniad mae wedi dioddef anaf seiciatrig. Er enghraifft, rhywun sy'n gysylltiedig â damwain yn y gwaith ac sydd heb gael anaf corfforol, ond sy'n datblygu cyflwr seiciatrig difrifol.
9. Rhywun sy'n dioddef anaf seiciatrig o ganlyniad i esgeulustod person arall ond nid oedd wedi bod mewn perygl ei hunan. Mae nifer o amodau eraill y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn dosbarthu rhywun fel dioddefwr eilaidd.

Atebolrwydd meddianwyr

Gweithgaredd 3.9 Egwyddorion cyfreithiol atebolrwydd meddianwyr

Achos	Ffeithiau	Egwyddor gyfreithiol
<i>Wheat v E Lacon and Co (1966)</i>	Ffermwr oedd y meddiannydd, ac roedd wedi rhoi caniatâd i bobl gerdded ar draws ei dir am 35 mlynedd. Cafodd yr hawlydd ei anafu ar ôl i'r ffermwr roi ceffyl gwyllt ar y tir. Ymosododd y ceffyl ar yr hawlydd.	Doedd y diffynnyddion ddim yn atebol gan eu bod wedi cyflogi cwmni cymwys i gynnal y lifft. Oherwydd natur dechnegol y gwaith, doedden nhw ddim yn gallu gwirio'r lifft eu hunain.
<i>Lowery v Walker (1911)</i>	Cafodd yr hawlydd ei ladd pan ddisgynnodd y lifft roedd ynddo ar y pryd i waelod y siafft.	Rhieni sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddiogelwch eu plant ifanc.
<i>Glasgow Corporation v Taylor (1922)</i>	Cafodd bachgen 14 oed ei barlysu pan ddisgynnodd hen gwch ar ei ben wrth iddo ei drwsio ar dir y diffynnydd.	Roedd yr aeron yn atyniad, felly roedd y meddianwyr yn atebol am eu gadael yno.
<i>Phipps v Rochester (1955)</i>	Llithrodd yr hawlydd ar risiau rhewllyd, oedd wedi eu gorchuddio ag eira, y tu allan i ysgol.	Gall y llysoedd benderfynu bod caniatâd yn ddealliedig os ydyn nhw'n teimlo ei bod yn rhesymol gwneud hynny.
<i>Jolley v Sutton (2000)</i>	Bu farw plentyn ar ôl bwyta aeron gwenwynig mewn gardd gyhoeddus.	Doedd y diffynnyddion ddim yn atebol, oherwydd gall meddiannydd ddisgwyl bod rhywun sy'n dilyn ei alwedigaeth yn cymryd rhagofalon yn erbyn risgiau sy'n gysylltiedig â'u harbenigedd.
<i>Roles v Nathan (1963)</i>	Cafodd gŵr yr hawlydd ei ladd pan ddisgynnodd i lawr grisiau mewn tafarn.	Roedd y math hwn o ddamwain yn rhesymol ragweladwy, a doedd dim ots bod yr anafiadau'n fwy difrifol na'r hyn fyddai wedi bod yn bosibl ei ragweld.
<i>Haseldine v Daw (1941)</i>	Cafodd dau ddyn eu lladd gan nwyon gwenwynig wrth lanhau simnai.	Roedd y diffynnyddion yn atebol, oherwydd er eu bod wedi cyflogi glanhawr, doedden nhw ddim wedi cymryd camau rhesymol i wirio bod y gwaith wedi cael ei wneud yn iawn.
<i>Woodward v Mayor of Hastings (1945)</i>	Disgynnodd plentyn i ffos ar dir y diffynnydd, gan dorri ei goes.	Y meddiannydd yw'r unigolyn sy'n rheoli'r eiddo. Mae'n bosibl cael mwy nag un meddiannydd ar yr un pryd.

Gweithgaredd 3.10 Gwiriwch eich gwybodaeth am y Deddfau Atebolrwydd Meddianwyr

Dim atebion ar gael.

Gweithgaredd 3.11 Cymhwyso Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957

Mae'r achos hwn yn ymwneud â mater atebolrwydd meddianwyr, ac yn benodol Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 gan fod Bill yn ymwelydd cyfreithlon.

Meddiannydd yw rhywun sy'n rheoli'r tir, fel y barnwyd yn achos *Wheat v Lacon*, a'r perchennog neu'r tenant yw hwn fel arfer – ond gall fod yn fwy nag un person.

Mae **eiddo** wedi'i ddiffinio yn **adran 1(2)** fel unrhyw adeiledd sefydlog neu **symudol** gan gynnwys cwch/llong, **cerbyd** neu awyren.

Yr yr achos hwn, mae'n amlwg mai Kelly yw'r **meddiannydd** gan mai hi yw rheolwr yr amgueddfa, a Libby, yr un sydd wedi dioddef colled, yw'r ymwelydd, gan fod ganddi ganiatâd **cytundebol** i fod yno fel un o **weithwyr** yr amgueddfa. Gan mai Bill yw'r trydanwr oedd yn gyfrifol am y gwaith sydd wedi achosi'r llosgiadau, rhaid gofyn y cwestiwn ai Kelly sy'n atebol fel y meddiannydd, neu Bill fel y **contractwr** annibynnol.

Y peth cyntaf i'w sefydlu yw ystyried a oedd Libby yn ymwelydd **cyfreithlon** oherwydd, er mwyn i ddyletswydd gofal fodoli, mae'n rhaid i Libby fod yn ymwelydd cyfreithlon. Mae **adran 2(1) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957** yn diffinio ymwelydd cyfreithlon fel **gwahoddai**, trwyddedai, y rhai sydd â chaniatâd cytundebol a'r rhai sydd â hawl **statudol** fel darlennydd mesurydd nwy neu swyddog heddlu sy'n gweithredu gwarant.

Yn yr achos hwn, gallwn ddweud bod Libby yn ymwelydd cyfreithlon gan ei bod hi'n gweithio i'r amgueddfa, ac felly mae hi yno oherwydd bod ganddi ganiatâd cytundebol. Felly, o dan **adran 2(1) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957**, mae gan y meddiannydd **ddyletswydd gofal gyffredin** iddi.

Roedd Bill yn ymwelydd cyfreithlon hefyd, oherwydd roedd ganddo ganiatâd **pendant** i fod yno ar ôl cael ei gyflogi i wneud gwaith trydanol. Felly mae gan Kelly ddyletswydd gofal tuag ato hefyd fel **trwyddedai**.

Y peth nesaf mae angen ei ystyried yw gofyn a yw'r meddiannydd wedi bodloni ei ddyletswydd gofal.

O dan **adran(2) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957**, mae'n rhaid i'r meddiannydd ofalu y bydd yr ymwelydd yn **rhesymol** ddiogel wrth ddefnyddio'r eiddo at y diben y cafodd ei wahodd yno. Yn achos *Laverton v Kiapasha Takeaway* barnwyd nad oes rhaid i'r eiddo fod yn **llwyr** ddiogel; mae'n rhaid i'r meddianwyr gymryd gofal **rhesymol** yn unig.

Ymhellach, yn achos *Dean of Rochester Cathedral v Debell*, barnwyd nad yw mân nam a diffygion yn ddigon i ofodi atebolrwydd; mae'n rhaid bod gwir berygl.

Yn yr achos hwn, gellid dadlau bod Kelly wedi gwneud yr hyn roedd disgwyl yn rhesymol iddi ei wneud o ran cadw'r eiddo yn ddiogel, gan fod rhaff o amgylch y peiriannau mwyaf prin, ac arwyddion **rhybudd** wedi'u gosod mewn mannau amlwg. Gellid dadlau bod hyn yn ddigon i Kelly osgoi atebolrwydd, gan ei bod hi wedi gwneud yr eiddo yn **rhesymol** ddiogel at y diben y mae ymwelwyr yn cael eu gwahodd i ddod yno. Hefyd, o dan **adran 2(4) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957**, gallai'r

rhybudd roedd Kelly wedi ei osod weithredu fel amddiffyniad **llwyr** i ymwelwyr, gan ei fod yn ddigon i'w galluogi nhw i fod yn rhesymol ddiogel.

At hynny, ni fyddai disgwyl i feddiannydd rhesymol ddeall mecanwaith a gwaith trydanol peiriant coffi, ac felly byddai'n bosibl dadlau ei bod hi wedi gwneud yr eiddo yn rhesymol ddiogel ar gyfer Bill hefyd, cyn iddo ddechrau ar ei waith. Felly, y peth olaf i'w ystyried yw **ateblorwydd** Bill fel contractwr annibynnol, gan ofyn a yw Kelly yn gallu trosglwyddo'r atebolrwydd am y peiriant coffi diffygiol yn ôl iddo ef. Mae hyn yn cael ei reoli gan **adran 2(4) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957**, lle gall yr atebolrwydd gael ei basio i'r contractwr annibynnol, os yw'r meddiannydd yn bodloni **tri** maen prawf o dan y Ddeddf.

Y maen prawf **cyntaf** yw bod rhaid iddi fod yn **rhesymol** i'r meddiannydd roi'r gwaith i'r contractwr annibynnol, fel sydd i'w weld yn achos **Haseldine v Daw (1941)**, pan oedd y gwaith heb ei roi i gwmni arbenigol.

Yn yr achos hwn, nid oedd Kelly yn **rhesymol** wrth roi'r gwaith i Bill, oherwydd roedd yn ymddangos ei fod yn weithiwr lleol heb lawer o brofiad o waith trydanol. Byddai wedi bod yn rhesymol i Kelly gyflogi trydanwr arbenigol i wneud y gwaith atgyweirio.

Yr **ail** faen prawf yw bod yn rhaid bod y contractwr wedi bod yn **gymwys** i wneud y gwaith, fel sydd i'w weld yn achos **Bottomley v Todmorden Cricket Club (2003)**, lle roedd y clwb criced yn atebol am arddangosfa tân gwyllt a aeth o chwith, ar y sail eu bod nhw'n amaturiaid.

Unwaith eto, yn yr achos hwn, roedd Bill yn **anghymwys** i wneud y gwaith ac roedd yn ymddangos ei fod yn cael trafferth gyda'r gwaith weirio, felly roedd yn amlwg nad oedd yn gymwys i wneud y gwaith.

Y **trydydd** maen prawf, a'r olaf, yw bod rhaid i'r meddiannydd **wirio** bod y gwaith wedi ei wneud yn iawn. Dangoswyd hyn yn achos **Woodward v The Mayor of Hastings (1945)**, lle roedd y meddianwyr yn **atebol** gan nad oedden nhw wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y gwaith wedi ei wneud yn iawn.

Yn yr achos hwn, wnaeth Kelly **ddim gwirio** bod Bill wedi gwneud y gwaith trwsio yn iawn, ac nid yw'n glir a oedd hi wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau bod hyn wedi digwydd.

Felly, nid oedd Kelly yn bodloni'r meini prawf gafodd eu gosod yn **adran 2(4)**, ac felly **ni fydd yn gallu trosglwyddo atebolrwydd** i Bill, gan olygu ei bod hi'n **atebol** am anafiadau Libby.

Gweithgaredd 3.12 Cymhwyso Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984

Mae'r achos hwn yn ymwneud â mater atebolrwydd meddianwyr, ac yn benodol **Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984**, gan fod Alistair yn **dresmaswr** ar eiddo Robbie.

Meddiannydd yw rhywun sy'n **rheoli**'r tir, fel y barnwyd yn achos **Wheat v Lacon**. Y perchennog neu'r tenant yw hwn fel arfer, ond gall fod yn fwy nag un person.

Mae eiddo wedi'i ddiffinio yn **adran 1(2)** fel unrhyw adeiledd sefydlog neu symudol, gan gynnwys **llong**, cerbyn neu awyren.

Yn achos **Herrington v British Railways Board**, barnodd Tŷ'r Arglwyddi fod **dyletswydd dynoliaeth gyffredin** tuag at dresmaswyr pan fydd y meddiannydd yn gwybod am y perygl ar' tebygolrwydd y bydd rhywun yn tresmasu. Cafodd hyn ei gadarnhau yn ddiweddarach yn **adran 1(1) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984**.

Y peth cyntaf i'w sefydlu yw gofyn a gafodd yr anaf ei achosi gan **gyflwr yr eiddo**, oherwydd mae **adran 1(1)(a) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984** yn dweud y bydd dyletswydd yn gymwys mewn perthynas â thresmaswyr dim ond os cafodd yr anaf ei achosi gan gyflwr yr eiddo, yn hytrach na thwpdra'r hawlydd am gymryd risg amlwg. Dangoswyd hyn yn achos **Ratcliff v McConnell (1999)**, lle cymerodd yr hawlydd risg amlwg wrth blymio i bwl heb wybod pa mor ddwfn oedd y dŵr, ac felly nid oedd y meddiannydd yn **atebol**.

Yn yr achos hwn, gellid dweud bod anafiadau Alistair wedi cael eu hachosi gan gyflwr yr eiddo gan fod y to wedi pydru. Felly, o dan **adran 1(1)(a) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984**, mae gan Robbie ddyletswydd gofal tuag ato.

Y peth nesaf i'w ystyried yw gofyn a yw'r meddiannydd wedi bodloni ei ddyletswydd gofal.

Er mwyn asesu hyn, mae **tri** maen prawf yn **adran 1(3) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984**. Mae'r **cyntaf** o dan adran 1(3)(a), sy'n gofyn a oedd y meddiannydd yn **ymwybodol o'r perygl**. Does dim disgwyl i feddiannydd gynnig amddiffyniad yn erbyn peryglon os nad yw'n gwybod amdany'n nhw, fel yn achos **Rhind v Astbury Water Park (2004)**, lle nad oedd y meddiannydd yn gwybod am fodolaeth bocs gwydr ffibr ar waelod ei lyn. Yn yr achos hwn, byddai'n bosibl dadlau bod Robbie yn ymwybodol o'r perygl gan iddo osod arwydd rhybudd. At hynny, mae'r ffaith bod ffens o amgylch y garej yn awgrymu bod Robbie yn gwybod y gallai'r garej fod yn beryglus.

Yr ail beth i'w ystyried o dan **adran 1(3)(b)** yw gofyn a oedd gan y meddiannydd **reswm dros amau tresmaswyr**. Er mwyn i ddyletswydd gofal fodoli, mae'n rhaid bod gan y meddiannydd reswm i amau y bydd tresmaswyr yn defnyddio'r eiddo. Yn amlwg, does dim disgwyl i feddiannydd fod yn atebol am anafiadau i dresmaswyr os nad yw'n gwybod dim byd amdany'n nhw. Gwelwyd hyn yn achos **Higgs v Foster (2004)**, lle roedd y meddiannydd heb reswm i amau y byddai swyddog yr heddlu yn tresmasu ar ei eiddo wrth gynnal ymchwiliad troseddol.

Yn yr achos hwn, rydyn ni'n gwybod bod Robbie wedi gweld plant yn ceisio dringo dros ffens ei ardd yn y gorffennol. Felly mae'n debyg ei fod yn bodloni'r meini prawf o ran gwybod, neu amau, bod tresmaswyr ar ei eiddo.

Y trydydd peth, a'r olaf, y bydd angen ei ystyried yw'r cwestiwn o dan **adran 1(3)(c)**, lle bydd y llys yn gofyn **a oedd yn ymarferol cymryd rhagofalon**. Y prif achos ar gyfer hyn yw **Tomlinson v Congleton Borough Council (2008)**, oedd yn cefnogi'r meddiannydd drwy ailddatgan y sefyllfa statudol. Roedd hefyd yn nodi y dylai'r

meddiannydd wneud yr hyn sy'n ymarferol yn unig o dan yr amgylchiadau.

Yn yr achos hwn, roedd yn ymarferol ac yn rhesymol i Robbie gynnig rhywfaint o amddiffyniad. Yn wir, gwnaeth hyn drwy osod **arwydd** yn rhybuddio am y perygl, a chodi ffens i gadw pobl allan. Felly, gallwn ddweud bod Robbie wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer **dyletswydd gofal**. Ond nid yw hyn yn golygu yn awtomatig bod Robbie yn atebol.

O dan **adran 1(4) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984**, nodir bod rhaid i'r meddiannydd gymryd gofal sy'n **rhesymol** yn unig er mwyn bodloni ei ddyletswydd gofal.

Unwaith eto, yn yr achos hwn, mae Robbie wedi bod yn fwy na rhesymol drwy osod rhybudd a chodi ffens. Yn wir, o dan **adran 1(5) Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984**, ac fel cafodd ei gadarnhau yn **Westwood v Post Office (1973)**, bydd arwydd rhybudd yn gweithredu fel amddiffyniad **llwyr** os yw'n ddigon i ddiogelu'r tresmaswr. Felly, byddai arwydd Robbie yn ddigon i ryddhau Robbie o bob atebolrwydd dros Alistair. Byddai'n bosibl dadlau hefyd fod Alistair yn **gyfrannol** esgeulus gan ei fod wedi anwybyddu'r rhybudd yn fwiadol ac wedi dringo ar ben y to er gwaethaf hynny.

Y mater olaf i'w ystyried yw'r ffaith bod Alistair yn 'dresmaswr ifanc'. Mae'r un rheolau statudol yn gymwys i dresmaswyr sy'n **blant** ag i dresmaswyr sy'n oedolion, fel y cadarnhaodd achos **Keown v Coventry NHS Trust (2006)**, ac yn ddiweddarach achos **Baldaccino v West Wittering (2008)**.

Felly, does **dim safon gofal is** yn gymwys i Alistair fel plentyn; gan ystyried yr holl faterion felly, nid yw Robbie wedi torri ei ddyletswydd gofal, a drwy hynny **nid yw'n atebol** am yr anafiadau a gafodd Alistair.

Gweithgaredd 3.13 Traethawd gwerthuso atebolrwydd meddiannydd

Dim atebion ar gael.

3.3 Cwestiynau cyflym

1. Beth yw safon y gofal sy'n ddyledus i ymwelwyr cyfreithlon?
2. Pwy sy'n cael ei ystyried yn ymwelydd cyfreithlon?
3. Pam mae cynifer o ddarpariaethau statudol gwahanol ar gyfer atebolrwydd meddianwyr?
4. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ymwelwyr cyfreithlon ac anghyfreithlon?
5. Pwy sy'n feddiannydd?
6. Pa fath o ddyletswydd gofal sy'n ddyledus i dresmaswyr?
7. A yw meddiannydd yn atebol am fai contractwr annibynnol?
8. Sut mae'n rhaid i feddiannydd drin plan o dan Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957?

Rhwymedïau: Camwedd

Gweithgaredd 3.14 Chwarae rôl iawndal

Atebion y myfyriwr.

Gweithgaredd 3.15 Achosion yn ymwneud ag iawndal

Achos	Ffeithiau
<i>Cunningham v Harrison (1973)</i>	Cafodd yr hawlydd arian am gost lifft hydrolig arbennig i godi cadair olwyn i mewn ac allan o gar.
<i>West v Shepherd (1964)</i>	Yn yr achos hwn, dywedwyd bod iawndal esiamplaidd yn wahanol i iawndal cyffredin: 'Bwriad iawndal esiamplaidd yw cosbi a rhwystro.'
<i>Povey v Rydal School (1970)</i>	Yn yr achos hwn dywedwyd mai dyma'r amgylchiadau lle gellir dyfarnu gwaharddeb <i>quia timet</i> (gwaharddeb a gafwyd cyn i gamwedd gael ei gyflawni): rhaid i'r perygl fod ar fin digwydd, rhaid i'r difrod posibl fod yn sylweddol, a'r unig ffordd i'r hawlydd ei ddiogelu ei hun yw drwy waharddeb <i>quia timet</i> .
<i>Rookes v Barnard (1964)</i>	Llwyddodd yr hawlydd i hawlio am y golled ariannol roedd ei fam wedi ei dioddef, o ganlyniad i orfod gofalu amdano.
<i>Fletcher v Bealey (1884)</i> wedi'i ddyfynnu yn <i>London Borough of Islington v Elliott and Morris (2012)</i>	Dywedodd yr hawlydd fod arno angen gofalwraig a dwy nyrs i fyw yn ei gartref a gofalu amdano.

3.4 Cwestiynau cyflym

Dim atebion ar gael.

Pennod 4: Cyfraith Trosedd

Gweithgaredd 4.2 Achosion *actus reus* i'w hadolygu a'u defnyddio

Cysylltwch enw'r achos â'r manylion, drwy ysgrifennu'r rhif cywir yn y golofn ar y chwith

11	Greener v DPP (1996)	1. Cafodd y dioddefwr ei wasgu yn ystod trychineb pêl-droed Hillsborough, gan ei adael mewn cyflwr diymateb parhaol lle roedd yn cael ei fwydo yn artifisial drwy diwbiau. Dyfarnodd y llys y gellid rhoi'r gorau i'w fwydo.
6	Pittwood (1902)	2. Ar ôl iddo gael ei saethu, cafodd y dioddefwr lawdriniaeth traceostomi, ond bu farw oherwydd cymhlethdodau. Er hynny, roedd gweithred y diffynnydd wedi cyfrannu at ei farwolaeth o hyd, felly doedd y gadwyn achosiaeth ddim wedi cael ei thorri.
13	Lowe (1973)	3. Cafodd y dioddefwr ei drywanu, a bu farw ar ôl iddo wrthod trallwysiad gwaed i achub ei fywyd oherwydd ei fod yn un o Dystion Jehofa. Cafodd y diffynnydd ei gyhuddo o lofruddiaeth.
8	Roberts (1971)	4. Roedd y diffynnydd wedi dal ei gyn-gariad feichiog yn wystl (<i>hostage</i>), a'i defnyddio hi i'w amddiffyn ei hun yn ystod brwydr saethu gyda'r heddlu. Cafodd hi ei tharo gan fwled yr heddlu a bu farw. Cafwyd y diffynnydd yn euog o ddynladdiad.
2	Cheshire (1991)	5. Roedd y diffynnydd wedi syrthio i gysgu wrth ysmegu, a phan ddeffrodd roedd ei fatres ar dân. Symudodd i ystafell arall a gwneud dim. Cafwyd ef yn euog o losgi bwriadol.
7	Smith (1959)	6. Wnaeth ceidwad y groesfan ddim cau gât y rheilffordd. Cafodd rhywun ei daro a'i ladd gan drên. Cafwyd y ceidwad yn euog o ddynladdiad.
10	Santana-Bermudez (2003)	7. Cafodd milwr ei drywanu wrth ymladd â milwr arall. Oherwydd iddo gael triniaeth esgeulus yn y fan a'r lle, aeth yr anaf yn waeth a bu farw'r dioddefwr. Ond er hynny, yr anaf gwreiddiol oedd prif achos y farwolaeth o hyd, ac nid oedd yn torri'r gadwyn achosiaeth. Felly cafwyd y milwr arall yn euog.
1	Airedale NHS Trust v Bland (1993)	8. Cafodd menyw ei hanafu ar ôl iddi neidio o gar oedd yn symud er mwyn dianc rhag awgrymiadau rhywiol y diffynnydd. Roedd yn ymateb rhagweladwy, felly roedd y diffynnydd yn atebol o dan Ddeddf Troseddau Corfforol 1861 .
5	R v Miller (1983)	9. Roedd tad a llysfam merch saith oed wedi peidio â'i bwydo hi yn fwriadol. Llwgodd y ferch i farwolaeth; cafwyd y diffynnyddion yn euog o lofruddiaeth.
3	R v Blaue (1975)	10. Ni ddywedodd y diffynnydd wrth yr heddlu am nodwyddau oedd yn ei boced cyn i'r heddlu ei chwilio. Cafodd swyddog yr heddlu ei anafu gan y nodwyddau. Euogfarn adran 47.
14	R v Stone and Dobinson (1977)	11. Methodd â rheoli ei gi, er gwaethaf dyletswydd statudol o dan y Ddeddf Cŵn Peryglus.
9	Gibbins and Proctor (1918)	12. Roedd y diffynnydd eisiau lladd ei fam, felly rhoddodd wenwyn yn ei diod. Bu farw o achosion naturiol cyn i'r gwenwyn gael effaith arni. Achosiaeth ffeithiol, ond nid oedd y prawf 'pe na bai' wedi ei sefydlu eto; ymgais i lofruddio yn hytrach na llofruddio.
4	Pagett (1983)	13. Roedd y diffynnydd yn dad i fabi a aeth yn sâl ac a fu farw. Roedd ganddo IQ isel, ac nid oedd wedi mynd â'r babi at y meddyg. Doedd dim 'gweithred', felly cafodd yr euogfarn o ddynladdiad ei dileu.
12	White (1910)	14. Symudodd chwaer un o'r diffynnyddion i fyw gyda nhw. Roedd hi'n dioddef o anorecsia, a bu farw o ddiffyg maeth yn y pen draw. Cafwyd y ddau ddiffynnydd yn euog o ddynladdiad; un oherwydd y berthynas, a'r llall oherwydd ei fod nhw wedi ei bwydo neu ei golchi hi o leiaf unwaith.

Gweithgaredd 4.3

Achosion *mens rea* i'w hadolygu a'u defnyddio

Nodwch yr achos a'r flwyddyn ar ôl darllen y disgrifiad, ac ysgrifennwch eich atebion yn y golofn ar y llaw dde.

Manylion	Enw'r achos
Dyn ifanc a saethodd ei lystad ar ddamwain. Dyfarnodd y barnwyr ar sail canllawiau rhagweladwyeth y canlyniad: 'ai dyna'r canlyniad naturiol?'. Dirymwyd gan Hancock v Shankland (1986).	<i>R v Malony (1985)</i>
Gwthiodd dyn foc concret o ben pont. Datganodd y barnwyr fod canllawiau Malony yn annigol oherwydd diffyg 'tebygolrwydd' yn y canllawiau.	<i>Hancock a Shankland (1986)</i>
Ni sylwodd yr anaesthetegydd ar y tiwb anadlu oedd heb ei gysylltu yn ystod llawdriniaeth. Cafodd y dioddefwr ddifrod i'r ymennydd, a bu farw. Dynladdiad drwy esgeuluster difrifol.	<i>R v Adomako (1994)</i>
Gollyngodd y diffynnyddion y dioddefwr i'r afon, a wnaethon nhw ddim aros i sylwi ei fod wedi boddi. Awgrymwyd nad oedd rhagweladwyeth yn brawf awtomatig o fwriad, er ei fod yn perthyn yn agos iawn.	<i>Matthews v Alleyne (2003)</i>
Penderfynodd y diffynnydd arllwys paraffin drwy flwch llythyrau tŷ, a llosgodd y tŷ i'r llawr gan ladd plentyn. Dyfarnodd y barnwyr y gall rheithgor 'dybio' bod bwriad os yw'r canlyniad bron yn sicr.	<i>Nedrick (1986)</i>
Roedd y diffynnydd yn berchen ar eiddo oedd yn cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr cyffuriau. Doedd hi ddim yn gwybod hyn, felly doedd y wybodaeth berthnasol ddim ganddi, a chafodd Tŷ'r Arglwyddi hi yn ddieuog o fynd yn groes i <i>Ddeddf Cyffuriau Peryglus 1965</i> .	<i>Sweet v Parsley (1969)</i>
Taflodd y diffynnydd fabi tuag at bram, gan fethu'r pram, a chafodd y babi ei ladd. Yn yr achos hwn, cafodd y gair 'tybio' ei ddisodli gan 'canfod', gan olygu fod y gwahaniaeth rhwng rhagweladwyeth a bwriad bellach yn aneglur, er nad oedden nhw'n gysylltiedig yn uniongyrchol cyn hynny.	<i>R v Woollin (1998)</i>
Bu dau blentyn yn rhoi bwndeli o bapurau newydd ar dân mewn bin mewn iard. Ymledodd y tân i siop gerllaw, gan achosi difrod sylweddol. Doedden nhw ddim yn sylweddoli beth oedd y risg, felly doedden nhw ddim yn gallu bod yn fyrbwyll. Penderfynodd Tŷ'r Arglwyddi ddileu'r prawf gwrthrychol o <i>Caldwell (1982)</i> .	<i>R v G and another (2003)</i>
Dywedwyd wrth y diffynnydd i symud ei gar, a pharciodd ar droed yr heddwas ar ddamwain, ond dewisodd beidio â symud y car o'r ffordd. Nid oedd y weithred a'r <i>mens rea</i> yn gorgyffwrdd, ond roedd y weithred (curo) yn parhau, felly roedd <i>actus reus</i> a <i>mens rea</i> yn bresennol ac mae hyn yn gyfystyr ag ymosod.	<i>Fagan v Metropolitan Police Commissioner (1986)</i>
Ceisiodd y diffynnydd ddwyn o fesurydd nwy, gan ei ddifrodi a gwenwyno ei gymydog ar ddamwain. Cafwyd ef yn ddieuog yn seiliedig ar y ffaith nad oedd wedi cymryd risg roedd yn gwybod amdano, ac ar y ffaith nad oedd yn bwriadu achosi'r niwed.	<i>R v Cunningham (1957)</i>
Tarodd y diffynnydd y dioddefwr yn anymwybodol wrth ymladd. Roedd yn credu ei bod hi wedi marw felly taflodd hi i mewn i afon, lle boddodd hithau yn ddiweddarach. Cafwyd y diffynnydd yn euog o ddynladdiad, er gwaethaf y ffaith fod ei fwriad gwreiddiol a'r weithred o daflu'r corff yn ddau beth ar wahân.	<i>R v Church (1965)</i>

Elfennau cyffredinol atebolrwydd troseddol

Gweithgaredd 4.4 *Mens rea*: bwriad anuniongyrchol a bron yn sicr

Dim atebion ar gael.

Gweithgaredd 4.5 Senarios *actus reus* a *mens rea*

Dim atebion ar gael.

4.1 Cwestiynau cyflym

Dim atebion ar gael.

Gweithgaredd 4.6 Elfennau cyffredinol trosedd

Mewn achos troseddol, ar yr **erlyniad** mae'r baich o brofi euogrwydd. Y safon er mwyn profi'r euogrwydd hwn yw '**y tu hwnt i amheuaeth resymol**'. Mae safon y prawf yn uwch mewn achos troseddol nag un **sifil**, gan fod effaith cael rhywun yn euog o drosedd gymaint yn fwy. Mae hefyd yn cefnogi'r egwyddor '**dieuog nes caiff ei brofi'n euog**' ac **Erthygl 6 yr ECHR** (hawl i **dreial** teg).

Yn gyffredinol, rhaid cael dwy elfen ar gyfer cyflawni trosedd – *actus reus* (y weithred **euog**) a **mens rea** (y meddwl **euog**). Y **rhagdybiaeth** gyffredinol yw bod rhaid i ddiffynnydd fod wedi cyflawni gweithred euog, a bod â chyflwr meddwl euog ar yr un pryd.

Mae hyn yn cefnogi'r dywediad Lladin: **actus non facit reum nisi mens sit rea**, sy'n golygu nad yw'r weithred yn gwneud rhywun yn euog, heblaw bod y **meddwl** yn euog hefyd. Ar ôl sefydlu hyn, mae angen profi **achosiaeth**, sy'n edrych ar y **cyswllt** rhwng y canlyniad ac ymddygiad y diffynnydd. Yr enw ar hyn yn aml yw '**cadwyn achosiaeth**' ac mae'n cysylltu'r *actus reus* â'r **canlyniad** cyfatebol. Er mwyn sicrhau atebolrwydd troseddol, rhaid bod cadwyn achosiaeth ddi-dor.

Gweithgaredd 4.7 *Actus reus*

Math o drosedd neu weithred ar gyfer <i>actus reus</i> .	Esboniad
Ymddygiad	Mae angen ymddygiad penodol er mwyn cyfawni'r weithred hon. Fodd bynnag, nid yw canlyniad yr ymddygiad hwnnw yn arwyddocaol, er enghraifft, cyfawni anudon (<i>perjury</i>), pan fydd rhywun yn dweud celwydd o dan lw. Nid yw'n berthnasol os yw'r anwiredd yn cael ei gredu neu beidio, nac os yw'n effeithio ar yr achos – mae'r ymddygiad o ddweud celwydd yn ddigonol fel yr <i>actus reus</i> .
Canlyniad	Mae angen canlyniad penodol ar y weithred hon. Yn achos llofruddiaeth, mae'n rhaid bod y drosedd wedi arwain at y dioddefwr yn marw. Mae angen profi achosiaeth hefyd.
Sefyllfa	Ar gyfer y troseddau hyn, yr <i>actus reus</i> yw 'bod' yn hytrach na 'gwneud', er enghraifft, 'bod' yng ngofal cerbyd pan ydych o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Mae cyswllt rhwng hyn ag atebolrwydd caeth. Dangosir hyn yn achos <i>R v Larsonneur (1933)</i> .
Anwaith	'Peidio â gweithredu'. Fel rheol gyffredinol, nid yw'n drosedd i beidio â gweithredu, oni bai bod rhywun o dan ddyletswydd i weithredu . Gallai rhywun gerdded heibio, ar hap, i rywun yn boddi mewn ffynnon, ac ni fyddai unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol iddo'i helpu.

Gweithgaredd 4.8 Dyletswydd i weithredu

Tynnwch linellau i gysylltu'r gosodiadau sy'n nodi pryd mae dyletswydd ar berson i weithredu a'r esboniad cyfatebol.

Sefyllfa 'dyletswydd i weithredu'	Esboniad
Statud	Os bydd rhywun yn dewis gofalu am unigolyn arall sy'n fethedig neu sydd ddim yn gallu gofalu amdano'i hun, mae ganddo ddyletswydd i wneud hyn heb esgeuluster. Mae achos <i>R v Stone and Dobinson (1977)</i> yn dangos hyn.
Mae'r diffynnydd wedi creu sefyllfa beryglus drwy ddiffyg gofal, ac yn dod yn ymwybodol o'r sefyllfa, ond nid yw'n cymryd camau i'w hunioni	Mae rhai mathau o berthynas deuluol yn arwain at ddyletswydd i weithredu, fel y berthynas rhwng rhiant a phlentyn a rhwng gŵr a gwraig. Mae achos <i>R v Gibbins and Proctor (1918)</i> yn enghraifft o'r pwynt hwn.
Contract	Gall rhywun fod o dan contract i weithredu mewn ffordd arbennig, ac os yw'n peidio â gweithredu pan fydd ganddo ddyletswydd gontractol i wneud hynny, gall fod yn atebol am drosedd. Mae achos <i>R v Pittwood (1902)</i> yn enghraifft o hyn.
Dyletswydd yn deillio o rywun yn cymryd cyfrifoldeb dros unigolyn arall	Yn achos <i>Miller (1983)</i> , roedd y diffynnydd yn sgwatio mewn fflat. Aeth i gysgu heb ddiffodd ei sigarét. Pan ddeffrodd, sylweddolodd fod y fatres ar dân, ond y cyfan a wnaeth oedd symud i'r ystafell nesaf a mynd yn ôl i gysgu. Gan ei fod heb weithredu na galw am help, achosodd hynny werth cannoedd o bunnoedd o ddifrod. Cafwyd ef yn euog o losgi bwriadol.
Dyletswydd yn deillio o berthynas arbennig	Os yw gweithred yn ofynnol yn ôl Deddf, mae'n anghyfreithlon peidio â gweithredu. Er enghraifft, o dan <i>adran 6 Deddf Traffig y Fyrrdd 1988</i> , mae peidio â rhoi sampl o anadl neu sbesimen i'w ddadansoddi yn drosedd.

Gweithgaredd 4.9 Croesair *mens rea*

I lawr

1. Rhagdybiaeth
2. Atebolrwydd caeth
3. Anuniongyrchol
4. Malais trosglwyddedig
5. Actus reus
6. Bron yn sicr
7. Thabo meli


Ar draws

4. Meddwl euog
8. Esgeuluster
9. Bwriad
10. R v G and another
11. Nedrick
12. Malais bwriadus
13. Rheol cyfoesedd
14. Gweithred barhaus

Gweithgaredd 4.10 Achosiaeth

Achosiaeth ffeithiol	Achos	Achosiaeth gyfreithiol	Achos
Y prawf ‘pe na bai’	<i>R v White (1910)</i>	Rhaid mai'r anaf yw achos gweithredol a sylweddol y farwolaeth	<i>R v Smith (1959)</i>
Y rheol <i>de minimis</i>	<i>R v Pagett (1983)</i>	Prawf y ‘benglog denau’	<i>R v Blaue (1975)</i>
		<i>Novus actus interveniens</i>	<i>R v Jordan (1956)</i>

Gweithgaredd 4.11 Chwilair atebolrwydd caeth



Gair	Diffiniad/prif bwyntiau
Rheoleiddiol	Rheoleiddio rhywbeth, yn y cyd-destun hwn, troseddau sydd ddim yn rhai troseddol mewn gwirionedd, felly mân droseddau heb ymwneud â chwestiwn moesol.
<i>Mens rea</i>	Meddwl euog.
<i>Actus reus</i>	Gweithred euog.
Rhagdybiaeth	Mae'r llysoedd yn dechrau gyda hyn. Maen nhw'n rhagdybio bod <i>mens rea</i> yn ofynnol bob amser ond gall hyn gael ei gwrthbrofi gan ddefnyddio Gammon.
Gammon	Yr achos lle cafodd pedwar ffactor eu nodi i benderfynu a yw trosedd yn un atebolrwydd caeth neu beidio. Yn gwrthbrofi rhagdybiaeth <i>mens rea</i> .
Dehongli statudol	Y broses lle bydd barnwyr yn dehongli ystyr statud drwy ddefnyddio gwahanol ymagweddau, er enghraifft, y rheol lythrennol.
Gwir drosedd	Trosedd lle mae'n rhaid cael <i>mens rea</i> .
Pwys cymdeithasol	Gall materion o bwys cymdeithasol newid dros amser, ond maen nhw'n tueddu i ymwneud â throseddau fel gwerthu alcohol neu sigarêts i bobl o dan oed, llygredd, a diogelwch y cyhoedd. Drwy osod atebolrwydd caeth am droseddau sy'n ymwneud â materion o bwys cymdeithasol, y teimlad yw y bydd hyn yn gwneud y diffynnyddion yn fwy gwyliadwrus a gofalus rhag cyflawni'r drosedd.
Sweet v Parsley	Achos yn ymwneud â throsedd reoleiddiol neu wir drosedd.
Alphacell v Woodward	Achos yn ymwneud â materion o bwys cymdeithasol.
Bwriadol	Gyda'r bwriad o wneud rhywbeth neu o gael canlyniad penodol.
Byrbwyll	Sylweddoli y gall canlyniad annymunol penodol ddigwydd os gweithredir mewn ffordd benodol ond cymryd y risg beth bynnag.
Ymwybodol	Gan wybod y byddai rhywbeth yn digwydd.
Gwyliadwriaeth	Bod yn ofalus.
Meddiant	Bai.
Achosi	Y rheswm dros rhywbeth.
Cosb	Cosb haeddiannol am gyflawni trosedd.
Bai	Pan fydd ymddygiad diffynnydd o safon is na'r hyn sy'n dderbyniol.

Gweithgaredd 4.12 Manteision ac anfanteision atebolrwydd caeth

MANTEISION	Cysylltair e.e. 'fodd bynnag'	ANFANTEISION
Amser a chost profi <i>mens rea</i>	fodd bynnag	Posibilrwydd o anghyfiawnder
Amddiffyn cymdeithas trwy hybu safon uwch o ofal	yn y cyfamser	Rôl barnwyr
Hawdd gosod atebolrwydd caeth, a hynny'n gweithredu fel ataliad	ar y llaw arall	A yw atebolrwydd caeth yn ataliad mewn gwirionedd?
Cymesuredd y gosb sy'n briodol am atebolrwydd caeth	er	A yw atebolrwydd caeth yn torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol?

4.2 Cwestiynau cyflym

1. *Actus reus a mens rea.*
2. Atebolrwydd caeth.
3. Ffeithiol a chyfreithiol
4. Mae'r prawf hwn yn gofyn 'pe na bai' am ymddygiad y diffynnydd, a fyddai'r dioddefwr wedi marw pan wnaeth, ac fel y gwnaeth? Os 'na' yw'r ateb, yna bydd y diffynnydd yn atebol am y farwolaeth. Achos enghreifftiol: **R v White (1910)**. Yn yr achos hwn, gwenwynodd White ei fam ond bu hi farw o drawiad ar y galon cyn i'r gwenwyn allu cael amser i weithio. Nid oedd yn atebol am ei marwolaeth.
5. Rhaid i ddiffynnydd gymryd ei ddioddefwr fel y mae, felly os yw'r dioddefwr yn marw o ganlyniad i ryw gyflwr corfforol anarferol neu gyflwr annisgwyl arall, y diffynnydd er hynny sy'n dal yn gyfrifol am ei farwolaeth. Er enghraifft, wrth iddyn nhw ymladd â'i gilydd, efallai bydd y diffynnydd yn taro ei ddioddefwr gydag ergyd na fyddai'n achosi dim mwy na briw a chleisiau fel arfer. Ond y tro hwn, mae'r dioddefwr yn marw oherwydd bod ganddo benglog anarferol o denau – y diffynnydd, er hynny, sy'n dal yn atebol am y farwolaeth. Achos enghreifftiol: **R v Blaue (1975)**. Yn yr achos hwn, trywanodd y diffynnydd fenyw a oedd yn digwydd bod yn Dyst Jehofa. Oherwydd ei chred, gwrthododd hi gael trallwysiad gwaed a fyddai wedi achub ei bywyd. Dadleuodd y diffynnydd na ddylai ef fod yn gyfrifol am ei marwolaeth, gan y gallai'r trallwysiad fod wedi achub ei bywyd, a gan ei bod hi wedi ei wrthod. Anghytunodd y llys, gan ddweud bod yn rhaid iddo gymryd ei ddioddefwr fel y mae.
6. Rhaid mai'r anaf yw achos gweithredol a sylweddol y farwolaeth. Mae'r prawf hwn yn ystyried ai'r anaf gwreiddiol, a wnaed gan y diffynnydd ar adeg y farwolaeth, yw'r achos gweithredol a sylweddol dros y farwolaeth o hyd. Yn achos **R v Smith (1959)**, roedd milwr wedi ei drywanu ac yna ei ollwng ddwywaith ar y ffordd i'r ysbyty. Bu oedi cyn iddo weld meddyg ac ar ôl hynny cafodd driniaeth feddygol wael. Roedd y llys o'r farn nad oedd y ffactorau eraill hyn yn ddigon i dorri'r gadwyn achosiaeth. Adeg y farwolaeth, y clwyf gwreiddiol oedd 'achos gweithredol a sylweddol y farwolaeth' o hyd.
7. .
8. Rhywbeth sydd o bwys i gymdeithas yn gyffredinol ar adeg benodol. Gall materion o bwys cymdeithasol newid dros amser, ond maen nhw'n tueddu i ymwneud â throseddau fel gwerthu alcohol neu sigarêts i bobl o dan oed, llygredd, a diogelwch y cyhoedd. Drwy osod atebolrwydd caeth am y rhain, mae teimlad y bydd yn gwneud diffynnyddion yn fwy gwyliadwus a gofalus rhag cyflawni'r drosedd.
9. Er enghraifft, yn fwriadol, yn fyrbwyll, yn ymwybodol, o fwriad, yn esgeulus.
10. Manteision:
 - Amser a chost profi *mens rea*.
 - Amddiffyn cymdeithas trwy hybu safon uwch o ofal.
 - Hawdd gosod atebolrwydd caeth, a hynny'n gweithredu fel ataliad.
 - Cymesuredd y gosb sy'n briodol am atebolrwydd caeth.
 Anfanteision:
 - Posibilrwydd o anghyfiawnder.
 - Gall rôl barnwyr wrth ddehongli statudau arwain at anghysondeb o ran penderfyniadau barnwrol.
 - A yw atebolrwydd caeth yn gweithredu fel ataliad mewn gwirionedd, o ystyried y cosbau bach sy'n gysylltiedig?
 - A yw atebolrwydd caeth yn torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol? **R v G (2008)**.

Hierarchaeth troseddau corfforol nad ydynt yn angheuol

Gweithgaredd 4.13 Ymosod a churo

Ymosod

Nid yw ymosod wedi'i ddiffinio mewn Deddf Seneddol, gan mai trosedd cyfraith gyffredin yw hi.

Yn ôl adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, mae ymosod yn drosedd ynadol. Y ddedfryd fwyaf y gellir ei rhoi o ddyfarnu rhywun yn euog yw chwe mis o garchar neu ddirwy.

Actus reus ymosod yw unrhyw weithred sy'n gwneud i'r dioddefwr ofni y bydd yn dioddef trais yn ddi-oed (hynny yw, yn syth), fel codi dwrn, anelu gwn neu fygwth rhywun, fel yn *Logdon v DPP (1976)*.

Gall geiriau gael eu hystyried yn ymosod; felly hefyd o ran galwadau ffôn distaw. Yn achos *R v Ireland, Burstow (1997)*, gwnaeth y diffynnydd alwadau ffôn distaw i dair o fenywod, a barnwyd bod y rhain yn ddigon i wneud i'r dioddefwr ofni y byddai grym anghyfreithlon yn cael ei ddefnyddio yn ddi-oed. Yn *R v Constanza (1997)*, roedd y llys o'r farn bod llythyrau bygythiol yn gyfystyr ag ymosod. Gall geiriau hefyd rwystro rhywun rhag bod yn atebol am ymosod fel yn achos *Tuberville v Savage (1669)*. Yn yr achos hwn, rhoddodd y person wedi'i gyhuddo ei law ar ei gleddyf, a dweud 'Oni bai ei bod hi'n amser y brawdlys, fyddwn i ddim yn gadael i chi ddefnyddio'r fath iaith'. Y bygythiad oedd y weithred o roi'r llaw ar y cleddyf, a gallai hynny gyfateb i 'ymosod'; ond oherwydd iddo gysylltu hyn â'r datganiad nad oedd am ddefnyddio ei gleddyf am ei bod hi'n amser y brawdlys, roedd hyn yn ei rwystro rhag bod yn atebol am yr ymosod.

Rhaid i'r bygythiad fod 'yn ddi-oed', er bod hyn wedi ei ddehongli yn llac gan y llysoedd, fel y gwelir yn achosion *Ireland a Constanza* uchod. Yn achos *Smith v Chief Superintendent of Woking Police Station (1983)*, roedd y ddioddefwraig yn ei gwisg nos lawr grisiau. Roedd y diffynnydd, a oedd wedi tresmasu ar ei heiddo, yn syllu arni drwy'r ffenestr ac er bod y drws wedi'i gloi a'i bod hithau y tu ôl i'r ffenestr, ystyriwyd bod y bygythiad yn ddigon 'di-oed' i gyfrif fel ymosod.

Mens rea ymosod, fel caiff ei ddiffinio yn achos *R v Savage, Parmenter (1992)*, yw bod y diffynnydd naill ai wedi bwriadu gwneud i'r dioddefwr ofni grym anghyfreithlon yn ddi-oed, neu wedi rhagweld y risg y byddai ofn o'r fath yn cael ei greu (byrbwylltra goddrychol).

Curo

Yn debyg i ymosod, nid yw curo wedi ei ddiffinio mewn Deddf Seneddol; mae'n drosedd cyfraith gyffredin. **Yn ôl adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988**, mae curo yn drosedd ynadol, a'r ddedfryd fwyaf y gellir ei rhoi ar ôl dyfarnu rhywun yn euog yw chwe mis o garchar, neu ddirwy.

Er bod ymosod a churo yn ddwy drosedd ar wahân, mae'n bosibl eu cyfuno weithiau mewn cyhuddiad o'r enw 'ymosod cyffredin'.

Actus reus curo yw defnyddio grym corfforol anghyfreithlon ar rywun arall. Mae pobl yn derbyn bod peth grym corfforol yn cael ei ddefnyddio mewn bywyd bob dydd (*Collins v Wilcock (1984)*). Er enghraifft, gall pobl daro i mewn i'w gilydd wrth gerdded i lawr stryd

brysur. Er mwyn iddo gyfrif fel curo, rhaid i'r grym fod yn **anghyfreithlon**. Does dim rhaid i'r grym hwnnw fod yn uniongyrchol, fel yn achos **Haystead v DPP (2000)**, pan ddyrnodd y diffynnydd fenyw, gan wneud iddi ollwng ei **phlentyn**. Barnwyd bod hyn yn cyfrif fel curo'r plentyn yn anuniongyrchol, ond does dim rhaid i hyn fod yn anghydsyniol. Yn yr un modd, yn achos **Fagan v Metropolitan Police Commissioner (1969)**, parciodd Fagan ei gar yn ddamweiniol ar droed heddwas pan ofynnodd yr heddwas iddo barcio'r car ger y cyrb. Doedd Fagan ddim yn bwriadu gyrru ei gar dros droed yr heddwas. Ond pan ofynnwyd iddo symud, gwrthododd. Cafodd y grym ei ddefnyddio yn **anuniongyrchol** wrth i'r car gael ei yrru ar droed yr heddwas ac roedd yn anghyfreithlon pan wrthododd y dyn symud.

Mae'r term 'grym corfforol' yn awgrymu bod angen defnyddio llawer o rym, ond nid yw hyn yn wir. Yn achos **Thomas (1985)**, roedd y llys o'r farn bod cyffwrdd â hem **sgert** merch, a hithau'n ei gwisgo ar y pryd, yn gyfystyr â chyffwrdd â'r ferch ei hun. Does dim rhaid i'r dioddefwr fod yn ymwybodol ei fod ar fin cael ei daro chwaith; felly, mae 'curo' yn dal yn gallu digwydd os caiff rhywun ei daro o'r tu ôl. Cymharwch hyn ag ymosod, lle mae'n rhaid i'r diffynnydd ofni y bydd grym anghyfreithlon yn cael ei ddefnyddio, ac felly mae'n rhaid iddo fod yn ymwybodol o'r perygl.

Yn wahanol i ymosod, gall curo gael ei gyflawni trwy **anwaith** os oes dyletswydd i weithredu. Yn achos **DPP v Santana-Bermudez (2004)**, cafodd y diffynnydd ei archwilio gan heddwas, a gofynnodd hi a oedd ganddo unrhyw 'nodwyddau neu bethau minig' arno. Ni ddywedodd yntau ddim wrthi, a phan chwiliodd hi ef, pigodd ei bys ar nodwydd hypodermig a oedd yn ei boced. Roedd ef heb roi gwybod iddi am bresenoldeb y nodwydd.

Mens rea curo yw bwriad neu **fyrbyylltra** goddrychol i **ddefnyddio** grym anghyfreithlon ar rywun arall, fel y cadarnhaodd **R v Venna (1976)**.

Gweithgaredd 4.14 adran 47 (gwir niwed corfforol)

Rhowch esboniad ac enghraifft o achos ar gyfer pob *actus reus* sydd wedi'i rhestru isod.

<i>Actus reus</i>	Esboniad	Enghraifft o achos
Ymosod neu guro	Mae elfen gyntaf ABH yn gofyn am brawf o <i>actus reus</i> , sef naill ai ymosod neu guro. <i>Actus reus</i> ymosod yw gweithred sy'n achosi i'r dioddefwr ofni y bydd yn dioddef trais yn ddi-oed. <i>Actus reus</i> curo yw defnyddio grym corfforol anghyfreithlon ar rywun arall.	R v Ireland, Burstow R v Constanza Collins v Wilcock Haystead v DPP Fagan
Yn achosi	Rhaid i'r ymosod neu'r curo achosi gwir niwed corfforol. Felly, mae angen sefydlu'r gadwyn achosiaeth rhwng gweithred y diffynnydd a'r niwed mae'n ei achosi. Mae'r gadwyn achosiaeth yn cysylltu'r <i>actus reus</i> a'r canlyniad cyfatebol. Er mwyn sicrhau atebolrwydd troseddol, rhaid bod cadwyn achosiaeth ddi-dor.	R v Roberts
Gwir niwed corfforol (ABH)	Gall fod yn niwed corfforol neu seicolegol. Eglurwyd y diffiniad o'r hyn yw ABH yn achos Miller (1954) fel 'dolor neu anaf a fwriadwyd i ymyrryd ag iechyd neu gysur'. Mae achos Chan Fook (1994) hefyd yn gwneud y pwynt bod angen i'r anaf fod yn fwy na rhywbeth 'byrhoedlog neu ddibwys'. Er nad oes angen i'r anaf fod yn barhaol, ystyr y gair 'gwir' yn y cyd-destun hwn yw na ddylai fod mor ddibwys nes ei fod yn ansylweddol.	Miller DPP v Smith Chan Fook

Gweithgaredd 4.15 adran 20 (niwed corfforol difrifol)

Actus reus	Esboniad	Enghraifft o achos
Peri GBH	Mae'r term 'peri' (<i>inflict</i>) wedi achosi anhawster yn y llysoedd dros y blynyddoedd. Yn achos Clarence (1888) rhoddwyd ystyr cyfyng iawn i'r term, ond yn fwy diweddar, yn Dica (2004), ehangwyd yr ystyr fel bod trosglwyddo HIV yn fyrbwyll i ddioddefwr diarwybod yn cael ei gyfrif fel 'peri' GBH. Mae enghraifft o ymagwedd eang debyg i'w gweld yn R v Halliday (1889), lle rhoddodd gŵr gymaint o ddychryn i'w wraig nes iddi neidio allan o ffenestr eu hystafell wely i ddianc. Roedd y llys o'r farn bod ei hanafiadau hi wedi cael eu 'peri' yn uniongyrchol gan y diffynnydd, er mai hi oedd wedi neidio o'i gwirfodd trwy'r ffenestr. Yn achos R v Bollom (2003)	Clarence Dica R v Halliday R v Bollom
Ystyr GBH	Mae 'difrifol' yn cael ei ddiffinio yn DPP v Smith (1961) fel 'niwed gwirioneddol ddifrifol' ac fe gadarnhawyd hyn yn Saunders (1985). Yn achos R v Brown and Stratton (1998), barnwyd bod anafiadau fel cleisio, torri trwyn, colli dannedd a chyfergyd (<i>concussion</i>) yn cyfrif fel niwed corfforol difrifol.	DPP v Smith Saunders R v Brown and Stratton
Clwyfo	I achosi clwyf, mae angen bod wedi torri ar gyfanrwydd y croen, gan arwain at waedu fel arfer. Fodd bynnag, yn achos Moriarty v Brooks (1834), barnwyd bod yn rhaid torri'r dermis a'r epidermis. Yn achos JCC (A Minor) v Eisenhower (1984), roedd pibellau gwaed mewnol yn llygad y dioddefwr wedi torri o ganlyniad i gael ei saethu â gwn haels (<i>pellet gun</i>) – ond roedd y llys o'r farn nad oedd hyn yn gyfystyr â chlwyfo o dan adran 20. Nid yw crafiad neu doriad i'r croen allanol yn ddigonol os bydd y croen mewnol yn parhau yn gyfan (M'Loughlin (1838)).	Moriarty v Brooks JCC (A Minor) v Eisenhower M'Loughlin

Gweithgaredd 4.16 adran 18 (GBH gyda bwriad)

Mae trosedd **statudol** 'niwed corfforol difrifol gyda bwriad' wedi'i nodi yn **adran 18 Deddf Troseddau Corfforol 1861**, sy'n dweud ei bod yn drosedd **bwriadu** neu achosi niwed corfforol difrifol neu i **rwystro** unrhyw berson rhag cael ei **adran 18** yn drosedd **dditiadwy**. Y ddedfryd fwyaf ar gyfer **adran 18** yw carchar am **oes**, gan adlewyrchu difrifoldeb **adran 18** o'i chymharu ag **adran 20**.

Mae adran 18 yn drosedd sydd â bwriad **penodol**, sy'n golygu mai dim ond gyda bwriad fel y *mens rea* y gellir ei phrofi. **adran 47** ac **adran 20** yn droseddau bwriad sylfaenol gan y gallan nhw gael eu profi naill ai gyda bwriad neu **fyrbwylltra**.

Yn debyg i'r *actus reus* ar gyfer **adran 20**, yr *actus reus* ar gyfer **adran 18** yw naill ai **anafu** yn faleisus neu achosi niwed corfforol **difrifol** yn faleisus. Mae'n cyfeirio at y term '**achosi**' yn hytrach na 'peri' ac er nad ydyn nhw yr un fath ([R v Ireland, Burstow \(1997\)](#)) cymerwyd eu bod nhw'n golygu bod angen achosiaeth. Mae ystyr 'clwyfo' ac achosi 'niwed corfforol difrifol' yr un fath ag ar gyfer **adran 20** uchod.

Y gwahaniaeth allweddol rhwng **adran 20** ac **adran 18** yw ei bod yn bosibl profi **adran 18** gyda bwriad yn unig (uniongyrchol neu **anuniongyrchol**), ond ei bod yn bosibl profi **adran 20** gyda byrbwylltra neu fwriad i achosi **rhyw** niwed. Mae dwy agwedd i'r *mens rea*: Yn gyntaf, rhaid i'r diffynnydd glwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol

'yn faleisus'. Yn ail, rhaid i'r diffynnydd fod â bwriad penodol, naill ai i achosi niwed corfforol difrifol i'r dioddefwr, neu i wrthsefyll neu rwystro unrhyw berson rhag cael ei **ddal** neu ei gadw yn gyfreithlon.

Gweithgaredd 4.17 Pa drosedd? Paratoi i gymhwyso

Mae'r tabl cyntaf wedi'i gwblhau fel enghraifft. Defnyddiwch y gweddill fel templedi i ymateb mewn ffordd debyg i Senarios 2 a 3.

Unigolyn	Trosedd	Actus reus	Mens rea	Achosion	Amddiffyniad posibl?
Alexandra yn taflu diod dros Steve.	Mae curo yn drosedd cyfraith gyffredin .adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 , mae curo yn drosedd ynadol , a'r ddeddfyd fwyaf y gellir ei rhoi ar ôl dyfarnu rhywun yn euog yw chwe mis o garchar, neu ddirwy.	Actus reus curo yw defnyddio grym corfforol anghyfreithlon ar rywun arall. Mae pobl yn derbyn bod peth grym corfforol yn cael ei ddefnyddio mewn bywyd bob dydd (Collins v Wilcock (1984)). Er mwyn iddo gyfrif fel curo, rhaid i'r grym fod yn anghyfreithlon. Does dim rhaid i'r grym hwnnw fod yn uniongyrchol, fel yn achos Haystead v DPP (2000) . Yn yr un modd, yn achos Fagan v Metropolitan Police Commissioner (1969) . Mae'r term 'grym corfforol' yn awgrymu bod angen defnyddio llawer o rym, ond nid yw hyn yn wir. Thomas (1985) barnwyd bod cyffwrdd â hem sgerf merch a hithau'n ei gwisgo yn gyfystyr â chyffwrdd â'r ferch ei hun. Does dim rhaid i'r dioddefwr fod yn ymwybodol ei fod ar fin cael ei daro chwaith; felly, mae 'curo' yn dal yn gallu digwydd os caiff rhywun ei daro o'r tu ôl. Cymharwch hyn ag 'ymosod', lle mae'n rhaid i'r diffynnydd ofni y bydd grym anghyfreithlon yn cael ei ddefnyddio, ac felly mae'n rhaid iddo fod yn ymwybodol o'r perygl. Yn wahanol i ymosod, gall curo gael ei gyflawni trwy anwaith os oes dyletswydd i weithredu (fel yn DPP v Santana-Bermudez (2004) .)	<i>Mens rea</i> curo yw bwriad neu fyrbwyltra goddrychol i ddefnyddio grym anghyfreithlon ar rywun arall, fel y cadarnhaodd R v Venna (1976) . CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU	Gweler y golofn ar y chwith.	Meddwdod ond trosedd bwriad sylfaenol yw hon felly nid yw ar gael. CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU

Senario enghreifftiol 1

Unigolyn	Trosedd	Actus reus	Mens rea	Achosion	Amddiffyniad posibl?
Steve yn rhoi slap i Alexandra ar draws ei hwyneb, gan roi llygad ddu iddi.	Mae (adran 47 ABH) adran 47 Deddf Troseddau Corfforol 1861 yn dweud ei bod yn drosedd ymosod gan achosi gwir niwed corfforol. Mae gwir niwed corfforol yn drosedd neillfordd brofadwy . Pum mlynedd o garchar yw'r ddedfryd fwyaf posibl am ABH.	Mae tair elfen i <i>actus reus</i> ABH: 1. Ymosod neu guro: amgyffred neu ddefnyddio grym anghyfreithlon. 2. Achosi: felly, mae angen sefydlu'r gadwyn achosiaeth rhwng gweithred y diffynnydd a'r niwed mae'n ei achosi. R v Roberts (1971) 3. gwir niwed corfforol fod yn niwed corfforol neu seicolegol, fel y barnwyd yn Miller (1954). Gall gynnwys torri gwallt rhywun fel yn DPP v Smith (2006). Eglurwyd y diffiniad o'r hyn yw ABH yn achos Miller (1954) fel 'dolur neu anaf a fwiadwyd i ymyrryd ag iechyd neu gysur'. Chan Fook (1994) hefyd yn gwneud y pwynt bod angen i'r anaf fod yn fwy na rhywbeth 'byrhoedlog neu ddibwys'. Er nad oes angen i'r anaf fod yn barhaol, ystyr y gair 'gwir' yn y cyd-destun hwn yw na ddylai fod mor ddibwys nes ei fod yn ansylweddol. CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU	Mae'r <i>mens rea</i> ar gyfer curo yr un fath ag ar gyfer ymosod. Does dim gofyniad i brofi unrhyw <i>mens rea</i> ychwanegol am y gwir niwed corfforol fel yn achos Roberts (1971) . R v Savage (1992) hyn.	Gweler y golofn ar y chwith.	Meddwdod ond trosedd bwriad sylfaenol yw hon felly nid yw ar gael.

Unigolyn	Trosedd	<i>Actus reus</i>	Mens rea	Achosion	Amddiffyniad posibl?
Alexandra yn rhuthro at Steve â'r gwydr yn ei llaw.	Nid yw ymosod wedi'i ddiffinio mewn Deddf Seneddol, gan mai trosedd cyfraith gyffredin yw hi. Yn ôl adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, mae ymosod yn drosedd ynadol	<i>Actus reus</i> ymosod yw unrhyw weithred sy'n achosi i'r dioddefwr ofni y bydd yn dioddef trais yn ddi-oed, e.e. codi dwrn, pwyntio gwn neu fyrgwth rhywun (gweler Logdon v DPP (1976)). Gall geiriau gael eu hystyried yn ymosod, felly hefyd galwadau ffôn distaw – gweler R v Ireland, Burstow (1997) . Yn Constanza (1997) , barnwyd bod llythyrau bygythiol yn gyfystyr ag ymosod. Gall geiriau hefyd ddileu atebolrwydd am ymosod fel yn achos Tuberville v Savage (1669) . Rhaid i'r bygythiad fod 'yn ddi-oed', er bod hyn wedi ei ddehongli yn llac gan y llysoedd, fel y gwelir yn achosion Ireland a Constanza uchod. Yn achos Smith v Chief Superintendent of Woking Police Station (1983) , roedd y ddioddefwraig yn ei gwisg nos ger y ffenestr lawr grisiau. Roedd y diffynnydd, a oedd wedi tresmasu ar ei heiddo, yn sylgu arni drwy'r ffenestr ac er bod y drws wedi'i gloi a'i bod hithau y tu ôl i'r ffenestr, ystyriwyd bod y bygythiad yn ddigon 'di-oed' i gyfrif fel ymosod. CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU	<i>Mens rea</i> ymosod, fel caiff ei ddiffinio yn achos R v Savage, Parmenter (1992) yw bod y diffynnydd naill ai wedi bwriadu gwneud i'r dioddefwr ofni grym anghyfreithlon yn ddi-oed, neu wedi rhagweld y risg y byddai ofn o'r fath yn cael ei greu (byrbwylltra goddrychol). CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU	Gweler y golofn ar y chwith.	Meddwdod. Mae adran 18 yn drosedd bwriad penodol felly byddai'n arwain at amddiffyniad rhannol gan ostwng y drosedd i adran 20 niwed corfforol difrifol, sef y drosedd bwriad sylfaenol nesaf. Mae angen ystyried malais trosglwyddedig hefyd, o Steve, dioddefwr bwriedig Alexandra, i Leona, gan fod Steve wedi symud o'r ffordd.

Unigolyn	Trosedd	Actus reus	Mens rea	Achosion	Amddiffyniad posibl?
Alex yn taro Leona yn ei hwyneb â'r gwydr a thynnu ei llygad.	Adran 18 GBH: Mae trosedd statudol niwed corfforol difrifol gyda bwriad wedi'i nodi yn adran 18 Deddf Troseddau Corfforol 1861, sy'n dweud ei bod yn drosedd bwriadu clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol yn faleisus. adran 18 yn drosedd ddiitiadwy. Y ddedfryd fwyaf ar gyfer adran 18 yw carchar am oes gan adlewyrchu difrifoldeb adran 18 o'i chymharu ag adran 20 . Adran 20 GBH: Mae trosedd statudol niwed corfforol difrifol wedi'i nodi yn adran 20 Deddf Troseddau Corfforol 1861 sy'n dweud ei bod yn drosedd i achosi niwed corfforol difrifol neu glwyfo'r dioddefwr yn faleisus. Mae niwed corfforol difrifol yn drosedd neillfordd brofadwy	Adran 18: Yn debyg i'r <i>actus reus</i> ar gyfer adran 20 , yr <i>actus reus</i> ar gyfer adran 18 yw naill ai anafu yn faleisus neu achosi niwed corfforol difrifol. Mae'n cyfeirio at y term 'achosi' yn hytrach na 'peri', ac er nad ydyn nhw yr un fath (R v Ireland, Burstow (1997)) cymerwyd eu bod nhw'n golygu bod angen achosiaeth. Mae ystyr 'clwyfo' ac achosi 'niwed corfforol difrifol' yr un fath ag ar gyfer adran 20 uchod. CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU adran 20: Mae'n bosibl profi GBH naill ai trwy ddangos bod yr ymosod wedi peri niwed corfforol difrifol neu wedi clwyfo 'r dioddefwr. TERM ALLWEDDOL: Clwyfo – lle torrir dwy haen y croen, gan arwain fel arfer at waedu. Mae'n bwysig dewis y cyhuddiad yn ofalus naill ai peri GBH neu glwyfo. 1. Peri GBH. Mae'r term <i>peri</i> (<i>inflict</i>) wedi achosi anhawster yn y llysoedd dros y blynyddoedd. Yn achos Clarence (1888) , rhoddwyd ystyr cyfyng iawn i'r term, ond yn fwy diweddar, yn Dica (2004) , ehangwyd yr ystyr fel bod trosglwyddo HIV yn fyrbwyll i ddioddefwr diarwybod yn cael ei gyfrif fel 'peri' GBH. Dangosir ymagwedd eang debyg yn achos R v Halliday (1889) .	Y gwahaniaeth allweddol rhwng adran 20 ac adran 18 yw bod yn bosibl profi adran 18 gyda bwriad yn unig (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ond ei bod yn bosibl profi adran 20 gyda byrbwylltra neu fwriad i achosi <i>rhyw</i> niwed. Mae dwy agwedd i'r <i>mens rea</i> : Yn gyntaf, rhaid i'r diffynnydd glwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol 'yn faleisus'. Yn ail, rhaid i'r diffynnydd fod â bwriad penodol, naill ai i achosi niwed corfforol difrifol i'r dioddefwr, neu i wrthsefyll neu rwystro unrhyw berson rhag cael ei ddal neu ei gadw yn gyfreithlon. Mae adran 18 yn drosedd bwriad penodol (fel sy'n ofynnol yn Rv Belfon (1976)). Mae'n rhaid bod bwriad i achosi niwed yn faleisus, gan adlewyrchu difrifoldeb yr anafiadau a'r drosedd neillfordd		

Unigolyn	Trosedd	Actus reus	Mens rea	Achosion	Amddiffyniad posibl?
	brofادی. Y ddedfryd uchaf am GBH yw pum mlynedd o garchar, yr un gosb am drosedd lai ABH, a bu hyn yn destun beirniadaeth.	Barnodd y llys fod ei hanafiadau wedi eu peri yn uniongyrchol gan y diffynnydd er mai hi oedd wedi neidio o'i gwirfodd trwy'r ffenestr. <i>R v Ballom (2003)</i>, sefydlwyd bod oedran a nodweddion y dioddefwr yn ffordd dda o ddehongli maint yr anafiadau a ddioddefir. 2. Clwyfo. I achosi clwyf, mae angen bod wedi torri ar gyfanrwydd y croen, gan arwain at waedu fel arfer. Yn achos <i>Moriarty v Brooks (1834)</i>, barnwyd bod yn rhaid torri'r dermis a'r epidermis. Ond yn achos <i>JCC (A Minor) v Eisenhower (1984)</i>, roedd pibellau gwaed mewnol yn llygad y dioddefwr wedi torri o ganlymiad i gael ei saethu â gwn haels (<i>pellet gun</i>) – ond roedd y llys o'r farn nad oedd hyn yn gyfystyr â chlwyfo o dan adran 20. CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU	beusrwydd y diffynnydd. CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU adran 20: Diffinnir y <i>mens rea</i> ar gyfer GBH gan y disgrifiad yn faleisus. Yn faleisus – Caiff hwn ei ddehongli i olygu gyda bwriad neu fyrbwyltra goddrychol. Penderfynwyd trwy achos <i>Mowatt (1967)</i> nad oes angen sefydlu a oedd y diffynnydd yn bwriadu peri GBH Cafodd hyn ei egluro ymhellach yn achos <i>DPP v A (2000)</i>, lle roedd y llys o'r farn ei bod yn ddigonol i brofi bod y diffynnydd yn bwriadu i ryw fath o niwed ddigwydd, neu ei fod wedi rhagweld hynny ac nad oedd angen dangos bod y diffynnydd yn bwriadu i niwed difrifol ddigwydd, neu ei fod wedi rhagweld hynny. CYMHWYSO'R GYFRAITH AT Y FFEITHIAU		

Amddiffyniad posibl?					
Achosion					
Mens rea					
Actus reus					
Trosedd					
Unigolyn					

Senario enghreifftiol 3

Unigolyn	Trosedd	<i>Actus reus</i>	<i>Mens rea</i>	Achosion	Amddifftyniad posibl?

Gweithgaredd 4.18 Pa drosedd am achosi pa anaf?

Anaf	Trosedd
Llygad ddu	Curo
Torri trwyn	adran 47 ABH
Trywanu'r bol	adran 20 GBH neu adran 18 GBH, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a bwriad y diffynnydd
Crafiad	Curo
Torasgwrn (<i>fracture</i>) i'r benglog	adran 20 GBH neu adran 18 GBH, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a bwriad y diffynnydd
Chwyddo	Curo
Ofni bod grym ar fin cael ei ddefnyddio, ond ni chafodd ei ddefnyddio	Ymosod
Torri braich	adran 47 ABH

4.3 Cwestiynau cyflym

- Ymosod, curo, **adran 47**, **adran 20**, **adran 18**.
- (Dedfrydau mwyaf) Ymosod/curo: chwe mis o garchar neu ddirwy. **adrannau 47 a 20**: pum mlynedd o garchar. **adran 18**: carchar am oes.
- Cyfaddef bod rhywun yn euog o gyhuddiad llai na'r cyhuddiad gwreiddiol.
- Curo.
- Peri trais yn ddi-oed.
- Mae'n rhaid cael bwriad ar gyfer adran 18**, ond gellir profi **adran 20** gyda naill ai bwriad neu fyrbwylltra. **Y ddedfryd fwyaf y gellir ei rhoi o dan adran 18** yw carchar am oes, o'i chymharu â dedfryd fwyaf o bum mlynedd o garchar o dan **adran 20**. **adran 18** yn ymwneud â pheri anaf mwy difrifol.
- Er enghraifft, iaith sydd wedi dyddio ac iaith gamarweiniol (e.e. difrifol, ymosod heb fod angen unrhyw gyswilt corfforol), strwythur y troseddau yn afresymegol, dedfrydu (yr un fath ar gyfer **adran 20** ac **adran 47** ac yna naid i ddedfryd oes ar gyfer **adran 18**), bargeinio ple, dim diffiniad statudol o ymosod a churo.
- Er enghraifft, dedfrydau gwahanol ar gyfer **adran 20** ac **adran 47**, gan wahaniaethu'n amlwg rhwng **adran 47** ac **adran 20**. Iaith fwy clir Prif gynigion ar gyfer diwygio:
 - Pwyllgor Adolygu'r Gyfraith Trosedd**: Cafodd y Pwyllgor Adolygu'r Gyfraith Trosedd (1981) ei sefydlu i edrych ar yr angen am ddiwygio gan fod beirniadaeth mor eang o'r ddeddfwriaeth bresennol. Cyhoeddodd ganfyddiadau gan arwain Comisiwn y Gyfraith i gynnal ymchwil yn y maes.
 - Comisiwn y Gyfraith**: Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad 'Legislating the Criminal Code: Offences Against the Person and General Principles in 1993'. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys mesur drafft a oedd yn rhoi sylw i rai o'r problemau ond nid yw cael ei ystyried yn Senedd y DU. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad diwygio arall yn 2015: LAW COM No 361
 - Mesur Drafft**: Yn 1998, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ddogfen ymgynghori 'Violence: Reforming the Offences against the **Person Act 1861**', a oedd yn cynnwys Mesur drafft. Roedd y Mesur yn seiliedig ar gynigion Comisiwn y Gyfraith i raddau helaeth. Roedd y Mesur yn nodi'r troseddau mewn strwythur mwy rhesymegol, ac yn disodli'r troseddau o dan **Ddeddf Troseddau Corfforol 1861**.

Pennod 5: Cyfraith hawliau dynol

Rheolau, damcaniaeth a diogelu cyfraith hawliau dynol

Gweithgaredd 5.1 Damcaniaeth hawliau dynol

Gair	Diffiniad
Anamddifadwy	Hawliau sy'n gymwys i bawb, gan fod pawb yn fodau dynol
Hollgyffredinol	Mae pob hawl dynol, mewn rhyw ffordd, yn cyfrannu at urddas yr unigolyn. Mae pob hawl yn dibynnu ar y llall
Rhyngddibynnol	Nid yw'n bosibl tynnu'r hawliau i ffwrdd na'u rhoi i rywun
Anwahanadwy	Ystyrir bod pob hawl dynol yn gyfartal ac nad oes trefn hierarchaidd ar eu cyfer
Cwmpas disgresiwn	Mae hyn yn rhoi pŵer i'r llys gydbwyso hawliau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, er enghraifft Erthygl 10 yn erbyn Erthygl 8 yr ECHR
Cymesuredd	Mae'r gyfraith yn nodi'r pethau nad oes caniatâd i'r dinesydd eu gwneud, ond nid yw'r pethau sy'n cael eu caniatáu (hawliau a rhyddid) wedi eu nodi (Malone v Metropolitan Police Commissioner (1979))
Gweddillol	Gall pob gwladwriaeth ddewis gweithredu'r hawliau yn yr ECHR mewn ffyrdd gwahanol, er mwyn adlewyrchu eu hanes a'u fframweithiau cyfreithiol unigryw

Gweithgaredd 5.2 Cefndir y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)

Yn dilyn erchyllterau'r **Ail** Ryfel Byd, daeth y gymuned ryngwladol at ei gilydd, gan gytuno i amddiffyn hawliau dynol a hyrwyddo **heddwch**. Ffurfiwyd y **Cenhedloedd Unedig (United Nations: UN)**, gan fabwysiadu'r **Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (Universal Declaration of Human Rights: UDHR)** yn 1948. Mae hyn yn cael ei weld yn fan cychwyn y broses fodern o ddiogelu hawliau dynol. Yn dilyn hyn, sefydlwyd **Cyngor Ewrop**, a fabwysiadodd y **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)** hefyd yn ei dro. Mae hwn yn sefydliad ar wahân i'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n cynnwys mwy o wledydd; ei nod yw cadw heddwch ac amddiffyn hawliau dynol yn Ewrop. Ers hynny mae'r DU wedi **ymgorffori** rhan fwyaf o'r ECHR i'r gyfraith ddomestig drwy **Ddeddf Hawliau Dynol 1998**.

Mae **Cyngor Ewrop** yn goruchwyllo ymlyniad y gwladwriaethau i'r ECHR. Sefydliadau eraill sy'n goruchwyllo'r ECHR yw **Pwyllgor y Gweinidogion** a'r Cynulliad **Seneddol**.

Wrth i gymdeithas ddatblygu, mae hawliau dynol hefyd yn datblygu, ac mae'r ECHR (a chytuniadau hawliau dynol eraill) yn cael ei ystyried yn **'offeryn byw'**. Er enghraifft, pan ysgrifennwyd yr ECHR yn 1950, doedd y technolegau modern sydd erbyn hyn yn dylanwadu ar ddehongli'r hawl i **breifatrwydd**, er enghraifft, ddim yn bodoli ar y pryd.

Gweithgaredd 5.3 Hawliau'r ECHR

Cysylltwch erthyglau'r hawliau a'r rhyddid sy'n cael eu diogelu gan y Confensiwn gyda'u hesboniadau

Erthygl	Hawl
2	Yr hawl i fywyd
3	Yr hawl i ryddid a diogelwch yr unigolyn
4	Yr hawl i dreial teg
5	Rhyddid mynegiant
6	Rhyddid rhag arteithio, triniaeth annynol neu ddiraddiol
7	Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
8	Rhyddid rhag caethwasiaeth a llafur gorfodol
9	Yr hawl i briodi a sefydlu teulu
10	Rhyddid i ymgynnull ac ymgysylltu
11	Yr hawl i gael parch at fywyd teuluol a phreifat, y cartref a gohebiaeth
12	Gwahardd gwahaniaethu
14	Rhyddid rhag cyfraith ôl-weithredol

Gweithgaredd 5.4 Categoriâu'r hawliau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Categori'r hawl	Diffiniad	Enghraifft
Absoliwt	Ni all y wladwriaeth wyro oddi wrth yr hawliau hyn; ni ellir byth eu torri yn gyfreithiol	Erthygl 10 Rhyddid mynegiant
Cyfyngedig	Dyma'r hawliau gwannaf, ac mae'n bosibl eu tynnu 'pan gaiff hynny ei ragnodi gan y gyfraith, a phan fydd yn angenrheidiol a chymesur mewn cymdeithas ddemocrataidd, er mwyn cyrraedd nod cyfreithlon'. Mae'n bosibl eu cyfyngu er mwyn amddiffyn hawliau eraill, neu er lles y cyhoedd	Erthygl 6 Yr hawl i dreial teg
Amodol	Gall y wladwriaeth wyro oddi wrth yr hawliau hyn, ond dim ond o fewn y cyfyngiadau sydd wedi'u rhagnodi yn yr hawl	Erthygl 5 Yr hawl i ryddid

Gweithgaredd 5.5 Llys Hawliau Dynol Ewrop

Cwblhewch y geiriau sydd ar goll gan ddefnyddio'r rhestr a roddwyd.

Sefydlodd yr ECHR **Lys Hawliau Dynol Ewrop** hefyd, sy'n eistedd yn **Strasbourg**. Dyma'r llys apêl olaf i unigolion sy'n teimlo bod eu hawliau dynol wedi cael eu tramgwyddo. Cyn **Deddf Hawliau Dynol 1998**, roedd yn rhaid i unigolion ddefnyddio hawl deiseb **unigol**, a sefydlwyd yn 1966, er mwyn apelio i **Lys Hawliau Dynol Ewrop**. Roedd yn rhaid mynd trwy'r holl rwymedïau **domestig** yn gyntaf, ac roedd hyn yn cymryd llawer o amser ac **arian**. Fodd bynnag, pan fyddai'r ECtHR yn dweud bod y DU wedi dileu hawliau dynol yn anghyfreithlon, byddai'r wlad fel arfer yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol, er nad oedd ganddi rwymedigaeth gyfreithiol i ddiwygio'r gyfraith (roedd ganddi 'rwymedigaeth **foesol**'). Er enghraifft, pasiwyd **Deddf Dirmyg Llys 1981** o ganlyniad i achos **Sunday Times v UK**, pan farnodd y Llys Hawliau Dynol bod trosedd cyfraith gyffredin dirmyg llys yn mynd yn groes i **Erthygl 10** yr ECHR.

Un enghraifft o achos lle'r aeth unigolyn ati i ddeisebu'r ECtHR yw **McCann v UK (1995)**, a hynny ar fater polisi 'saethu i ladd' y DU, a mynd yn groes i **Erthygl 2** (yr hawl i fywyd).

Gweithgaredd 5.6 Adrannau o Ddeddf Hawliau Dynol 1998

Adran	Crynodeb	Enghraifft o gyfraith achosion / enghraifft + pwynt gwerthusol
Adran 7	Bellach, mae'n bosibl cymhwyso'r ECHR yn uniongyrchol yn llysoedd y DU. Gall dinesydd sy'n teimlo bod ei hawliau dynol wedi'u dileu fynd â'r achos i lys cenedlaethol. Gall dinasyddion fynd â'u hachosion i Strasbourg ar apêl o hyd.	Barnwyr y llysoedd cartref sydd â'r rhwymedigaeth bellach. Yn rhatach ac yn cymryd llai o amser na mynd i Strasbourg.
Adran 2	Wrth benderfynu ar achos sy'n ymwneud â honiadau o dorri hawliau dynol, rhaid i lysoedd yn y DU 'ystyried' cyseiliau Llys Hawliau Dynol Ewrop. Dydyn nhw ddim yn rhwymol, ond maen nhw'n hynod o berswadiol .	Leeds City Council v Price yn dangos bod llysoedd y DU yn gallu dewis cynsail y DU uwchlaw penderfyniad yr ECtHR. Os yw cynsail y DU yn gwrthdaro â hyn, yna cynsail y DU gaiff ei ddefnyddio. Os yw cynsail y Llys Hawliau Dynol yn glir, ac nad oes cynsail gan y DU, yna <i>dylid</i> dilyn cynsail y Llys Hawliau Dynol (Ullah (2004)). Pwynt gwerthusol: Rhoi pŵer i farnwyr anetholedig o dan adran 2 ac adran 3 , yn enwedig o'u cyfuno ag adran 6 .
Adran 3	Wrth benderfynu ar achos sy'n ymwneud â hawliau dynol, rhaid i farnwyr ddehongli pa mor gydnaws yw cyfraith â hawliau dynol, 'cyn belled ag y mae hynny'n bosibl' .	R v A (2001) – Dywedodd yr Arglwydd Steyn fod y ddyletswydd o dan adran 3 yn mynd y tu hwnt i'r dull bwriadus. Dylai 'datganiad anghydawnsedd' gael ei ddefnyddio ar ôl ceisio pob ffordd arall. Mae achos Ghaidan v Godin-Mendoza (2004) yn dangos y dull presennol o ddefnyddio adran 3 .
Adran 4	Os na ellir dehongli statud yn ddigon eang i sicrhau cydnawsedd â hawliau'r Confensiwn, gall barnwyr gyhoeddi datganiad anghydawnsedd o dan adran 4 .	Bellinger v Bellinger (2003) Anderson (2003) Belmarsh detainees (A and Others (2004)), R v Mental Health Tribunal ex parte H (2001)
Adran 10	Os cyhoeddwyd datganiad anghydawnsedd, mae gan y Senedd y pŵer i newid hyn yn gyflym gan ddefnyddio gweithdrefn 'llwybr cyflym' .	Pwynt gwerthusol: O dan adran 10(2) , gall y Senedd newid y gyfraith gan ddefnyddio'r weithdrefn llwybr cyflym os oes 'rheswm grymus'. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod datganiad anghydawnsedd wedi'i gyhoeddi yn 'rheswm grymus' o anghenraid.

Adran	Crynodeb	Enghraifft o gyfraith achosion / enghraifft + pwynt gwerthusol
Adran 6	Gall unigolion siwio 'awdurdodau cyhoeddus' am dorri hawliau dynol. Cyrff yw'r rhain sydd â swyddogaethau 'cyhoeddus' neu 'rannol gyhoeddus'. Mae llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael eu hystyried yn awdurdodau cyhoeddus.	Mae awdurdodau cyhoeddus 'arferol' yn cynnwys y GIG, y lluoedd arfog, y gwasanaeth carchardai. Gall awdurdodau cyhoeddus 'swyddogaethol' gael eu hystyried naill ai'n rhai cyhoeddus neu'n rhai preifat, yn dibynnu ar natur eu gwaith ac agosrwydd eu perthynas â'r wladwriaeth. Poplar (2001) a YL v Birmingham City Council (2008). Effaith uniongyrchol llorweddol ymhlwg: Os bydd mater hawliau dynol yn cael ei godi mewn achos preifat, mae dyletswydd ar yr awdurdod cyhoeddus i amddiffyn yr hawliau hyn. Douglas and Jones v Hello! Ltd.
Adran 19	Dylai'r holl ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio ar ôl i <i>Ddeddf Hawliau Dynol</i> ddod i rym gynnwys datganiad cydnawsedd.	Pwynt gwerthusol: O dan adran 19(1)(b), mae'n bosibl pasio cyfraith heb ddatganiad cymhwysedd. Nid yw gweinidogion yn dweud bod y gyfraith yn 'anghydnaws', dim ond na allan nhw ddatgan ei bod yn 'gydnaws'. Dau Fesur oedd heb gynnwys datganiad cydnawsedd yw Mesur Llywodraeth Leol 2000 a Mesur Cyfathrebu 2003. Mae'r ddau bellach yn Ddeddfau Seneddol.
Adran 8	Gall llys ganiatáu 'unrhyw rywmedi cyfiawn a phriodol o fewn ei bwerau'.	Pwynt gwerthusol: Dewisodd y DU beidio ag ymgorffori erthygl 13, a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol i lysoedd ddarparu 'rhwymedi effeithiol'.

Gweithgaredd 5.7 Croesair y Bil Hawliau

I lawr

1. Barnwyr
2. Anetholedig
3. Maniffesto
4. Y weithrediaeth
5. Llwybr cyflym
6. ECHR
7. Ymwreiddiedig

Ar draws

8. Datganoli
9. + 12. Cytundeb Gener y Groglith
10. Senedd
11. Anysgrifenedig

5.1 Cwestiynau cyflym

1. Deddf Hawliau Dynol 1998.
2. Rhyddid gweddillol. Maen nhw wedi dod yn hawliau cadarnhaol.
3. **Adrannau 2, 3, 4, 10, 7, 8, 10, 19.**

Darpariaethau penodol yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Gweithgaredd 5.8 Categoriâu'r hawliau dynol yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Hawliau absoliwt: Y rhain yw'r hawliau cryfaf. Ni all y **wladwriaeth wyro** oddi wrth yr hawliau hyn; ni ellir byth eu torri yn gyfreithlon. Enghraifft: yr hawl i **dreial teg** (**Erthygl 6**).

Hawliau Cyfyngedig: Gall y wladwriaeth wyro oddi wrth yr hawliau hyn, ond dim ond o fewn y **cyfyngiadau** sydd wedi'u rhagnodi yn yr hawl. Enghraifft: yr hawl i **ryddid** (**Erthygl 5**).

Hawliau Amodol: Y rhain yw'r hawliau gwannaf, ac mae'n bosibl eu dileu pan 'ragnodir hynny gan y gyfraith, a phan fydd yn angenrheidiol a chymesur mewn cymdeithas ddemocrataidd, er mwyn bodloni **nod** cyfreithlon'. Mae'n bosibl eu cyfyngu er mwyn amddiffyn hawliau eraill neu er lles y **cyhoedd**. Enghraifft: rhyddid **mynegiant** (**Erthygl 10**).

Wrth ystyried yr hawliau hyn, cofiwch egwyddor **gymesuredd** a hefyd **cwmpas disgresiwn**.

Gweithgaredd 5.10 Ymchwilio i Erthyglau 8, 10 ac 11

Bydd yr atebion yn dibynnu ar eich ymchwil personol. Cymharwch eich gwybodaeth, enghreifftiau a chasgliadau gyda'ch cyd-ddisgyblion.

5.2 Cwestiynau cyflym

1. Un na all y wladwriaeth wyro oddi wrthi, e.e. Erthygl 6.
2. Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (*European Convention on Human Rights*) (neu Llys Hawliau Dynol Ewrop).
3. Amodol.
4. **Deddf Hawliau Dynol 1998**.
5. **Erthyglau 8, 9, 10, 11**.
6. **Erthyglau 6, 3**.
7. Cyfyngedig. Gall gael ei dileu o dan y cyfyngiadau sydd wedi'u nodi yn yr erthygl (e.e. hawl gyfreithlon i arestio rhywun sydd o dan amheuaeth)
8. Yn dibynnu ar eich ymateb chi.
9. Yr hawl i briodi a sefydlu teulu.

Diwygio hawliau dynol

Gweithgaredd 5.11 Hanes hawliau dynol

Magna Carta	Gwrit cyfreithiol (gorchymyn) a gyhoeddir gan farnwr sy'n ei gwneud yn ofynnol i rywun a ddaliwyd i gael ei ddwyn gerbron y llys ar unwaith, i benderfynu a yw wedi cael ei garcharu yn gyfreithiol.
Habeas corpus	Llofnodwyd hwn yn 1215 gan y Brenin John a barwniaid canoloesol Lloegr. Dyma un o'r dogfennau pwysicaf yn hanes hawliau dinasyddion.
Bil Hawliau (y DU)	Daeth i rym yn y DU yn 2000. Mae'n galluogi unigolion i gyflwyno achosion yn ymwneud â thorri'r ECHR gerbron llysoedd y DU, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth y DU gael ei dehongli mewn ffordd sy'n gydnaws â'r ECHR.
Cyfansoddiad a Bil Hawliau UDA	Cafodd ei ddrafftio gan Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig a'i fabwysiadu gan y Cenhedloedd Unedig yn 1948. Mae'n nodi 30 hawl sylfaenol ddylai fod ar gael i bob dinesydd mewn cymdeithas ddemocrataidd.
Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol	Dechreuodd fel Erthyglau'r Conffederasiwn yn 1781, yna'i ddatblygu gan y sefydlwyr cyntaf yn 1789 er mwyn creu system lywodraethol fwy cryf a thair rhan y wladwriaeth, ac yna cafodd deg diwygiad eu gwneud yn 1791.
Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)	Wedi'i leoli yn Strasbourg, cafodd ei sefydlu o dan Erthygl 19 yr ECHR yn 1959, ac mae'n gwrandao ar achosion gan unigolion sy'n dadlau bod gwladwriaeth sydd wedi ymrwymo i'r ECHR wedi torri ei rhwymedigaethau.
Llys Hawliau Dynol Ewrop	Cafodd ei lofnodi gan aelodau o Gyngor Ewrop yn 1950, a daeth i rym yn 1953. Mae'n galluogi dinasyddion sydd am gwyno yn erbyn gwladwriaeth sy'n aelod i ddod ag achos gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop (ECtHR).
Deddf Hawliau Dynol 1998	Daeth i rym yn 1689 ar ôl i William a Mary gael eu coronni yn frenin a brenhines. Mae'n nodi hawliau sifil sylfaenol, fel cyfyngiadau ar bwerau'r brenin/y frenhines, hawliau'r Senedd, etholiadau rhydd a rhyddid barn yn y Senedd.

Gweithgaredd 5.12 Gwerthuso diogelu hawliau dynol

Mae'r ateb yn dibynnu ar eich safbwynt personol, ond mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth a dadl resymegol ar gyfer eich gwerthusiad.

Gweithgaredd 5.13 Dadl Bil Hawliau

Atebion y myfyriwr. Pa un oedd fwyaf effeithiol? Pam?

Gweithgaredd 5.14 Eich Bil Hawliau

Mae'r ateb yn dibynnu ar eich safbwynt personol, ond mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth a dadl resymegol ar gyfer eich gwerthusiad.

Gweithgaredd 5.15 Ateb enghreifftiol i gwestiwn ar y Bil Hawliau

Datblygiad 1

Cam cyntaf y traethawd hwn yw amlinellu'r cynlluniau presennol, er mwyn sicrhau eich bod chi'n dangos y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'n ddefnyddiol os ydych chi'n cadw llygad ar y newyddion, gan fod cynigion yn newid o hyd yn y maes hwn. Mae tystiolaeth glir bod rhai pobl yn dadlau bod y Ddeddf Hawliau Dynol yn methu. Mewn pŵl piniwn a gynhaliwyd gan Ipsos MORI yn 2008, dywedodd 42% o'r bobl a gafodd eu holi fod y Ddeddf Hawliau Dynol yn siarter ar gyfer troseddwy'r a phobl annheilwng. Oherwydd barn y cyhoedd am y Ddeddf Hawliau Dynol, daeth galwadau i'w diwygio yn ganolog i ymgyrchoedd y prif bleidiau gwleidyddol yn etholiad 2010.

Pennod 2 Cyfraith Contract

Awgrymodd y Ceidwadwyr, a enillodd yr etholiad honno, y bydden nhw'n dileu'r Ddeddf Hawliau Dynol a chyflwyno Bil Hawliau Dynol Prydeinig yn ei lle. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir beth fyddai hyn yn ei olygu ond cyhoeddodd Comisiwn y Bil Hawliau ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2013. Ni wnaeth y Ceidwadwyr benderfynu a fydden nhw'n derbyn yr holl argymhellion ond dywedodd yr Ysgrifennydd Cyfiawnder ar y pryd, Chris Grayling, y byddai'n eu hystyried yn ofalus. Fodd bynnag, gellir dod i rai casgliadau ar sail y trafodaethau yn ymwneud â'r mater a'r adroddiad. Yn gyntaf, nid yw'n bosibl gostwng lefel yr amddiffyniad islaw lefel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol oherwydd bod y DU wedi llofnodi'r Confensiwn. Os yw'r Ceidwadwyr yn dymuno gwneud hyn, byddai'n rhaid i'r DU adael Cyngor Ewrop, a byddai hyn yn arwain at ei broblemau ei hun. Mae aelodaeth o Gyngor Ewrop yn ofynnol i fod yn aelod o'r UE. Byddai gadael Cyngor Ewrop hefyd yn gorfodi'r DU allan o'r UE. Nid yw hyn yn gymaint o broblem yn dilyn pleidlais Brexit.

Yn ail, mae'r Ceidwadwyr wedi cyfeirio at strwythur y gyfraith newydd, er nad oes dim wedi'i benderfynu'n derfynol. Gwnaethon nhw awgrymu y bydden nhw'n gwella amddiffyniad hawliau dynol drwy ychwanegu at yr hawliau yn yr ECHR yn hytrach na gwanhau hawliau. Gallai hyn gynnwys pethau fel yr hawl i gael treial gan reithgor, gofal iechyd a Senedd newydd bob pum mlynedd. Y nod yma yw ceisio ad-ennill cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer cyfraith hawliau dynol drwy wneud i bobl deimlo eu bod yn gallu cael mynediad ati drwy'r hawliau hyn a sicrhau ei bod yn berthnasol i bobl gyffredin. Mae'r Ceidwadwyr hefyd wedi dweud eu bod eisiau cryfhau craffu seneddol drwy ddileu'r weithdrefn llwybr cyflym o dan adran 10 Deddf Hawliau Dynol. Maen nhw eisiau i'r holl ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth fod yn destun y weithdrefn seneddol lawn.

Yn olaf, gellir awgrymu y byddai'r Ceidwadwyr yn hoffi cyfyngu ar bwerau barnwriaeth y Llys Hawliau Dynol a barnwyr y DU. Maen nhw'n teimlo nad yw'r barnwyr yn Strasbourg yn rhoi digon o hyblygrwydd i farnwyr cenedlaethol a bod barnwyr y DU yn mynd y tu hwnt i'r ffiniau, er enghraifft drwy fethu ag allgludo pobl a ddrwgdybir o droseddau terfysgol oherwydd Erthygl 8. Felly, gall hyn olygu na fydd y Bil Hawliau newydd yn cynnwys yr un darpariaethau â'r rhai sydd i'w cael ar hyn o bryd yn adrannau 2, 3 a 4 y Ddeddf Hawliau Dynol. Er mwyn goresgyn sofraniaeth seneddol ac ymwreiddio'r gyfraith, mae'r Ceidwadwyr wedi cynnig nifer o opsiynau. Mae'n bosibl eithrio'r Bil Hawliau o'r Deddfau Seneddol, gan roi hawl amhendiant i Dŷ'r Arglwyddi wahardd unrhyw newidiadau neu gynigion i ddileu'r gyfraith. Ar y llaw arall, gallai'r DU fabwysiadu system sy'n cyfateb i Seland Newydd ac Israel gan ganiatáu i'r gyfraith gael ei diwygio gan fwyafrif arbennig yn Nhŷ'r Cyffredin. Er bod

hyn yn ymddangos yn gadarnhaol, mae rhai pobl yn beirniadu'r cynlluniau hyn ac yn dadlau na fyddai'r DU yn elwa ar Fil Hawliau mewn gwirionedd. Dywedodd yr Athro Gavin Phillipson 'nad yw barnwyr yn hoffi pobl yn dweud wrthyn nhw sut i ddehongli pethau...'. Felly, gallai unrhyw ymgais i reoli pŵer y farnwriaeth fod yn sicr o fethu. Bydd hyn yn effeithio ar barodrwydd y cyhoedd i dderbyn y Bil Hawliau newydd ai peidio. Mae ymchwil yn awgrymu bod y cyhoedd yn hoffi'r hawliau ond dydyn nhw ddim yn hoffi'r ffordd mae'r farnwriaeth yn eu defnyddio. Os na allwch chi newid y farnwriaeth, ni fydd ychwanegu at yr hawliau yn gwella canfyddiad y cyhoedd ohoni. Gall mater datganoli gyfyngu ar gynlluniau'r Ceidwadwyr hefyd. Er enghraifft, mae gofal iechyd yn bŵer datganoledig. Efallai na fydd yn bosibl ychwanegu hwn at ddeddf sy'n cael ei phasio gan Senedd y DU. Mae bron yn sicr na fyddai'r llywodraethau datganoledig yn hapus i dderbyn gorchmynion mewn meysydd y maen nhw i fod i'w reoli. Hefyd, mae teimlad nad yw ASau Ceidwadol eisiau newid y Ddeddf Hawliau Dynol ac maen nhw'n ystyried ei bod yn tynnu sylw oddi wrth faterion go iawn y mae angen eu datrys. Felly, gall prif weinidog Prydain ei chael yn anodd ennill cefnogaeth ei ASau ei hun. Mae'n wir hefyd bod y Ddeddf Hawliau Dynol yn newydd (yn nhermau cyfreithiol) ac mae'n bosibl bydd angen rhoi cyfle iddi brofi ei hun cyn iddi gael ei diwygio ar frys a'i chyflwyno ar ffurf newydd.

Mae rhai yn dadlau y bydd yn fanteisiol i'r DU roi Bil Hawliau ar waith. Yn ôl Geoffrey Robertson, Cwnsler y Frenhines: 'Heb Fil Hawliau wedi'i ymwreiddio, does dim rhyddid ym Mhrydain sy'n ddiogel rhag ymyrraeth gwleidyddion.' Felly, mae'r bygythiadau a wnaed yn erbyn y Ddeddf Hawliau Dynol yn nhermau ei haddasu a'i dileu yn ddigon i gyfiawnhau newid cyfraith sydd wedi'i hymrwreiddio ac sy'n cynnig amddiffyniad ychwanegol.

Ym mis Mehefin 2010, dywedodd Jean-Paul Costa, cyn-lywydd Llys Hawliau Dynol Ewrop, y byddai diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i disodli gyda Bil Hawliau Prydeinig yn 'syniad drwg' a gallai beryglu'r amddiffyniad y mae dinasyddion y DU yn ei gael o dan y Confensiwn Ewropeaidd. Dywedodd y byddai'n cymhlethu'r berthynas rhwng y DU a Strasbourg, oherwydd byddai cyfraith y DU yn wahanol i gynseiliau'r Llys Hawliau Dynol. Ar ôl i'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr ffurfio clymblaid, cafodd problemau eu hachosi wrth symud y cynllun yn ei flaen. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol o blaid y Ddeddf Hawliau Dynol, ac arweiniodd hyn at gyfaddefiad gan brif weinidog Prydain ar y pryd, David Cameron, y byddai'n annhebygol y byddai ei gynlluniau yn cael eu gwireddu tan ar ôl etholiad 2015. Yn 2015, cyfeiriwyd at y Bil Hawliau ym manifesto'r Blaid Geidwadol, ac ar ôl ennill mwyafrif, roedd pobl yn rhagweld byddai hyn yn digwydd. Ond yn dilyn pleidlais Brexit, cafodd y cynnig i gyflwyno Bil Hawliau yn lle'r Ddeddf Hawliau Dynol ei roi i'r naill ochr nes bydd y DU wedi gadael yr UE.

Datblygiad 2

Yn draddodiadol, cafodd yr angen am Fil Hawliau ei gydnabod gan yr angen i gyfyngu ar y Weithrediaeth a newid agwedd y farnwriaeth. Roedd diffyg cyfraith hawliau dynol yn golygu bod y Weithrediaeth a'i hasiantaethau yn gallu parhau heb ystyried yr effaith ar hawliau dynol. Doedd dim trefniadau i wirio hyn.


Cwblhewch yr ateb, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd fel canllaw.

5.3 Cwestiynau cyflym

Dim atebion ar gael.

Cyfyngiadau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Gweithgaredd 5.16 Chwilair gorymdeithiau



Gweithgaredd 5.17 Cyfarfodydd a chynulliadau

Adran 16: Mae hon yn diffinio cyfarfod neu gynulliad fel cynulliad o **2** neu ragor o bobl mewn man **cyhoeddus** sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn yr awyr **agored**.

Mae **Adran 14** yn rhoi pwerau i'r heddlu osod **amodau** ar gyfarfodydd (gan ddefnyddio'r un pedwar **sbardun** ag ar gyfer **adran 12**). Rhoddir pŵer i'r heddlu osod amodau ar gynulliadau **statig**, sy'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn yr awyr agored, os oes mwy na dau o bobl am fod yn bresennol. Yn ogystal â'r pŵer i osod amodau ymlaen llaw, mae'r Adran hon yn galluogi'r heddlu i osod amodau ar **adeg** y cynulliad ac yna i **arestio** rhai sy'n methu **cydymffurfio**. Mae'r mathau o amodau yn cynnwys, lleoliad y cyfarfod, ei **hyd**, ac **uchafswm** y bobl. **Nid** yw cynulliad yn gorfod ufuddhau i'r gofyniad am **rybudd** sydd yn **adran 11**.

Gweithgaredd 5.18 Pwerau o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994

Adran	Pŵer
Adran 14A	Ar gais meddiannydd, mae gan yr heddlu bŵer i fynnu bod tresmaswyr yn gadael tir lle roedden nhw'n bwriadu preswyllo, yn ddibynol ar rai amodau.
Adran 14B	Tresmasu gwaethygedig: prif dargedau'r drosedd hon oedd pobl sy'n ceisio atal pobl rhag hela. Erbyn hyn, gall fod yn gymwys i unrhyw dresmaswr sy'n amharu ar weithgaredd cyfreithlon ar dir.
Adran 69	Os yw'r heddlu'n credu yn rhesymol fod tresmaswyr wedi cyflawni, neu ar fin cyflawni, trosedd o dan adran 68 , gallan nhw eu cyfeirio i adael y tir hwnnw.
Adran 63	Mae gan yr heddlu'r pŵer i wasgaru neu atal cynullïadau yn yr awyr agored o 100 neu fwy o bobl lle mae chwarae cerddoriaeth uchel yn debygol o achosi trallod difrifol i'r cymdogion.
Adran 68	Gwahardd cynnal unrhyw gynullïad tresmasol, yn ddibynol ar rai amodau: DPP v Jones (1998)
Adran 61	Mae'n drosedd i drefnu, annog neu gymryd rhan mewn cynullïad a chithau'n gwybod ei fod yn mynd yn groes i orchymyn gwahardd, a gallwch gael eich arestio am wneud: Windle v DPP (1996)

Gweithgaredd 5.19 Pwerau o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986

Adran	Pŵer
Adran 1	Anhrefn treisgar: yn debyg i derfysg, ond rhaid bod tri neu fwy o bobl yn bresennol, a does dim rhaid iddyn nhw fod yn gweithredu at unrhyw bwrpas cyffredin.
Adran 2	Yn debyg iawn i adran 4 , ond ar lefel is. Mae'n ymwneud ag aflonyddwch, braw neu drallod ac ymddygiad anhrefnus. Rhaid bod hyn yn digwydd o fewn clyw neu olwg rhywun sy'n debygol o deimlo'r aflonyddwch, y braw neu'r trallod.
Adran 3	Ofn trais neu gythruddo rhywun â thrais: cyflawnir y drosedd drwy ddefnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, sarhaus neu ddifriol tuag at rywun arall, neu drwy ddosbarthu unrhyw ysgrifen, arwydd neu gynrychiolaeth weledol arall sy'n fygythiol, yn sarhaus neu'n ddifriol. Rhaid bod bwriad i gythruddo neu i achosi ofn o drais anghyfreithlon yn ddi-oed: <i>R v Horseferry Road Justices, ex parte Siadatan (1990)</i> .
Adran 4	Aflonyddwch, braw neu drallod bwriadol: mae'r drosedd hon yn union yr un fath â'r un yn adran 5 , ond rhaid bod yr un sydd wedi'i gyhuddo yn bwriadu achosi aflonyddwch, braw neu drallod, a rhaid iddo ei gyflawni. Mae'r cosbau mwyaf hefyd yn llawer mwy na'r rhai yn adran 5 .
Adran 4A	Terfysg: 12 neu fwy o bobl yn bygwth neu'n defnyddio trais anghyfreithlon. Rhaid iddyn nhw fod yn gweithredu gyda'i gilydd at bwrpas cyffredin. Rhaid i ymddygiad y grŵp fod i'r fath raddau nes byddai rhywun o benderfyniad rhesymol yn y lleoliad yn ofni am ei ddiogelwch.
Adran 5	Affrae: mae hyn yn debyg i derfysg ac anhrefn treisgar. Mae rhywun yn cyflawni affrae drwy ddefnyddio neu fygwth trais anghyfreithlon i'r fath raddau nes byddai rhywun o benderfyniad rhesymol yn ofni am ei ddiogelwch. Does dim rhaid cael isafswm o bobl.

Gweithgaredd 5.20 Deddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005

Bydd yr ateb yn dibynnu ar eich ymchwil personol.

Gweithgaredd 5.21 Tor-heddwch

Mewn cyfraith **gyffredin**, mae gan yr heddlu bŵer i arestio **heb** warant mewn achos o **dor-heddwch**, os oes sail **resymol** dros gredu y bydd tor-heddwch yn digwydd, neu os ydyn nhw o'r farn y bydd yn cael ei **ailadrodd** (cafod ei ddefnyddio'n helaeth yn ystod streic y **glowy** 1984/85; gweler *Moss v McLachlan (1985)*). Yn dechnegol, cafodd y pŵer, yn ôl cyfraith gyffredin, i arestio am dor-heddwch ei ddiddymu gan **Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005**, sy'n ei gwneud yn bosibl arestio pobl ar gyfer **pob** trosedd, os oes angen arestio yn ôl un o'r ffactorau **rheidrwydd**.

Gweithgaredd 5.22 Rhwystro'r briffordd a rhwystro'r heddlu

O dan **adran 137** Deddf Priffyrdd 1980, mae'n drosedd i 'unrhyw un sydd heb awdurdod neu esgus **cyfreithlon** rwystro tramwyo rhydd ar hyd priffordd **yn fwriadol**'. At ddibenion y drosedd hon, mae'r briffordd yn cynnwys y **palmant** yn ogystal â'r ffordd. Os yw swyddog heddlu'n gorchymyn siaradwr, dosbarthwr, gwerthwr neu gynulleidfa i symud ymlaen, a'u bod nhw'n gwrthod gwneud hynny, maen nhw'n debygol o gael eu harestio am rwystro'r briffordd neu am rwystro cwnstabl wrth **gyflawni** ei ddyletswydd. Yn achos **Arrowsmith v Jenkins (1963)**, cynhaliwyd cyfarfod gan heddychwyr mewn stryd oedd yn cysylltu dwy briffordd. Roedd y cyfarfod wedi cau'r stryd, a chydweithredodd y trefnydd â'r heddlu i adael iddi gael ei hailagor. Fodd bynnag, roedd y stryd wedi'i chau'n llwyr am 5 munud, ac yn rhannol am 15 munud. Roedd yr heddlu wedi cael rhybudd ymlaen llaw am y cyfarfod; eto i gyd, cafodd y trefnydd ei arestio a'i ganfod yn euog. Yn **Nagy v Weston (1966)**, roedd defnydd **rhesymlol** o'r briffordd yn gyfystyr ag esgus cyfreithlon. Un pwynt i'w ystyried yw **rhesymloldeb**, lle bydd y llys yn ystyried pa mor hir oedd y rhwystr, ei bwrpas, ei leoliad ac a oedd gwir rwystr neu rwystr **posibl**.

Mae rhwystro'r heddlu yn drosedd **statudol** o dan **adran 89 Deddf yr Heddlu 1996**. Mae'r llysoedd wedi bod yn barod iawn i gefnogi defnydd eang o'r drosedd hon, hyd yn oed pan fydd hynny'n cyfyngu'n sylweddol ar ryddid i ymgynnull. Yn **Duncan v Jones (1936)**, dywedwyd wrth siaradwr a oedd yn annerch torf o ben bocs ar y briffordd i roi'r gorau iddi, gan fod yr heddlu'n ofni tor-heddwch. Yr unig reswm dros yr ofn hwn oedd y ffaith bod cynnwrf wedi digwydd yn yr un fan flwyddyn ynghynt, ond cytunodd y llys â'r penderfyniad i arestio'r siaradwr am achosi rhwystr ar ôl iddi wrthod rhoi'r gorau i siarad.

Gweithgaredd 5.23 Stopio a chwilio pobl, cerbydau, ac adeiladau

1. Prif adrannau i'w cymhwyso:

Adran 1 Amheuaeth resymol

Cod A

Adran 2(3)

Adran 2(9)

Adran 3

Adran 117

2. Prif adrannau i'w cymhwyso:

Adran 1 Amheuaeth resymol

Cod A

Adran 2(3)

Adran 2(9)

Adran 3

Adran 117

Gweithgaredd 5.24 Chwilio eiddo ac adeiladau

Adran	Pŵer
Adran 8	Ar ôl dod i mewn i'r adeilad yn gyfreithlon, gall yr heddlu atafaelu a chadw unrhyw dystiolaeth berthnasol.
Adran 17	Mae'n rhoi canllawiau pwysig ynghylch defnyddio'r pŵer i chwilio eiddo ac adeiladau. Mae'n nodi y dylid gwneud y chwilio ar amser rhesymol gan ddefnyddio grym rhesymol, a gan ddangos ystyriaeth a chwarteisi priodol tuag at yr eiddo a phreifatrwydd y meddianwyr.
Adran 18	Gall yr heddlu gael mynediad er mwyn arestio gyda gwarant neu heb warant, er mwyn dal rhywun sydd â'i draed yn rhydd yn anghyfreithlon, neu er mwyn amddiffyn pobl neu atal difrod i eiddo.
Adran 19	Ar ôl arestio rhywun am drosedd dditiadwy, gall yr heddlu chwilio'r adeilad lle mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn byw neu'n ei reoli, os oes ganddyn nhw sail resymol i gredu bod tystiolaeth o'r drosedd neu droseddau eraill yn yr adeilad.
Adran 32	Chwilio gyda gwarant. Mae'n rhoi pŵer i'r heddlu wneud cais i ynadon am warant chwilio. Rhaid i'r ynad fod yn fodlon bod gan yr heddlu sail resymol i gredu bod trosedd dditiadwy wedi cael ei chyflawni, a bod deunydd yn yr adeiladau sydd yn debygol o fod yn werthfawr iawn i'r ymchwiliad i'r drosedd ac sydd yn debygol o fod yn dystiolaeth berthnasol.
Cod B	Ar ôl arestio rhywun am drosedd dditiadwy, gall swyddog heddlu fynd i mewn a chwilio'r adeilad lle cafodd yr unigolyn ei arestio neu lle'r oedd yn union cyn iddo gael ei arestio, os oes gan y swyddog sail resymol i gredu bod tystiolaeth yn ymwneud â'r drosedd benodol yn yr adeilad.

Gweithgaredd 5.25 Pwerau arestio

A yw hi'n gyfreithlon i arestio yn y senarios canlynol? Nodwch a chymhwyswch yr adrannau perthnasol.

1. Adrannau i'w cymhwyso:

Adran 24 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) fel y'i diwygiwyd gan adran 110 Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA)

Adran 24(5)

Cod G

Adran 117

Adran 28

Cod C

Adran 30

Adran 36

Adran 54

2. Adrannau i'w cymhwyso:

Adran s24 PACE fel y'i diwygiwyd gan SOCPA ar gyfer y swyddog diogelwch Gofyniad i alw'r heddlu cyn gynted â phosibl

Erthygl 5 ECHR

3. Adrannau i'w cymhwyso:

Adran 24 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) fel y'i diwygiwyd gan adran 110 Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA)

Adran 24(5)

Cod G

Adran 117

Adran 28

Cod C

Adran 30

4. Adrannau i'w cymhwyso:

Adran 24 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) fel y'i diwygiwyd gan adran 110 Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA)

Adran 24(5)

Cod G

Adran 117

Adran 28

Cod C

Adran 30

Gweithgaredd 5.26 Cadw a holi

Adran	Pŵer
Adran 30	Pan fydd rhywun yn cael ei gadw yn y ddalfa ond heb ei gyhuddo eto, dylai swyddog y ddalfa adolygu'r sefyllfa wedi'r 6 awr gyntaf, ac yna bob 9 awr.
Adran 36	Uchafswm yr amser y gellir cadw rhywun yn y ddalfa yw 96 awr, os bydd ynadon yn cymeradwyo hynny.
Adran 37	Ar ôl cyrraedd gorsaf yr heddlu, bydd swyddog y ddalfa yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i gyhuddo'r sawl a ddrwgdybir.
Adran 40	Gall yr heddlu awdurdodi cadw rhywun yn y ddalfa heb gyhuddiad am hyd at 24 awr. Cafodd hyn ei gynyddu i 36 awr (adran 42) yn dilyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 .
Adran 41	Os nad oes digon o dystiolaeth ar gael eto i gyhuddo rhywun a ddrwgdybir, bydd yr heddlu yn asesu a fyddai modd cael y fath dystiolaeth drwy ei holi, ac os felly, gall y sawl a ddrwgdybir gael ei gadw at y pwrpas hwn. Os nad yw felly, dylid ei ryddhau. Os oes digon o dystiolaeth yn bod eisoes i gyhuddo wrth arestio, dylid rhoi mechnïaeth i'r sawl a ddrwgdybir o dan adran 38 PACE . Ar ôl awdurdodi cadw'r unigolyn, rhaid i swyddog y ddalfa ddechrau cofnod cadwraeth ar gyfer y sawl sy'n cael ei gadw, a rhaid i'r cofnod hwnnw gofnodi'r rhesymau dros ei gadw.
Adran 44	Rhaid mynd â'r sawl a ddrwgdybir i'r orsaf heddlu mor fuan ag sy'n bosibl ar ôl ei arestio, oni bai fod ei angen yn rhywle arall.
Adran 54	Gall yr heddlu gynnal chwiliad cyffredin o'r sawl a arestiwyd pan fydd yn cyrraedd gorsaf yr heddlu. Gallan nhw atafaelu unrhyw eitem y gallai'r unigolyn a ddrwgdybir ei defnyddio i achosi anaf corfforol iddo ef ei hun neu unrhyw un arall yn eu barn nhw, neu i ddifrodi eiddo, ymyrryd â thystiolaeth, neu ei gynorthwyo i ddianc; neu unrhyw eitem y mae gan y cwnstabl seiliau rhesymol dros gredu y gallai fod yn dystiolaeth sy'n ymwneud â throsedd.

Gweithgaredd 5.27 Chwilio a samplau o natur bersonol

Adran	Pŵer
Adran 55	Gellir cymryd samplau sydd heb fod o natur bersonol, fel gwallt a darnau ewinedd, os yw arolygydd neu swyddog uwch yn awdurdodi hynny.
Adran 62	Gall yr heddlu gymryd olion bysedd y sawl a ddrwgdybir.
Adran 63	Gellir tynnu gwybodaeth DNA o'r samplau a gymerwyd, a'u gosod am amser amhenodol ar y gronfa ddata DNA genedlaethol.
Adran 64	Gall rhywun gael ei adnabod drwy samplau o natur bersonol yn ôl y diffiniad yn adran 65 , h.y. samplau'r corff, swabiau ac olion/argraffiadau.
Adran 65	Chwilio o natur bersonol: Gydag awdurdod arolygydd neu swyddog uwch, mae gan yr heddlu y pŵer i gynnal chwiliad o natur bersonol o agorfeydd corff y sawl a ddrwgdybir, os oes gan yr uwch arolygydd seiliau rhesymol dros gredu bod yr unigolyn wedi cuddio rhywbeth y gallai ei ddefnyddio i achosi anaf corfforol iddo'i hun neu eraill wrth gael ei gadw gan yr heddlu neu yn nalfa'r llys; neu bod rhywun o'r fath wedi cuddio cyffuriau Dosbarth A ar ei gorff. Rhaid i'r chwilio gael ei wneud gan weithiwr meddygol proffesiynol neu nyrs gofrestrdig.
Adran 61 ac Adran 27	Gellir cymryd samplau o natur bersonol fel gwaed, poer a semen gan yr unigolyn a ddrwgdybir.
Adran 61A	Gellir cymryd argraffiadau o olion esgidiau.

Gweithgaredd 5.28 Hawliau pobl a ddrwgdybir, a'u triniaeth yn ystod y cyfnod cadw a holi

Senario	Esboniwrch y pŵer	Cymhwyswch
1. Dydy Jacob ddim yn cael mynediad at gyfreithiwr wrth gyrraedd gorsaf yr heddlu.	Adran 58 PACE. Mae gan y sawl a ddrwgdybir yr hawl i ymgynghori â chyfreithiwr yn breifat ac am ddim. Gall yr hawl hon gael ei hatal am hyd at 36 awr. Gall y cyngor hwn gael ei roi dros y ffôn gan wasanaeth Criminal Defence Direct.	Anghyfreithlon – dylai fod wedi cael hawl i weld cyfreithiwr oni bai fod yr hawl wedi cael ei hatal am hyd at 36 awr.

Senario	Esboniwrch y pŵer	Cymhwyswch
2. Mae cyfweiliad Kristi yn dechrau yng nghar yr heddlu. Ar ôl iddi gyrraedd gorsaf yr heddlu, dydy'r cyfweiliad ddim yn cael ei recordio ar dâp, ond maen nhw'n ysgrifennu cofnod o'r cyfweiliad ar ôl ei gynnal, gan ei gorfodi hi i'w lofnodi.	Adran 30 PACE. Dylid cymryd y sawl a ddrwgdybir i orsaf heddlu cyn gynted â phosibl. Wedi cael rhybudd o dan God C. O dan God Ymarfer E, mae cyfweiliadau yn cael eu recordio ar dâp yn achos troseddau ditiadwy, gan gynnwys troseddau neillfordd. Adran 60 PACE. Dylai cyfweiliadau gael eu recordio ar dâp. Fodd bynnag, gwelwyd y gall cyfweiliadau gael eu cynnal y tu allan i'r orsaf heddlu, er enghraifft, ar y ffordd i'r orsaf. Mewn rhai ardaloedd, mae'r heddlu yn ffilmio'r cyfweiliadau hefyd. Rhaid i'r heddlu recordio'r cyfweiliad a'i gadw ar ffeil.	Os cafodd hi rybudd yna gall unrhyw beth y dywedodd hi gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth. Dylid bod wedi recordio'r cyfweiliad yn yr orsaf heddlu yn unol â Chod E ac adran 60 PACE.
3. Mae Stacy yn cael ei harestio am 9 pm ar ei ffordd adref o'r gwaith. Mae hi'n cael ei chadw mewn cell dros nos, a dydy hi ddim yn cael ffonio ei gŵr, er ei bod hi eisiau gwneud hynny gan y bydd ef yn poeni amdani.	Adran 56. Mae gan y sawl a ddrwgdybir yr hawl i roi gwybod i rywun ei fod wedi'i arestio. Gall yr hawl hon gael ei hatal am hyd at 36 awr os teimlir y gall y person a ddewiswyd gan y sawl a ddrwgdybir ymyrryd â'r ymchwiliad mewn rhyw ffordd (e.e. rhoi gwybod i bobl eraill a ddrwgdybir, dinistrio tystiolaeth, etc.). Adran 36. Ar ôl cyrraedd gorsaf yr heddlu, bydd swyddog y ddalfa yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i gyhuddo'r sawl a ddrwgdybir. Adran 37. Os nad oes digon o dystiolaeth ar gael eto i gyhuddo rhywun a ddrwgdybir, bydd yr heddlu yn asesu a fyddai modd cael y fath dystiolaeth drwy ei holi, ac os felly, gall y sawl a ddrwgdybir gael ei gadw at y pwrpas hwn. Os nad oes, dylid ei ryddhau. Os oes digon o dystiolaeth yn bod eisoes i gyhuddo wrth arestio, dylid rhoi mechnïaeth i'r sawl a ddrwgdybir o dan adran PACE. Ar ôl awdurdodi cadw'r unigolyn, rhaid i swyddog y ddalfa ddechrau cofnod cadwraeth ar gyfer yr unigolyn, a rhaid i'r cofnod hwnnw gofnodi'r rhesymau dros ei gadw – COD C ac adran 37. Adran 40. Pan fydd rhywun yn cael ei gadw yn y ddalfa ond heb ei gyhuddo eto, dylai swyddog y ddalfa adolygu'r sefyllfa wedi'r 6 awr gyntaf, ac yna bob 9 awr. Adran 41. Gall yr heddlu awdurdodi cadw rhywun yn y ddalfa heb gyhuddiad am hyd at 24 awr. Cafodd hyn ei gynyddu i 36 awr (adran 42) yn dilyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.	Dydy hi ddim wedi cael yr hawl i ffonio ei gŵr. Nid yw'n ymddangos bod ei chyfnod cadw wedi cael ei adolygu. Nid yw'n ymddangos ei bod hi wedi gweld swyddog y ddalfa.

Senario	Esboniwrch y pŵer	Cymhwyswch
4. Mae Adam, aelod o gang, yn cael ei arestio ar ôl sawl lladrad yn yr ardal. Dydy Adam ddim yn cael ffonio ei ffrind Shahid.	Adran 56. Mae gan y sawl a ddrwgdybir yr hawl i rywun gael gwybod ei fod wedi'i arestio. Gall yr hawl hon gael ei hatal am hyd at 36 awr os teimlir y gall y person a ddewiswyd gan y sawl a ddrwgdybir ymyrryd â'r ymchwiliad mewn rhyw ffordd (e.e. rhoi gwybod i bobl eraill a ddrwgdybir, dinistrio tystiolaeth, etc.).	Gallan nhw wrthod yr hawl i Adam ffonio ei ffrind am hyd at 36 awr os ydyn nhw'n teimlo y gall Shahid ymyrryd â'r ymchwiliad.
5. Mae Angel, merch 14 oed sy'n cael ei hamau o ddwyn o siopau, yn cael ei chyfweld ar ei phen ei hun.	Adran 57. Mae'n rhaid i bobl a ddrwgdybir sy'n fregus ac yn agored i niwed (h.y. pobl o dan 17 oed a phobl ag anhwylder/anabledd meddwl) gael oedolyn priodol gyda nhw adeg yr holi. Mae'r hawl hon yn ychwanegol at yr hawl o dan adran 58 uchod. Gall absenoldeb yr unigolyn hwn olygu bod unrhyw gyfaddefiad yn annerbyniol yn y llys.	Byddai ei datganiadau yn annerbyniol oherwydd nad oes unigolyn priodol yn bresennol. Dylai hi fod wedi cael caniatâd i gysylltu â chyfreithiwr hefyd.
6. Yna mae Angel yn cael ei chadw mewn cell am 10 awr dros nos.	Adran 58. Mae gan y sawl a ddrwgdybir yr hawl i ymgynghori â chyfreithiwr yn breifat ac am ddim. Gall yr hawl hon gael ei hatal am hyd at 36 awr am y rhesymau a nodwyd uchod. Gall y cyngor hwn gael ei roi dros y ffôn gan wasanaeth Criminal Defence Direct.	

Gweithgaredd 5.29 Derbynioldeb tystiolaeth

Mae'n hanfodol bod pwerau'r heddlu yn cael eu harfer yn gywir er mwyn i'r dystiolaeth a gasglwyd allu cael ei defnyddio yn y llys (h.y. **derbynioldeb**). Gall y llysoedd wrthod derbyn tystiolaeth os nad yw wedi ei chael yn y modd priodol.

Adran 76(2)(a): Gall tystiolaeth cyfaddefiad gael ei heithrio adeg y treial os cafodd y cyfaddefiad ei sicrhau drwy **orthrwm**. Os codir y cwestiwn hwn, bydd rhaid i'r **erlyniad** brofi y tu hwnt i bob **amheuaeth** resymol na chafodd y cyfaddefiad ei sicrhau drwy orfodaeth.

Adran 76(2)(b): Gall tystiolaeth cyfaddefiad gael ei heithrio adeg y treial os cafodd ei sicrhau mewn amgylchiadau sy'n ei gwneud yn **annibynadwy**. Gweler achosion **Samuel missing word** a **R v Grant (2005)**, lle nad oedd mynediad at gyngor cyfreithiol, gan olygu bod y cyfaddefiadau yn annerbyniol.

Adran 78: Gall unrhyw dystiolaeth, gan gynnwys cyfaddefiad, gael ei heithrio o dan yr adran hon ar y sail y byddai'n effeithio'n **andwyol** ar **degwch** y treial. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd megis peidio ag ysgrifennu cofnod y cyfweiliadau yn syth ar ôl iddyn nhw orffen fel yn achos **R v Canale (1990)**.

Rhaid i achosion o dorri'r Codau Ymarfer fod yn 'ddifrifol a **sylweddol**' cyn gallu ystyried eithrio'r dystiolaeth a gafwyd.

O dan **adran 57**, mae'n rhaid i bobl a ddrwgdybir ac sy'n agored i niwed (gan gynnwys pobl sydd o dan 17 oed) gael oedolyn **priodol** gyda nhw yn ystod yr holi. Gall absenoldeb yr unigolyn hwn olygu bod unrhyw gyfaddefiad yn annerbyniol yn y llys. O dan **adran 77**, byddai'r rheithgor yn cael ei rybuddio bod cyfaddefiad wedi ei wneud gan rywun agored i niwed ag anhwylder meddyliol.

Gweithgaredd 5.30 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Adran	Crynodeb
Adran 1	Mae'n drosedd rhyng-gipio cyfathrebu yn fwriadol a heb awdurdod cyfreithiol drwy wasanaeth post neu system telegyfathrebu.
Adran 3	Bydd rhyng-gipiad yn anghyfreithlon os bydd yn cael ei wneud heb gydsyniad.
Adran 5, Adran 5(2), Adran 5(3)	Bydd gwarant yn cael ei rhoi dim ond os yw'r Ysgrifennydd Cartref yn credu bod hyn yn 'angenrheidiol' ar gyfer rhai dibenion penodol a nodir yn adran 5(3), ac os yw'r ymddygiad a awdurdodir yn y warant yn gymesur â'r hyn mae'r ymddygiad hwnnw'n ceisio'i gyflawni – adran 5(2). Dyma'r dibenion penodol yn adran 5(3): a) er budd diogelwch cenedlaethol. b) atal neu ganfod troseddu difrifol. c) diogelu lles economaidd y DU. d) rhoi cytundeb cymorth rhyngwladol ar y cyd ar waith mewn amgylchiadau sy'n cyfateb i'r rhai a nodir yn adran (b).
Adran 6	Yn nodi'r unigolion all wneud cais am warant o dan adran 5 .
Adran 81(3)	Fel hyn y diffinnir y troseddu 'difrifol' a amlinellir yn (b) gan adran 81(3): a) mae'r drosedd neu un o'r troseddau sydd neu a fyddai'n cael ei chyflawni gan yr ymddygiad yn drosedd y byddai rhywun sydd yn 21 oed, a heb euogfarn flaenorol, yn disgwyl cael ei ddedfrydu i gyfnod yn y carchar am dair blynedd neu fwy am ei chyflawni; b) mae'r ymddygiad yn cynnwys defnyddio trais, yn arwain at fudd sylweddol, neu'n ymddygiad gan nifer mawr o bobl sy'n dilyn pwrpas cyffredin
Adran 8 ac Adran 9	Mae Adran 8 yn ymdrin â chynnwys y warant – mae'n rhaid iddi nodi'r targed a chynnwys gwybodaeth am gyfeiriadau. Mae Adran 9 yn ymdrin â hyd y warant – y cyfnod cychwynnol yw tri mis o ddyddiad ei chyhoeddi, ond gellir ei hadnewyddu mor aml ag y dymunir, os yw'r Ysgrifennydd Cartref yn parhau i gredu bod hyn yn angenrheidiol.
Adran 65	Tribiwnlys yw'r unig ffordd i bobl sy'n anfodlon â'r system allu cwyno.
Adran 67	Rhaid i'r tribiwnlys weithredu ar egwyddorion 'adolygiad barnwrol'. Golyga hyn ei fod yn canolbwyntio mwy ar weithdrefn nag ar sylwedd. Os bydd y tribiwnlys yn dod i'r casgliad bod rhywbeth yn amhriodol, mae ganddo'r pŵer i ddileu gwarant, gorchymyn dinistrio unrhyw wybodaeth a dyfarnu iawndal. Does dim llwybr apêl pellach ar ôl y tribiwnlys.

Adran	Crynodeb
Adran 26, Adran 26(2), Adran 26(8)	Yn nodi'r math o ymddygiad y mae'r Ddeddf yn ymdrin ag ef: gwyliadwriaeth wedi'i chyfeirio, gwyliadwriaeth ymyrrol ac ymddygiad a'r defnydd o ffynonellau cuddwybodaeth ddynol. Adran 26(2): mae gwyliadwriaeth gudd nad yw'n ymyrrol yn wylidwriaeth wedi'i chyfeirio 'os caiff ei gyflawni at ddibenion ymchwiliad penodol ac er mwyn cael gwybodaeth breifat am unigolyn'. Adran 26(8): mae'r adran hon yn rhoi diffiniad o ystyr ffynhonnell guddwybodaeth ddynol, bydd ffynhonnell o'r fath yn sefydlu neu'n cynnal perthynas gydag unigolyn at y diben cudd o ddefnyddio'r berthynas i gael mynediad at wybodaeth, neu er mwyn rhoi mynediad at unigolyn arall, neu at y diben cudd o ddatgelu gwybodaeth a gafwyd o'r berthynas.
Adran 28	Caniateir awdurdodiadau o dan adrannau 28–32. Adrannau 28/29: Gellir awdurdodu gwyliadwriaeth gudd ar yr un sail â'r hyn a nodir yn Neddf yr Heddlu 1997, e.e. gall uwch-arolygydd awdurdodi, rhaid ei fod yn angenrheidiol a chymesur ac mae'r sail yn cynnwys diogelwch cenedlaethol a lles economaidd y DU, nid oes rhaid i'r drosedd fydd yn cael ei hatal fod yn ddifrifol, ac mae adran 28 hefyd yn cynnwys 'diogelwch y cyhoedd', 'iechyd y cyhoedd' a chasglu trethi.
Adran 29	Fel uchod.
Adran 32	Mae awdurdodiadau ar gyfer gwyliadwriaeth ymyrrol yn cael eu caniatáu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu uwch swyddogion awdurdodi (e.e. prif gwnstablaid), mae gofynion yn ymwneud â bod 'yn angenrheidiol a chymesur' yn gymwys ond mae'r sail yn gyfyngedig i ddiogelwch cenedlaethol, lles economaidd y DU a throesddu difrifol; rhaid rhoi rhybudd i'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth ac ni fydd yr awdurdodiad yn dod i rym nes iddo gael ei gymeradwyo.


Gweithgaredd 5.31 Deddf Pwerau Ymchwilio 2016

Mae **Deddf Pwerau Ymchwilio 2016** yn dod â phwerau presennol ynghyd ac yn eu diweddarau. (**Bydd RIPA 2000** yn parhau nes iddi gael ei diddymu'n benodol.)

Dyma beth mae'r **Ddeddf Pwerau Ymchwilio** yn eu cyflwyno:

- 'clo **dwbl**' ar gyfer y pwerau mwyaf ymyrrol, gan olygu bod rhaid i warantau sy'n cael eu cyhoeddi gan **Ysgrifennydd Gwladol** gael eu cymeradwyo gan uwch **farnwr**
- pwerau newydd ac aildatgan pwerau presennol, ar gyfer **asiantaethau** cuddwybodaeth a gorfodi'r gyfraith yn y DU, i ryng-gipio mewn ffordd wedi'i **thargedu**, casglu data cyfathrebu mewn **swmp**, a rhyng-gipio **cyfathrebu**
- **Comisiwn** pwerau ymchwilio grymus newydd i oruchwylio sut defnyddir y pwerau
- amddiffyniadau newydd i ddeunydd newyddiadurol a chyfreithiol **freintiedig**
- gofyn cael awdurdod barnwrol ar gyfer casglu data cyfathrebu sy'n enwi **newyddiadurwyr**
- **cosbau** llym, gan gynnwys creu troseddau newydd ar gyfer y rhai sy'n camddefnyddio'r pwerau

Gweithgaredd 5.32 Chwilair tor-cyfrinachedd



Gair	Esboniad
Amharu ar breifatrwydd	Ymyrryd mewn ffordd annerbyniol e.e. ym mhreifatrwydd rhywun arall
Mynegiant	Yr hawl i gael llonydd/rhyddid rhag arsylwi ac ymrraeth. Dyma ddiffiniad Pwyllgor Calcutt 1990: 'Hawl yr unigolyn i gael ei amddiffyn rhag ymrraeth yn ei fywyd neu faterion personol, neu fywyd neu faterion personol ei deulu, drwy ddulliau corfforol uniongyrchol neu drwy gyhoeddi gwybodaeth.'
Ymyrryd	Datgelu meddyliau neu deimladau rhywun ar fater.
Tor-cyfrinachedd	Datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd. Rhwymedi sifil yw hwn sy'n amddiffyn yn erbyn datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth nad yw'n hysbys yn gyffredinol, ac sydd wedi ei hymddiried mewn amgylchiadau sy'n gosod rhwymedigaeth i beidio â'i datgelu heb awdurdod.
Datgeliad	Y weithred o ddatgelu gwybodaeth.
Rhwymedi	Ateb i'r mater dan sylw.
<i>Prince Albert v Strange</i>	Yr achos cyntaf i ddefnyddio'r gyfraith sifil i amddiffyn preifatrwydd. Dyfarnodd y llys waharddeb i'r Tywysog Albert, yn atal Strange rhag cyhoeddi catalog yn disgrifio lluniau'r Tywysog Albert.

Gair	Esboniad
Gwaharddeb	Rhwymedi sifil. Gorchymyn i wneud neu beidio â gwneud rhywbeth (statudol a gwaharddol).
Cyfraith sifil	Cyfraith breifat. Yn datrys anghydfodau rhwng dau barti.
<i>Coco v AN Clark</i>	Cafodd tair elfen draddodiadol tor-cyfrinachedd eu crynhoi yn achos allweddol <i>Coco v AN Clark (Engineers) Ltd (1969)</i> : 1. Rhaid i'r wybodaeth gynnwys yr elfen angenrheidiol o gyfrinachedd. 2. Rhaid bod y wybodaeth wedi ei rhoi mewn amgylchiadau oedd yn mynegi rhwymedigaeth o gyfrinachedd. 3. Rhaid bod defnydd heb ei awdurdodi o'r wybodaeth honno.
Gwybodaeth	Gofyniad.
Rhwymedigaeth	Ddim yn cael ei ganiatáu.
Heb awdurdod	Ni fydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei hamddiffyn os yw lles y cyhoedd yn bwysicach na'r lles o gadw cyfrinachedd.
Amddiffyniad er lles y cyhoedd	Achos yn ymwneud â chydbwyso cyfrinachedd a budd y cyhoedd.
<i>Spycatcher</i>	Ymyrryd mewn ffordd annerbyniol e.e. ym mhreifatrwydd rhywun arall

Gweithgaredd 5.33 Tor-cyfrinachedd a phreifatrwydd ar ôl Deddf Hawliau Dynol 1998

Ymchwiliwch i bob achos a rhannwch eich canfyddiadau gyda'ch cyd-fyfyrwyr.

Gweithgaredd 5.34 Anweddustra

Adran	Diffiniad
Adran 2(1)	Cyhoeddi. Ystyrir bod rhywun yn 'cyhoeddi' erthygl os yw'n '(a) dosbarthu, cylchredeg, gwerthu, gosod i'w logi, rhoi, neu ei fenthycu, neu'n ei gynnig ar werth neu i'w osod i'w logi; neu (b) yn achos erthygl sy'n cynnwys neu'n ymgorffori deunydd ar gyfer edrych arno neu ei recordio, ei ddangos, ei chwarae neu ei daflunio neu, lle mae'r deunydd yn cael ei storio'n electronig, yn darlledu'r data hwnnw'. Felly, mae darlledu data yn electronig drwy'r rhyngwyd yn gyfystyr â chyhoeddi.
Adran 1(1)	Erthygl. Mae'n golygu unrhyw beth 'sy'n cynnwys neu'n ymgorffori deunydd ar gyfer ei ddarllen, edrych arno, neu'r ddau, ac unrhyw recordiad sain, ac unrhyw ffilm neu gofnod arall o lun neu luniau'.
Adran 1(2)	Mae'n drosedd cyhoeddi ' erthygl anweddus i gael elw neu beidio' neu fod ag erthygl anweddus i'w chyhoeddi i gael elw.
Adran 1(3)	Amddiffyniad os nad oedd ' unrhyw achos rhesymol dros amau bod yr erthygl yn anweddus'.
Adran 2(5)	Mae'n darparu ar gyfer amddiffyniad ' er lles y cyhoedd ', ond gellir ei ddefnyddio dim ond pan mae'r rheithgor wedi sefydlu bod yr erthygl yn anweddus.
Adran 1(3)(a)	Mae'n darparu amddiffyniad cyfatebol mewn perthynas â chyhuddiad o 'fod ag erthygl anweddus i'w chyhoeddi i gael elw'.
Adran 4(1)	Mae'n rhoi diffiniad o 'anweddus' at ddibenion y Ddeddf. Mae'n nodi: 'ystyrir bod erthygl yn anweddus os yw ei heffaith neu (lle bydd yr erthygl yn cynnwys dau neu fwy o eitemau ar wahân) os yw effaith unrhyw un o'i heitemau, o'u hystyried fel cyfanwaith, yn tueddu i lygru a difetha pobl sydd, o ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol, yn debygol o ddarllen, gweld neu glywed y deunydd sydd wedi'i gynnwys neu ei ymgorffori ynddi.'

Gweithgaredd 5.35 Chwilair Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008

A M D D I F F Y N I A D A U C Y F F R E D I N O L G
 L G A L U S J M L S N T S Y U B E N E I T H A F O L
 H Y U H J P T T F W F D F H H N U Y R I R O E N D T
 N J A R U E C M J P I N O F I U L C D H J C E A O L
 P W S J H L B I P D O P F S S G H P Y C J R E D N I
 C T M E O J P P B D O P G G Y M Y M N G O H L W E T
 G G P B D E S P A C G G U R S T B M U J G O N Y P U
 F B H T T P J F I S R R P R T T F B M W R Y T O D B
 J W N H F O R F G I A E J G O B P Y P O E M R D A T
 T S P F P E J W N C N I L M F Y P B S T D J A R I M
 D O D F S W A H L O N A D M A D Y W N N Y F O A N J
 A T U Y S B C E Y L L P L H F E N A H R D Y R M Y C
 G S M T J Y T O J E J H P D H N I G Y P D G N G F S
 H O U J Y F J O P Y U O T J B D M W J L E P C W F C
 L E C U I A N U I W E E J I D H L J J M I U E Y I N
 E J T G D I Y P N J I Y C E E Y E G B N J A G D D J
 F W H A E G N F D D O H M P W R P J J H L A E D D N
 R P P U S J B P J C F I L G P P F O L G M M J U M B
 J A E T G I W B H O P A J W I T O Y U F S C O S A T
 R H C J F W G G C S C T T O O B A I C H B B B A J G

Gweithgaredd 5.36 Difenwad

O dan **adran 11 Deddf Difenwad 2013**, mae achosion difenwad bellach yn cael eu profi heb **reithgor**, oni bai fod y llys yn gorchymyn fel arall. Barnwr, felly, sy'n penderfynu ar y **rhwymedi**. **Lawndal** yw'r prif rhwymedi, ond gall fod yn **waharddeb** hefyd.

Rhaid sefydlu nifer o elfennau er mwyn cael hawliad llwyddiannus:

1. Rhaid i'r datganiad fod yn **ddifenwol**. Does dim diffiniad statudol nac unigol, er bod diffiniad derbyniol i'w gael yn **Sim v Stretch (1936)**. Mae'r llysoedd yn ystyried a fyddai'r datganiad yn 'tueddu i iselhau'r hawlydd yng **ngolwg** aelodau cyffredinol synhwyrol o'r **gymdeithas**?'. Gall hyn olygu pobl gyffredin, resymol ac nid eu ffrindiau na'u **teulu**. Does dim rhaid profi colled na difrod, yn **ariannol** neu fel arall, yn y rhan fwyaf o achosion. Mae enghreifftiau o achosion yn cynnwys **Byrne v Deane (1937)** a **Berkoff v Burchill (1996)**.

Does dim rhaid i ddatganiad feirniadu'r hawlydd yn uniongyrchol. Ond gallai wneud hynny yn anuniongyrchol, drwy oblygiad (implication). Yr enw ar hyn yw '**ensyniad**' (*innuendo*). **Tolley v J S Fry & Sons Ltd (1931)**.

Nid yw'n berthnasol os oedd y diffynnydd yn bwriadu cyhoeddi datganiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar enw da hawlydd, neu beidio.

2. Rhaid i'r datganiad gyfeirio at yr **hawlydd**, neu rhaid gallu cymryd ei fod yn cyfeirio at yr hawlydd. Rhaid i'r hawlydd brofi y byddai darllenwydd neu wrandawr cyffredin, rhesymol yn cymryd bod y datganiad yn cyfeirio ato.

Mae sawl ffordd i hyn ddigwydd. Gellir enwi'r hawlydd, un ai drwy roi ei **enw** go iawn neu enw **ffuglennol** (fel yn **Hulton v Jones (1910)**). Gellir defnyddio **llun** o'r hawlydd (**Dwek v Macmillan Publishers Ltd and Others (2000)**). At hynny, gall y datganiad gyfeirio at yr hawlydd drwy gyd-destun (**Hayward v Thompson (1964)**).

Gall datganiadau difenwol ymwneud â grŵp o bobl hefyd, ond efallai na fydd grwpiau mawr iawn yn gallu hawlio, fel yn achos **Knupffer v London Express Newspapers (1944)**, oni bai fod modd adnabod yr hawlydd ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, nid yw'r llysoedd wedi nodi uchafswm penodol o bobl ar gyfer cyflwyno hawliad llwyddiannus, fel yn achos **Riches v News Group (1986)**.

3. Rhaid bod y datganiad wedi cael ei **gyhoeddi**. Mae hyn yn ymwneud â mwy na phapur newydd, cylchgrawn neu deledu 'traddodiadol'. Mae 'cyhoeddi' yn golygu bod y wybodaeth wedi **pasio** o'r diffynnydd i rywun arall ac eithrio'r hawlydd neu **wr/gwraig y diffynnydd**.
4. Mae cyhoeddi'r datganiad wedi achosi niwed **difrifol** i **enw da** hawlydd (**adran 1(1) Deddf Difenwad 2013**), neu mae'n debygol o'i achosi. Y nod yw ceisio lleihau nifer yr hawliadau am achosion dibwys o sarhau neu jôcs, ac mae'n amddiffyn **rhyddid mynegiant** hefyd. Niwed i enw da yn unig sydd wedi'i gynnwys, nid achosi niwed i deimladau, a gall y cyfryngau osgoi atebolrwydd drwy gyhoeddi **ymddiheuriad** buan; gweler **Cooke and Another v MGN Ltd (2014)**.

Mae nifer o amddiffyniadau all fod yn gymwys hefyd.

- Gwirionedd: **adran 2 Deddf Difenwad 2013**.
- Barn **onest**: **adran 3 Deddf Difenwad 2013**
- Cyhoeddi cyfrifol ar fater o bwys i'r cyhoedd; **adran 4 Deddf Difenwad 2013**.
- **Braint** absoliwt
- Braint amodol.
- Cynnig i **wneud iawn**.

Gweithgaredd 5.37 Chwilair Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008

I lawr

1. Aflonyddu
2. Bwlio
3. Stelcian
4. Paparazzi

Ar draws

5. Statudol
6. Iawndal
7. Ofni torri
8. Ymddygiad
9. Trosedd

5.4 Cwestiynau cyflym

1. Enllib ac athrod.
2. Mae'r sylw difenwol yn ymddangos ar ffurf barhaol.
3. Mae'r sylw difenwol yn ymddangos ar ffurf nad yw'n barhaol.
4. Mae'r llysoedd yn ystyried a fyddai'r datganiad yn 'tueddu i iselhau'r hawlydd yng ngolwg aelodau cyffredinol synhwyrol o'r gymdeithas'.
5. Rhyddid barn a rhyddid mynegiant.
6. Yr hawl i breifatrwydd.
7. Gwirionedd (*adran 2 Deddf Difenwad 2013*); barn onest (*adran 3 Deddf Difenwad 2013*); Cyhoeddi cyfrifol ar fater o bwys i'r cyhoedd (*adran 4 Deddf Difenwad 2013*); baint absoliwt; baint amodol; cynnig i wneud iawn